

Mawrth 2024

Hysbysiad o gynnig Ofwat i osod cosb ariannol ar Dŵr Cymru Cyfyngedig

Ofwat

Hysbysiad o gynnig Ofwat i bennu cosb ariannol ar Dŵr Cymru Cyfyngedig ('Dŵr Cymru')

14/03/2024

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	4
3. Tystiolaeth	20
4. Canfyddiadau	52
5. Cynnig i bennu cosb ariannol	60
6. Sut i wneud sylwadau neu wrthwynebiadau	77

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ('Ofwat') yn hysbysu Dŵr Cymru Cyfyngedig ('Dŵr Cymru' neu 'y Cwmni')¹ drwy'r ddogfen hon (yr 'Hysbysiad') bod, yng ngoleuni ymgymeriadau y mae'r Cwmni wedi rhoi gwybod amdanynt wrth Ofwat, ei fod o dan adran 19(1)(b) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ('WIA91'), yn cynnig pennu cosb mewn enw o dan adran 22A(1) a (2) WIA91am dorri amodau y darpariaethau canlynol:

- paragraff 9.2 Amod B; paragraff 1 o Amod M; a paragraff 6 Amod F o'i Offeryn Penodi ('Trwydded')² drwy gamadrodd gwybodaeth mewn cysylltiad â'i ymrwymadau perfformiad o ran gollyngiadau a defnydd y pen ('PCC') yn ei Adroddiadau Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 a 2021-22 a'i gynllun busnes PR19, a gwybodaeth am ei ymrwymiad perfformiad yn ymwneud â gollyngiadau yn ystod tair blynedd olaf cyfnod adolygiad prisiau 2015-2020; ac
- paragraff P12 Amod P o'i Drwydded mewn perthynas â digonolrwydd ei adnoddau rheoli a systemau cynllunio a rheolaeth fewnol i'w alluogi i gyflawni ei weithgareddau a reoleiddir yn briodol, yn enwedig mewn perthynas â'i adrodd rheoleiddiol

1.2 Mae Ofwat o'r farn y byddai'n briodol pennu cosb yn yr achos hwn ac y dylai lefel y gosb honno fod yn 4.5% o drosiant gwasanaethau dŵr Dŵr Cymru yn 2022-23. Mae hyn yn dod i gyfanswm o tua £15.16 miliwn. Fodd bynnag, gan ystyried y pecyn o fesurau ariannol ac anariannol y mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith, mae Ofwat yn cynnig lleihau'r gosb hon i un mewn o £1. Mae'r pecyn o fesurau yn cynnwys iawndal uniongyrchol i gwsmeriaid sy'n dod i gyfanswm o £30 miliwn, yn ogystal â'r cwmni yn dychwelyd £9.4 miliwn i gwsmeriaid drwy daliadau tanberfformiad awtomatig o dan ei benderfyniad adolygu prisiau.³ Mae nawr wedi ymrwymo i fuddsoddi £59 miliwn yn fwy na'r hyn a ragwelwyd gan ei benderfyniad prisiau PR19 i wella ei berfformiad gollyngiadau a PCC (wedi'i ariannu trwy gyfuniad o gyfraniadau cwmni a chwsmeriaid).

1.3 Fel sy'n ofynnol gan adran 22A(4) WIA91, mae'r Hysbysiad hwn yn rhoi cefndir perthnasol, manylion y tramgwyddau a'r gosb arfaethedig. O dan adran 22A(4)(d) WIA91, rhaid i'r Hysbysiad hwn ganiatáu o leiaf 21 diwrnod ar gyfer cyflwyno

¹ Dŵr Cymru Cyfyngedig (Rhif Cwmni 02366777).

² Offeryn Penodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer Dŵr Cymru Cyfyngedig fel ymgwymerwr dŵr a charthffosiaeth o dan Ddeddf Dŵr 1989.

³ Mae £9.4 miliwn ym mhrisiau 2022-23, sy'n adlewyrchu taliad tanberfformiad gwerth £7.8 miliwn ym mhrisiau 2017-18.

sylwadau neu wrthwynebiadau i'n cynnig. Mae adran 6 yn egluro sut i gyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau i'r Hysbysiad hwn.

2. Cefndir

Pwysigrwydd rheoli adnoddau dŵr

- 2.1 Mae rheoli dŵr fel adnodd naturiol yn gynyddol bwysig. Cydnabyddir yn eang y bydd pwysau o ganlyniad i dwf poblogaeth a newid yn yr hinsawdd, yn gyffredinol, yn effeithio ar yr adnoddau dŵr sydd ar gael, gan leihau argaeledd dŵr y pen yng Nghymru a Lloegr. Mae gwell dealltwriaeth o effaith amgylcheddol tynnu gormod o ddŵr wedi pwysleisio'r angen i gwmnïau dŵr reoli adnoddau dŵr mor effeithiol â phosibl, er enghraifft trwy leihau defnydd cwsmeriaid o ddŵr trwy annog mwy o effeithlonrwydd dŵr, a thrwy leihau gollyngiadau. Pwysleisiwyd hyn ymhellach gan doriadau i gyflenwadau oherwydd digwyddiadau sychder mwy a mwy aml dros y blynyddoedd diwethaf, gyda rhagolygon tebyg ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar gyfer rhannau o'r DU, gan gynnwys Cymru.
- 2.2 Yn y cyd-destun hwn, mae rheolaeth effeithiol lefelau gollyngiadau a PCC⁴ yn arbennig o bwysig i'r modd y mae cwmnïau dŵr yn datblygu ac yn cynnal system effeithlon a darbodus o gyflenwi dŵr yn eu hardal, sy'n ddyletswydd allweddol ar bob cwmni dŵr. Mae rheoli gollyngiadau a defnydd yn effeithiol yn dibynnu ar fod gan gwmnïau dŵr ddealltwriaeth gadarn o faint o ddŵr y maent yn ei ddarparu bob dydd a ble mae'n cael ei ddefnyddio, gan gynnwys faint sy'n cael ei golli fel gollyngiadau. Mae'r ddealltwriaeth hon o berfformiad gwirioneddol yn allweddol i alluogi cwmnïau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o danberfformiad a gwella'u darpariaeth ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd.
- 2.3 Mae monitro ac adrodd manwl ar berfformiad yn y maes hwn yn hanfodol gan fod Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r data a adroddir wrth reoleiddio cwmnïau dŵr, i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau fel cwmnïau dŵr statudol, ac i'w cymell i roi gwerth da a chanlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae'r metrigau hyn hefyd yn agweddau pwysig ar y cynlluniau rheoli adnoddau dŵr tymor hwy y mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr eu cynhyrchu a'u cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru) neu Asiantaeth yr Amgylchedd (ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu yn Lloegr), at ddibenion sicrhau eu bod yn gallu ateb y galw ar sail barhaus yn unol â'u dyletswyddau statudol.

⁴ PCC yw'r swm cyfartalog y dŵr a ddefnyddir fesul person y dydd, wedi'i fesur mewn litrau y pen y dydd (l/h/d).

Proses adolygu prisiau Ofwat

- 2.4 Un o'r ffyrdd y mae Ofwat yn rheoleiddio cwmnïau dŵr yw drwy gynnal adolygiadau prisiau, a thrwy'r rhain mae'n pennu'r pecyn pris, buddsoddi a gwasanaeth y bydd cwsmeriaid yn ei gael, a'r rheolaethau prisiau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall cwmnïau ei godi ar eu cwsmeriaid. Bydd Ofwat yn cynnal yr adolygiad prisiau hwn bob pum mlynedd, a chyfeirir at y cyfnod dan sylw fel cyfnod Cynllun Rheoli Asedau ('AMP'). Ers preifateiddio'r sector ym 1989 bu saith cyfnod AMP, gyda'r un presennol yn cwmpasu'r cyfnod 2020–25. Mae adolygiad prisiau 2019 ('PR19') yn nodi disgwyliadau Ofwat o ran darpariaeth cwmnïau ar gyfer y cyfnod hwn.
- 2.5 Ar gyfer pob adolygiad prisiau, mae Ofwat yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr ddatblygu cynlluniau busnes sy'n nodi'r hyn y byddant yn ei gyflawni yn ystod y cyfnod AMP nesaf er mwyn bodloni eu rhwymedigaethau statudol ac ymrwymïadau eu trwydded mewn modd effeithlon a darbodus, gan gynnwys lefelau gwasanaeth ar gyfer agweddau amrywiol ar eu darpariaeth ar gyfer cwsmeriaid ('canlyniadau'). Drwy ei broses adolygu prisiau, mae Ofwat yn profi ac yn herio cynlluniau busnes cwmnïau i sicrhau bod y gwelliannau gwasanaeth y maent yn eu cynnig yn ddigon ymestynnol, ac i sicrhau buddsoddiad effeithlon. Yna, mae adolygiad prisiau Ofwat yn gosod y lefelau perfformiad y dylai pob cwmni fod yn ceisio eu cyflawni yn ystod yr AMP ar gyfer set o ganlyniadau penodol, a elwir yn ymrwymïadau perfformiad ('Ymrwymïadau Perfformiad'). Gosodwyd Ymrwymïadau Perfformiad i gwmnïau ar gyfer gollyngiadau yn adolygiad prisiau 2014 ('PR14') a PR19, ar gyfer cyfnodau 2015–20 a 2020–25 yn y drefn honno. Yn PR19, fe wnaeth Ofwat hefyd gyflwyno PCC fel Ymrwymïad Perfformiad ar gyfer pob cwmni dŵr.
- 2.6 Trwy'r adolygiad prisiau mae cwmnïau'n cael eu cymell i gyflawni eu Hymrwymïadau Perfformiad trwy fecanwaith cymell a elwir yn Gymhellion Cyflawni Canlyniadau ('ODI'). Gall cwmnïau sicrhau buddion ariannol o ganlyniad i berfformio'n well na'u Hymrwymïadau Perfformiad neu orfod gwneud taliadau tanberfformio lle nad ydynt yn gwneud hynny.⁵ Mae penderfyniadau adolygiad prisiau Ofwat yn gosod y lefel uchaf o daliadau ODI y gall cwmnïau orfod ei dalu ar Ymrwymïadau Perfformiad penodol (cyfeirir atynt fel 'capiâu' ar gyfer taliadau gorberfformiad, a 'choleri' ar gyfer taliadau tanberfformiad).
- 2.7 Mae gwahaniaethau o ran pryd y daw taliadau ODI i rym. Ar gyfer rhai Ymrwymïadau Perfformiad, megis gollyngiadau, mae'r taliadau ODI cysylltiedig yn

⁵ Mae'r taliadau hyn yn wahanol i'r cosbau ariannol gorfodi y gall Ofwat eu gosod o dan [adran 22A WIA91](#). Mae'r cyntaf yn rhan o fecanweithiau a ddefnyddir yn yr adolygiad prisiau i gymell cyflawni Ymrwymïadau Perfformiad y cytunwyd arnynt; mae'r olaf yn gosbau am dorri gofynion statudol neu drwydded y mae Ofwat yn eu gorfodi.

cael eu cymhwysu 'yn y cyfnod', sy'n golygu eu bod yn cael eu setlo'n flynyddol, gan ddod â'u heffaith ariannol yn nes at y perfformiad sy'n creu'r taliad. Mewn cyferbyniad, mae gan rai Ymrwymadau Perfformiad, megis PCC, daliadau ODI 'diwedd cyfnod', sy'n cael eu cronni dros y cyfnod o bum mlynedd a'u cymhwysu unwaith, ar ddiwedd y cyfnod AMP.⁶

- 2.8 Mae'n ofynnol i gwmnïau adrodd wrth Ofwat yn flynyddol ar gyflawniad eu Hymrwymadau Perfformiad, trwy eu Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ('**APR**'), gan gynnwys manylion unrhyw daliadau ODI y maent wedi'u cael o ganlyniad i'w perfformiad.⁷ Dyma'r wybodaeth sy'n llywio penderfyniadau Ofwat ar addasiadau i'r swm o arian y gall cwmnïau ei adennill oddi wrth y cwsmeriaid yng ngoleuni eu perfformiad. Mae cwmnïau'n comisiynu sicrwydd annibynnol, trydydd parti o'r data sydd wedi'i gynnwys yn eu APR, ac mae'r APR yn cael eu cymeradwyo gan Fwrdd pob cwmni.

Ymrwymadau Perfformiad PR14 Dŵr Cymru

- 2.9 Mae'r tabl isod yn nodi Ymrwymadau Perfformiad gollyngiadau PR14 Dŵr Cymru, cyfraddau cymhelliad taliadau tanberfformiad a gorberfformiad ODI,⁸ a pherfformiad a adroddwyd gan y cwmni. Roedd penderfyniad terfynol PR14 Ofwat yn nodi na fyddai'r cwmni'n gorfod talu taliadau gorberfformiad neu danberfformiad am berfformiad o fewn pum megalitr y dydd i lefel yr Ymrwymiad Perfformiad (y gosb / gwobr '**band marw**'), ac y byddai unrhyw daliadau dilynol yn cael eu cyfyngu i ddeg megalitr y diwrnod o'r Ymrwymiad Perfformiad. Ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod 2015 i 2020 ('**AMP6**'), adroddodd Dŵr Cymru berfformiad gollyngiadau a oedd naill ai wedi bodloni neu ychydig yn well na'i Ymrwymiad Perfformiad. Roedd ei berfformiad a adroddwyd o fewn yr ystod bandiau marw, ac felly ni chafodd y cwmni unrhyw daliadau gorberfformiad ODI am ollyngiadau yn ystod y cyfnod hwnnw.

⁶ Yn wreiddiol, categoreiddiodd Ofwat ODI PCC PR19 fel 'yn y cyfnod'. Yn dilyn heriau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, ac ymgynghoriad cyhoeddus, cadwodd Ofwat PCC fel Ymrwymiad Perfformiad i gwmnïau, ond newidiodd yr ODI cyfatebol i 'ddiwedd cyfnod' er mwyn rhoi amser ar gyfer effaith y pandemig COVID-19. Gweler [Ymgynghoriad ar newidiadau i ymrwymadau perfformiad defnydd y pen - ein penderfyniad ar adrodd ar berfformiad ac amseriad ODI - Ofwat](#).

⁷ Mae'r gofyniad i adrodd i Ofwat at ddibenion adolygu prisiau wedi'i nodi yn Amod B, paragraff 9.2, ac Amod M Trwyddedau cwmnïau.

⁸ Cyfrifir taliadau ODI tanberfformiad a gorberfformiad trwy gymhwysu cyfradd cymhelliad i bob uned o orberfformiad neu danberfformiad.

Tabl 2.1 – Ymrwymiadau Perfformiad Gollyngiadau PR14 Dŵr Cymru ac ODI⁹

Perfformiad Gollyngiadau	Gwaelodlin ¹⁰ (2014-15)	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Ymrwymiad Perfformiad Gollyngiadau (MI/d)	184	181	177	173	171	169
Cyfradd cymhelliad taliad tanberfformiad fesul MI/d o danberfformiad ¹¹	-	-£1.84m	-£1.84m	-£1.84m	-£1.84m	-£1.84m
Cyfradd cymhelliad taliad gorberfformiad fesul MI/d o orberfformiad ¹²	-	£0.92m	£0.92m	£0.92m	£0.92m	£0.92m
Coler gollyngiad (MI/d)	-	191	187	183	181	179
Gollyngiadau a adroddwyd gan Dŵr Cymru (MI/d)	-	180	175	173	170	168

Ymrwymiadau Perfformiad PR19 Dŵr Cymru

2.10 Ar gyfer cyfnod rheoli prisiau 2020-25 ('AMP7'), ymrwymodd Dŵr Cymru i leihau gollyngiadau gan 13.3% o'i sefyllfa waelodlin yn 2019-2020 a lleihau PCC gan 6.3%.¹³ Mae Tablau 2.2 a 2.3 isod yn dangos yr Ymrwymiadau Perfformiad perthnasol ar gyfer AMP7, o ran y gostyngiad canrannol a ddisgwylir, a beth mae hyn yn gyfystyr ag ef yn yr unedau perthnasol (hynny yw, mewn megalitrau y dydd ar gyfer gollyngiadau, a litrau y pen y dydd ar gyfer PCC). Mae'r tablau hefyd yn nodi'r perfformiad a adroddwyd gan Dŵr Cymru ar gyfer 2020-21 a 2021-22, yn

⁹ Fel yr amlinellwyd ym [Mhenderfyniadau Terfynol PR14 – penderfyniad terfynol Dŵr Cymru – Ofwat](#) a [Welsh-Water-company-specific-appendix-corrigenda.pdf](#) (ofwat.gov.uk).

¹⁰ Y waelodlin yw'r sefyllfa o ba un yr aeth Dŵr Cymru i mewn i AMP6.

¹¹ Dechreuodd taliadau tanberfformiad gollyngiadau PR14 Dŵr Cymru ar 5MI/d uwchlaw'r targed gollyngiadau ac fe'u cymhwyswyd i berfformiad hyd at 10MI/d uwchlaw'r targed, gan arwain at uchafswm taliad tanberfformiad posibl o £9.2 miliwn y flwyddyn.

¹² Dechreuodd taliadau gorberfformiad gollyngiadau PR14 Dŵr Cymru ar 5MI/d yn is na'r targed ac fe'u cymhwyswyd i berfformiad hyd at 10 MI/d yn is na'r targed, gan arwain at uchafswm taliad posibl o £4.6 miliwn. Enillwyd taliadau dim ond os rhagorwyd ar y targed gan fwy na 5 MI/d yn y flwyddyn flaenorol.

¹³ [Penderfyniadau terfynol PR19: Penderfyniad terfynol Dŵr Cymru – Ofwat](#) a [Phenderfyniadau Terfynol PR19 Dŵr Cymru – Atodiad ymrwymiad perfformiad canlyniadau \('Penderfyniadau Terfynol PR19'\)](#). Ar gyfer PR19, cyfrifir Ymrwymiadau Perfformiad gollyngiadau a PCC ar sail cyfartaledd treigl tair blynedd, yn hytrach na pherfformiad yn ystod y flwyddyn, a fynegir fel gostyngiad canrannol o'r lefel perfformiad oedd gan y cwmni ar gyfer 2019-20 ('y flwyddyn waelodlin').

ogystal â'r taliadau ODI a fyddai'n ddyledus o ganlyniad i'r perfformiad hwn a adroddwyd.

- 2.11 Roedd ffigurau Dŵr Cymru a adroddwyd ar gyfer 2020-21 yn dangos gorberfformiad ar gyfer gollyngiadau, gan arwain at daliad gorberfformiad o £0.1 miliwn (a weithredwyd trwy benderfyniad yn y cyfnod Ofwat ym mis Tachwedd 2021)¹⁴ a thanberfformiad ar PCC, sy'n cario taliad tanberfformiad o £1.3 miliwn (i'w gronni tan ddiwedd yr AMP). Er bod Dŵr Cymru wedi adrodd ffigurau perfformiad ar gyfer 2021-22, gohiriodd Ofwat wneud ei benderfyniad ar y taliadau ODI cysylltiedig wedi i'r cwmni dynnu sylw at bryderon ynghylch cywirdeb ei adroddiadau (gweler mwy o fanylion am hyn isod).

Tabl 2.2 – Ymrwmiadau Perfformiad Gollyngiadau PR19 Dŵr Cymru ac ODI¹⁵

Perfformiad Gollyngiadau	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Ymrwymiad Perfformiad Gollyngiadau (gostyngiad % cronnus o waelodlin 2019-20 o 173.8 Ml/d)	1.8%	4.2%	7.3%	10.3%	13.3%
Lefel gollyngiadau targed o ganlyniad i Ymrwymiad Perfformiad (Ml/d) ¹⁶	170.7	166.5	161.1	155.9	150.7
Gollyngiadau a adroddwyd (Ml/d)	169.9	164.7	-	-	-
Gorberfformiad a adroddwyd (Ml/d)	0.8	1.8	-	-	-
Cyfradd cymhelliad taliad gorberfformiad fesul Ml/d o orberfformiad	£0.143m	£0.143m	£0.143m	£0.143m	£0.143m
Taliad gorberfformiad a gyfrifwyd (prisiau 2017-18)	£0.1m	£0.257m ¹⁷	-	-	-

¹⁴ [Penderfyniad Terfynol ar ODI yn y cyfnod Dŵr Cymru ar gyfer 2020-21 \(Tachwedd 2021\)](#).

¹⁵ [Penderfyniadau Terfynol PR19](#).

¹⁶ Fel y nodir ym [Mhenderfyniadau Terfynol PR19](#), caiff y perfformiad gollyngiadau ei fesur ar sail cyfartaledd treigl tair blynedd o lefelau gollyngiadau yn ystod y flwyddyn, gyda'r Ymrwymiad Perfformiad yn ostyngiad canrannol o waelodlin 2019-20. Er enghraifft, mae cyfartaledd gollyngiadau yn ystod y flwyddyn Dŵr Cymru ar gyfer 2017-18 (175.4 Ml/d), 2018-19 (172.9 Ml/d) a 2019-20 (173.1 Ml/d), yn darparu lefel waelodlin 2019-20 o 173.88 Ml/d; mae Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau 2020-21 o ostyngiad gwerth 1.8% o hyn yn arwain at lefel darged o 170.7 Ml/d ar gyfer 2020-21.

¹⁷ Ni ddyfarnwyd y taliad gorberfformiad o £0.257 miliwn ar gyfer 2021-22 i Dŵr Cymru ym Mhenderfyniadau yn y Cyfnod 2021-22, gyda'r penderfyniad wedi'i ohirio gan gydnabod bod yr achos gorfodi hwn yn mynd rhagddo.

Tabl 2.3 – Ymrwymiau Perfformiad PCC PR19 Dŵr Cymru ac ODI¹⁸

Perfformiad PCC	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Ymrwymiad Perfformiad PCC (gostyngiad % cronnos o waelodlin 2019-20 o 155.2 l/h/d)	1.0%	2.0%	3.0%	4.6%	6.3%
Lefel PCC targed o ganlyniad i Ymrwymiad Perfformiad ¹⁹ (l/h/d)	153.6	152.1	150.5	148.1	145.4
PCC a adroddwyd (l/h/d)	163.3	169.1	-	-	-
Tanberfformiad a adroddwyd (l/h/d)	9.7	17	-	-	-
Cyfradd cymhelliad taliad tanberfformiad fesul l/a/d o danberfformiad	£0.135m	£0.135m	£0.135m	£0.135m	£0.135m
Taliad tanberfformiad a gyfrifwyd (prisiau 2017-18) ²⁰	£1.31m	£2.3m	-	-	-

Newid mewn methodoleg adrodd PR19

2.12 Mae cyfrifo gollyngiadau a PCC yn gymhleth; cânt eu cyfrifo o nifer o gydrannau o sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio, ac maent yn dibynnu ar allosod defnydd dŵr o ddata sampl. Hyd at, a gan gynnwys, y cyfnod PR14, roedd cwmnïau wedi adrodd ar eu perfformiad gollyngiadau mewn gwahanol ffyrdd, yn unol â'r fethodoleg unigol yr oedd pob un ohonynt wedi'i datblygu ers preifateiddio'r sector ym 1989. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu perfformiad gollyngiadau yn effeithiol ar draws y sector. Yn 2017, wrth baratoi ar gyfer y cyfnod PR19 oedd i ddod, ymgysylltodd Ofwat â chwmnïau i wella cysondeb sut yr oedd cwmnïau'n cyfrifo ac yn adrodd ar eu perfformiad gollyngiadau. O ganlyniad, yn 2018, cyhoeddodd Ofwat ganllawiau adrodd ar ollyngiadau²¹ a PCC²² at ddibenion adrodd AMP7 gwell.

¹⁸ [Penderfyniadau Terfynol PR19](#).

¹⁹ Cyfrifir yr Ymrwymiad Perfformiad fel cyfartaledd treigl y tair blynedd flaenorol a chymhwyso'r % gostyngiad targed. Er enghraifft, mae Ymrwymiad Perfformiad PCC 2020-21 o 153.6 l/h/d yn cael ei gyfrifo, yn gyntaf, drwy gyfartaleddu PCC yn y flwyddyn Dŵr Cymru ar gyfer 2017-18 (151.7 l/h/d), 2018-19 (157.5 l/h/d) a 2019-20 (156.5 l/h/d), sy'n darparu gwelodlin o 155.2 l/h/d. Yn unol â Phenderfyniadau Terfynol PR19 Ofwat, roedd yn rhaid i Dŵr Cymru wedyn gyflawni gostyngiad gwerth 1% i'r rhif hwn, sef 153.6 l/h/d.

²⁰ Mae Ymrwymiad Perfformiad PCC Dŵr Cymru yn ODI 'diwedd cyfnod', sy'n golygu na fyddai'r taliadau tanberfformiad uchod wedi'u cymhwyso tan ddiwedd AMP7.

²¹ [Canllawiau Adrodd ar Ollyngiadau Ofwat](#). Mae hwn yn defnyddio 'Cysondeb Adrodd Mesurau Perfformiad – Gollyngiadau UKWIR 2017'. Drwy gydol y ddogfen hon, cyfeirir at y fethodoleg newydd fel '[Methodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7](#)'.

²² [Canllawiau Adrodd ar PCC Ofwat](#).

2.13 Er mwyn cyflawni trosglwyddiad llyfnach i'r fethodoleg adrodd newydd ac i alluogi'r waelodlin gychwynnol ar gyfer cyfnod AMP7, ar gyfer tair blynedd olaf AMP6 (2017-18, 2018-19 a 2019-20) roedd hi'n ofynnol i gwmnïau adrodd ar ddwy set o ffigurau gollyngiadau:

- gollyngiadau a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r methodolegau presennol yr oedd cwmnïau wedi bod yn eu defnyddio hyd at hynny, y seiliwyd eu Hymrwymiadau Perfformiad AMP6 arnynt; ac
- adroddiad 'cysgodol' ar gyfer gollyngiadau a PCC gan ddefnyddio Methodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7.²³

2.14 Nod y gofyniad i gwmnïau baratoi adroddiad 'cysgodol' yn ystod tair blynedd olaf AMP6 oedd cael cwmnïau'n barod ar gyfer AMP7 (gan gynnwys gosod y waelodlin ar gyfer eu hymrwymiadau perfformiad), a darparu tryloywder o ran i ba raddau y maent wedi gallu gweithredu'r Fethodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7 newydd. At ddibenion ODI, roedd perfformiad cwmnïau yn ystod y tair blynedd olaf hyn o AMP6 yn dal i gael ei asesu yn erbyn methodoleg AMP6.

AMP 7 – Cydbwysedd dŵr

2.15 Mae Methodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7 yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau adrodd ar ollyngiadau o ganlyniad i ymarferiad 'cydbwysedd dŵr'. Mae cydbwysedd dŵr yn gyfrifiad lle mae'r llif dyddiol cyfartalog i system ddosbarthu'r cwmni dŵr ('mewnbwn dosbarthu' neu 'DI') yn cael ei 'gydbwysu' yn erbyn swm yr hyn y mae'r cwmni'n amcangyfrif sy'n llifo allan o'i system ar ben y cwsmer (h.y. yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr terfynol yn hytrach na chael ei golli i'r system trwy ddulliau eraill). Fel y manylir ymhellach isod, er mwyn cyfrifo a phrofi cywirdeb ffigurau cydbwysedd dŵr cwmni dŵr, mae cwmnïau'n defnyddio dau ddull: cyfrifiad 'o'r brig i'r bôn' a arweinir drwy briodoli mewnbwn dosbarthu dŵr i'w wahanol ddefnyddiau; ac amcangyfrif 'o'r gwaelod i fyny' o ollyngiadau wedi'i lywio gan ddata mesuryddion rhwydwaith. Yna caiff y ffigurau hyn eu cymharu i ganfod maint unrhyw fwch rhwng y ddau o ran gollyngiadau, ac felly hyder tybiaethau'r cyfrifiad 'o'r brig i'r bôn' ar gyfer gollyngiadau. Mae'r ddau ddull yn dibynnu ar ddata mesuredig, yn ogystal ag amcangyfrifon a thybiaethau wrth eu cyfrifo.

Dull o'r brig i'r bôn ar gyfer amcangyfrif gollyngiadau

2.16 Mae'r dull 'o'r brig i'r bôn lawr' yn canolbwyntio ar gydrannau cydbwysedd dŵr ac yn defnyddio'r rhain i lywio tybiaethau ynghylch gollyngiadau. Mae'n cymryd i

²³ Cafodd PCC ei gynnwys yn yr adroddiad cysgodol er mwyn iddo ddod yn Ymrwymiad Perfformiad cyffredin yn PR19.

ystyriaeth y mewnbwn dosbarthu, hynny yw swm yr holl ddŵr y mae'r cwmni'n ei roi i mewn i'r cyflenwad, wedi'i fesur wrth allfa'r gwaith trin dŵr cyn mynd i mewn i'r rhwydwaith. Yna mae'n tynnu'r defnydd preswyl mesuredig, dibreswyl mesuredig, preswyl anfesuredig a dibreswyl anfesuredig (yn seiliedig ar samplau ystadegol ddilys a geir o ddata mesuryddion). Mae'r dull hwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth ddefnydd dŵr y cwmni ei hun (er enghraifft, ar gyfer gweithredu'r system megis fflysio'r prif gyflenwad, ac ati), ac unrhyw ddŵr arall a gymerwyd yn gyfreithlon (megis ymladd tân) neu'n anghyfreithlon (megis llenwi tanceri yn anghyfreithlon). Cyfeirir wedyn at yr anghydbwysedd canlyniadol rhwng yr hyn a fesurwyd yn mynd i mewn i'r system ddosbarthu a'r hyn y gellir rhoi cyfrif amdano fel 'gollyngiad o'r brig i'r bôn'.

Dull o'r gwaelod i fyny ar gyfer amcangyfrif gollyngiadau

- 2.17 Mae'r dull 'o'r gwaelod i fyny' o amcangyfrif gollyngiadau yn deillio o arsylwi llifoedd nos mewn ardaloedd penodol o rwydwaith dosbarthu'r cwmni dŵr, megis Ardaloedd Mesuryddion Rhanbarth ('DMA') neu barthau adnoddau dŵr, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gynnal lefel uchel o ddata mesuryddion dilys i adrodd ar fesuriad ystadegol gadarn o ollyngiadau blynyddol. Mae'r dull hwn yn defnyddio llifoedd nos gan ei fod yn adeg pan fo'r galw am ddŵr mor isel â phosibl (gan roi cyfrif am amcangyfrifon ar gyfer meintiau cyfreithlon o ddefnydd nos – **'Lwfansau Defnydd Nos'**), ac felly mae llifoedd di-dor yn fwy tebygol o gael eu priodoli i ollyngiadau.
- 2.18 Mae'r dull o'r gwaelod i fyny ar gyfer amcangyfrif gollyngiadau hefyd yn gofyn am asesiad ar wahân o golledion y Brif Bibell a Chronfa Gwasanaeth (**'TMSR'**) y cyfeirir ato hefyd fel 'gollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi', ar gyfer cwmnïau sy'n amcangyfrif gollyngiadau ar lefel DMA, yn hytrach nag ar lefel parth (a fyddai eisoes yn cyfrif am y math hwn o ollyngiad). Er mwyn meintioli gollyngiadau prif bibellau cyflenwi, gall cwmnïau ddefnyddio dull cydbwysedd llif a dull 'amcangyfrif byrstio a chefndirol' (**'BABE'**) gan ddibynnu ar ddata penodol i gwmni yn seiliedig ar hyd y prif gyflenwad. Yn ymarferol, mae llawer o gwmnïau'n defnyddio hybrid o'r ddau ddull.²⁴
- 2.19 Mae canllawiau adrodd ar ollyngiadau Ofwat yn nodi y dylai cwmnïau sydd â chyfran gymharol uchel o ollyngiadau prif bibellau cyflenwi (lle mae'n fwy na 5% o gyfanswm y gollyngiadau), neu lle mae bwlch cydbwysedd dŵr yr Amcangyfrif Tebygolrwydd Uchaf ('MLE') (gweler isod) yn fwy na +/-2%, fabwysiadu dull rhagweithiol o fonitro gollyngiadau, gan ddefnyddio cyfuniad o archwiliadau

²⁴ **Canllawiau Adrodd ar Ollyngiadau Ofwat.** Mae dull BABE yn defnyddio data ar nifer y gollyngiadau gyda chyfraddau llif a chyfnodau llif amcangyfrifedig, ynghyd ag amcangyfrif o ollyngiadau cefndirol; mae dull cydbwysedd llif yn ystyried y gwahaniaethau mewn llifoedd rhwng gwahanol fesuryddion yn y rhwydwaith prif bibellau cyflenwi ac mae'n dibynnu ar osod digon o fesuryddion gweithredol.

maes, technegau dadansoddol a dulliau cydbwysedd llif. Pan fo gollyngiadau prif bibellau cyflenwi yn fwy na 5% o gyfanswm y gollyngiadau, mae canllawiau Ofwat yn nodi y dylai cwmnïau hefyd adolygu ac adnewyddu eu hamcangyfrifon yn flynyddol.

Amcangyfrif Tebygolrwydd Uchaf (MLE)

- 2.20 Mewn egwyddor, dylai amcangyfrifon o'r brig i'r bôn ac o'r gwaelod i fyny cwmni o ollyngiadau gyfateb, ond mewn gwirionedd, bydd anghysondeb bach bob amser oherwydd yr ystod o amcangyfrifon sy'n rhan o'r broses - cyfeirir at hyn fel y '**bwllch cydbwysedd dŵr**'. Cysonir yr anghydbwysedd hwn gan ddefnyddio'r '**Addasiad MLE**', sydd, mewn gwirionedd, yn dyrannu'r anghydbwysedd i bob un o'r cydrannau yn y cyfrifiad cydbwysedd dŵr yn gymesur â'u maint ac ansicrwydd eu hamcangyfrif. Mae'r addasiad hwn yn sicrhau bod y cyfrifiadau gollyngiadau o'r brig i'r bôn ac o'r gwaelod i fyny wedyn yn cysoni. Felly, y gollyngiadau a adroddir yw'r gwerth ôl-MLE wedi'i addasu ar gyfer gollyngiadau dosbarthu. Yn yr un modd, cyfrifir PCC a adroddir gan ddefnyddio'r data ôl-MLE wedi'i addasu ar gyfer defnydd preswyl mesuredig ac anfesuredig.
- 2.21 Mae canllawiau adrodd ar ollyngiadau Ofwat yn nodi bod bwllch cydbwysedd dŵr o +/- 2% yn cael ei ystyried yn arfer da. Rhaid i gwmnïau sydd â bwllch cydbwysedd dŵr o fwy na 3% ddatgelu ac egluro'r rhesymau am hyn yn eu hadroddiadau. Pan fo bwllch cydbwysedd dŵr yn +/- 5%, mae hyn yn dangos anghysondeb sylweddol gydag un neu fwy o'r prif gydrannau cydbwysedd dŵr. Yn yr amgylchiadau hyn ychwanegir unrhyw fwlch cydbwysedd dŵr sy'n fwy na'r bwllch o 5% (wedi'i fesur mewn MI/d) at y gydran gollyngiadau; a rhaid i'r cwmni ailedrych ar holl gydrannau pwysig ei gyfrifiad cydbwysedd dŵr.

Gwallau a nodwyd gan Dŵr Cymru yn ei adroddiadau perfformiad

- 2.22 Ym mis Ebrill 2022 rhoddodd Dŵr Cymru wybod i Ofwat ei fod wedi nodi problem bosibl gyda'i ddehongliad o fethodolegau perthnasol ar gyfer adrodd ar ei berfformiad o ran gollyngiadau a PCC, a allai fod wedi arwain at gamadrodd ei ffigurau Ymrwymiad Perfformiad yn 2020-21, ac wedi hynny y gallai fod angen iddo ailddatgan ei dargedau Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau a PCC ar gyfer AMP7²⁵ a'r perfformiad yr oedd wedi'i adrodd amdano ar gyfer 2020-21.

²⁵ Byddai hyn yn golygu ailddatgan y ffigurau 'gwaelodlin', sef y sefyllfa gychwynnol ar gyfer y AMP (cyfartaledd perfformiad tair blynedd 2017-18, 2018-19 a 2019-20), a'r lefelau perfformiad dilynol y byddai angen i'r cwmni sicrhau er mwyn cyflawni'r un gostyngiadau canrannol dros AMP7 a nodir ym Mhenderfyniad Terfynol PR19 y cwmni.

- 2.23 Dywedodd Dŵr Cymru wrth Ofwat ei fod wedi canfod y gwall hwn wrth gwblhau ei brosesau mewnol ar gyfer paratoi ei APR 2021-22, lle comisynnodd y cwmni Jacobs, yr archwilydd trydydd parti yr oedd yn ei ddefnyddio i sicrhau ei gyflwyniadau APR, i gynnal ymarfer 'plymio dwfn' ar ei berfformiad o ran gollyngiadau a PCC ('**Adolygiad Jacobs**').
- 2.24 Ar 19 Mai 2022, ysgrifennodd Dŵr Cymru at Ofwat yn darparu crynodeb o Adolygiad Jacobs, gan amlinellu'r materion yr oedd wedi'u canfod gyda methodoleg adrodd Dŵr Cymru, a nodi cynllun gweithredu arfaethedig y cwmni i unioni'r methiannau a oedd wedi arwain at gamadrodd ei ffigurau perfformiad (gweler paragraffau 3.78 i 3.90 isod).
- 2.25 Ar 8 Mehefin 2022, dywedodd Dŵr Cymru wrth Ofwat ei bod yn debygol y byddai angen iddo ailddatgan ei ddata gollyngiadau a PCC. Er mwyn ei helpu i ddeall graddau unrhyw newidiadau i'w ffigurau a adroddwyd a'r methiannau yr oedd wedi'u nodi yn ei ddull blaenorol, penododd y Ganolfan Ymchwil Dŵr ('**WRc**')²⁶ i gynnal adolygiad fesul cam ac annibynnol i brosesau adrodd cydbwysedd dŵr, gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru.²⁷ Hefyd, cwblhaodd Dŵr Cymru adolygiadau sicrwydd mewnol a diwylliant a llywodraethu pellach yn 2022 (gweler paragraffau 3.62 a 3.75 isod) i ddeall yn well yr achosion sylfaenol ehangach a oedd wedi arwain at y camadrodd.
- 2.26 Rhoddodd Dŵr Cymru ddiweddariadau i Ofwat ar ddatblygiad ei ymchwiliadau, gan adrodd yn ffurfiol i Ofwat arnynt ym mis Mawrth a mis Mai 2023. Roedd casgliadau allweddol ymchwiliadau Dŵr Cymru yn cydnabod:
- Methiannau llywodraethu, a ddangosir gan ddogfennaeth annigonol o brosesau a phenderfyniadau gan dîm Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am adrodd ar ollyngiadau ('**y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau**'), llywodraethu enghreifftiol gwael, a phwyntiau unigol o fethiant yn ei Dîm Adrodd ar Ollyngiadau. Nododd fod y materion hyn yn cael eu gwaethygu gan ymadawiadau staff a dyrchafiadau dilynol cydweithwyr iau nad oeddent wedi cael hyfforddiant a chymorth digonol.
 - Roedd ganddo fodel adrodd rhy gymhleth a oedd yn cael ei gynnal gan un unigolyn o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau, a oedd yn teimlo dan bwysau i ddefnyddio methodoleg benodol, yr oedd ganddo bryderon yn ei chylch.

²⁶ [Water Research Centre Limited](#) (Rhif Cwmni 11172223).

²⁷ Darparodd Cam 1 WRc ddadansoddiad archwiliadol lefel uchel cychwynnol, ac roedd Cam 2 yn plymio'n ddwfn i gydbwysedd dŵr Dŵr Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer adrodd rheoleiddiol ar ollyngiadau a PCC. Amlinellir prif ganfyddiadau canfyddiadau'r adolygiad yn Section 3 isod.

- Bu gorddibyniaeth ar gynghorydd trydydd parti, a oedd hefyd â materion gwrthdaro buddiannau cynhenid o ystyried ei weithgarwch yn darparu cyngor a rôl adolygu, ynghyd â'r materion llywodraethu a hyfforddi y cyfeiriwyd atynt uchod.
- Parhaodd pocedi o “ddiwylliant bwrw bai” yn parhau i fodoli o fewn y cwmni, er gwaethaf amgylchedd cefnogol cyffredinol ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion, gyda rheolwyr ac aelodau tîm yn cydweithio i ddod o hyd i atebion i broblemau.
- Er nad oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi bod aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn adrodd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi mynd ati'n fwriadol i gamdrodd sefyllfa'r cwmni o ran ymrwymadau perfformiad gollyngiadau a PCC, roedd gwybodaeth berthnasol ar gael ac wedi'i thrafod a ddylai fod wedi arwain y swyddogion gweithredol cyfrifol i gwestiynu cywirdeb y gwerthoedd a adroddwyd.

2.27 Yn y cyfamser, ym mis Gorffennaf 2022 adroddodd Dŵr Cymru ei berfformiad gollyngiadau a PCC ar gyfer 2021-22 yn ei APR 2021-22. Fel y cytunwyd ag Ofwat, o ystyried yr adolygiadau sy'n mynd rhagddynt i ddeall yn llawn unrhyw newidiadau sydd eu hangen, adroddodd Dŵr Cymru ei berfformiad ar sail y fethodoleg a ddefnyddiwyd ganddo ar gyfer ei adroddiadau 2020-21 er mwyn parhau i fod yn gyson â sut y cafodd ei Ymrwymadau Perfformiad AMP7 eu pennu (gweler Tablau 2.2 a 2.3 uchod). Gan fod disgwyl i'r ffigurau hyn fod yn anghywir, ildiodd Dŵr Cymru ei hawliad i'r taliad gorberfformiad ODI o £0.257 miliwn y gallai fod wedi'i dderbyn fel arall, yn seiliedig ar ei berfformiad yn ymwneud â gollyngiadau a adroddwyd yn 2021-22, pe bai Ofwat wedi defnyddio'r data anghywir hwn ar gyfer ei benderfyniad ar hyn. Adlewyrchwyd hyn yn y penderfyniad ODI yn y cyfnod a gyhoeddwyd gan Ofwat ym mis Rhagfyr 2022, a ohiriodd ei benderfyniad mewn perthynas â pherfformiad Dŵr Cymru ac unrhyw daliad ODI cysylltiedig â gollyngiadau, nes bod gan Ofwat y wybodaeth gywir i asesu perfformiad Dŵr Cymru.²⁸ Dywedodd Ofwat pe bai unrhyw ddata gollyngiadau neu PCC yn cael ei adolygu neu ei ailddatgan yna byddai penderfyniadau ODI dilynol yn y cyfnod yn ffactor ym mherfformiad perthnasol Dŵr Cymru, ac unrhyw addasiadau sydd eu hangen i'r rheolaeth prisiau perthnasol mewn perthynas â'r Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau.²⁹

²⁸ Penderfyniad terfynol ar gymhellion cyflawni canlyniadau yn y cyfnod Dŵr Cymru ar gyfer 2021-22).

²⁹ *Ibid.*

Ffigurau ailddatganedig Dŵr Cymru

- 2.28 Ar 17 Mawrth 2023, mewn llythyr at Ofwat, cadarnhaodd Dŵr Cymru y byddai angen iddo wneud newidiadau sylweddol i'r ffigurau a adroddwyd yn flaenorol, yn amodol ar gwblhau archwiliad terfynol gan Jacobs. Ar yr un pryd, nododd Dŵr Cymru hefyd fanylion ynghylch sut yr oedd yn bwriadu mynd i'r afael â'r methiannau a oedd wedi arwain at y camadrodd, a manylion ei gynlluniau i wneud iawn i gwsmeriaid am y methiannau hynny (gweler paragraffau 3.89 i 3.90 isod).
- 2.29 Ym mis Gorffennaf 2023, ailddatganodd Dŵr Cymru ei ffigurau gollyngiadau a PCC yn ei APR 2022-23,³⁰ gan ddangos cynnydd sylweddol o'i berfformiad gollyngiadau a adroddwyd yn wreiddiol a gostyngiad gwrthdro, ond llai sylweddol, yn ei berfformiad PCC.³¹ Mae Tablau 2.4 a 2.5 isod yn dangos graddfa'r ailddatganiad ac felly'r gwahaniaeth rhwng yr hyn yr oedd Ofwat wedi'i ddeall yn wreiddiol oedd perfformiad Dŵr Cymru yn seiliedig ar ei APR 2020-21 ac APR 2021-22, a beth oedd perfformiad gwirioneddol Dŵr Cymru.

Tabl 2.4 Graddfa ailddatgan gollyngiadau

Blwyddyn Adrodd	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Gollyngiadau a Adroddwyd (MI/d) ³²	169.9	164.7	160.5	157.4	-
Gollyngiadau Ailddatganedig (MI/d)	225.0	232.9	242.0	239.6	223.2
% Gwahaniaeth (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf)	+32%	+41%	+51%	+52%	-

Tabl 2.5 Graddfa ailddatgan PCC

Blwyddyn Adrodd	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
PCC a adroddwyd (l/h/d) ³³	163.3	169.1	175.4	174.7	-
PCC ailddatganedig (l/h/d)	151.4	153.8	154.8	149.5	144.6
% Gwahaniaeth (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf)	-7%	-9%	-12%	-14%	-

³⁰ Gweler [APR 2022-23 Dŵr Cymru, Rhan 3](#).

³¹ Adroddiad Dŵr Cymru dyddiedig 17 Mawrth 2023 ('Adroddiad Interim').

³² Y ffigurau ar gyfer 2020-21 a 2021-22 yw'r rheini a adroddwyd gan Dŵr Cymru yn ei APR, gyda'r rheini ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ei ragolygon ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ar yr adeg honno.

³³ Y ffigurau ar gyfer 2020-21 a 2021-22 yw'r rheini a adroddwyd gan Dŵr Cymru yn ei APR, gyda'r rheini ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ei ragolygon ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ar yr adeg honno.

- 2.30 Mae ymrwymiadau perfformiad AMP7 yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd o berfformiad yn ystod y flwyddyn er mwyn llyfnhau gwahaniaethau mewn perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae'r gwallau sydd wedi arwain at yr angen i ailddatgan y ffigurau gollyngiadau a PCC yn ymestyn yn ôl i'r blynyddoedd adrodd cysgodol a ddefnyddiwyd i sefydlu gwaelodlin AMP7 (2017-18, 2018-19 a 2019-20). O ganlyniad, roedd angen i Dŵr Cymru hefyd ailddatgan y waelodlin wreiddiol ar gyfer ei Ymrwymiadau Perfformiad (y seilir y targedau lleihau canrannol ar gyfer yr ymrwymiadau perfformiad arnynt), yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn erbyn ei Ymrwymiadau Perfformiad ar gyfer yr holl flynyddoedd hyd yma yn AMP7. Ar gyfer gollyngiadau, o ganlyniad i'r ailddatganiad, mae'r sefyllfa waelodlin y daeth Dŵr Cymru i mewn i'r cyfnod 2020-25 ohoni (yn seiliedig ar berfformiad cyfartalog tair blynedd yn 2017-20) bellach yn uwch. Mae hyn yn golygu, er mwyn cyflawni'r gostyngiad canrannol a fwriadwyd yn wreiddiol mewn gollyngiadau, bydd yn rhaid i Dŵr Cymru leihau gollyngiadau gan nifer fwy o fegalitrau y dydd yn ystod AMP7.
- 2.31 Yn gyffredinol, mae'r ffigurau ailddatganedig yn dangos bod sefyllfa perfformiad y cwmni o ran gollyngiadau yn sylweddol waeth nag y deallwyd yn flaenorol. Hefyd, mae perfformiad gwirioneddol ailddatganedig gan Dŵr Cymru ar gyfer tair blynedd gyntaf yr AMP bellach yn dangos bod y cwmni wedi tanberfformio yn erbyn ei Ymrwymiad Perfformiad yn 2021-22 a 2022-23, i'r fath raddau fel ei fod wedi bod yn uwch na choler taliad tanberfformiad ODI o 5%. Mae hyn yn golygu y bydd yn gorfod talu'r taliad tanberfformiad uchaf ar gyfer y blynyddoedd hyn. Pe na bai'r goler wedi bod yn ei lle, byddai wedi gorfod talu hyd yn oed mwy o daliadau tanberfformiad.
- 2.32 Darparodd Dŵr Cymru hefyd ragolygon wedi'u hailddatgan ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o AMP7 (gweler y tablau isod). Ar sail cyfraddau cymell taliadau tanberfformiad ODI PR19, byddai'r ffigurau ailddatganedig yn arwain at £21.3 miliwn o daliadau tanberfformiad awtomatig ar draws AMP7 ar gyfer gollyngiadau.³⁴ Pe na bai coler wedi bod ar yr Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau, byddai'r ffigur hwn wedi bod yn £26.4 miliwn.³⁵ Gan nad oes gan Ymrwymiad Perfformiad PCC goler, cyfanswm y taliadau tanberfformio awtomatig yn seiliedig ar gyfraddau ODI PR19 a'r ffigurau ailddatganedig fyddai £6.8 miliwn.³⁶

Tabl 2.6 Manylion ailddatganiad gollyngiadau Dŵr Cymru

Perfformiad Gollyngiadau	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
--------------------------	---------	---------	---------	---------	---------

³⁴ Gan adlewyrchu Penderfyniad Terfynol PR19, mae'r ffigurau hyn ym mhrisiau 2017-18 – ym mhrisiau 2022-23 mae hyn yn cyfateb i £25.1 miliwn.

³⁵ £31.1 miliwn ym mhrisiau 2022-23.

³⁶ £8.0 miliwn ym mhrisiau 2022-23.

Ymrwymiad Perfformiad Gollyngiadau PR19 (gostyngiad % cronnus o waelodlin ailddatganedig 2019-20 o 217.1 MI/d)	1.8%	4.2%	7.3%	10.3%	13.3%
Lefel gollyngiadau targed ailddatganedig o ganlyniad i Ymrwymiad Perfformiad ailddatganedig (MI/d)	213.2	208.0	201.3	194.7	188.2
Gollyngiadau a adroddwyd ailddatganedig (MI/d) ³⁷	225.0	232.9	242.0	239.6	223.2
Tanberfformiad ailddatganedig (MI/d)	11.8	24.9	40.7	44.9	35.0
Cyfradd cymhelliad taliad tanberfformiad fesul MI/d o danberfformiad	-£0.168m	-£0.168m	-£0.168m	-£0.168m	-£0.168m
Coler gollyngiad ³⁸	5%	5%	5%	5%	5%
Taliad tanberfformiad a gyfrifwyd (prisiau 2017-18) ³⁹	£1.982m	£3.360m	£4.486m	£5.594m	£5.880m
Taliad tanberfformiad a fyddai wedi digwydd pe na bai coler (prisiau 2017-18) ⁴⁰	£1.982m	£4.183m	£6.838m	£7.543m	£5.880m

Tabl 2.7 Manylion ailddatganiad PCC Dŵr Cymru

Perfformiad PCC	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Ymrwymiad Perfformiad PCC PR19 (gostyngiad % cronnus o waelodlin 2019-20 ailddatganedig o 145.7 l/h/d)	1.0%	2.0%	3.0%	4.6%	6.3%
Lefel targed PCC ailddatganedig o ganlyniad i'r Ymrwymiad	144.2	142.8	141.3	139.0	136.5

³⁷ Perfformiad ailddatganedig ar gyfer APR 2020-21 a 2021-22, perfformiad a adroddwyd ar gyfer APR 2022-23, a rhagolygon Dŵr Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

³⁸ Y goler gollyngiadau yw 5% yn uwch na'r waelodlin yn unol â Phenderfyniadau Terfynol PR19 Ofwat. Gwaelodlin ailddatganedig Dŵr Cymru yw 217.1 MI/d, felly mae'r goler yn 5% o'r ffigur hwn, neu 228 MI/d.

³⁹ Cyfanswm taliad tanberfformiad o £9.9 miliwn ar gyfer perfformiad gwirioneddol hyd yn hyn yn ystod AMP7 (h.y. 2020-23).

⁴⁰ Cyfanswm taliad tanberfformiad heb ei goleru o £13 miliwn ar gyfer perfformiad gwirioneddol hyd yn hyn yn ystod AMP7 (h.y. 2020-23).

Perfformiad ailddatganedig ⁴¹ (l/h/d)					
PCC a adroddwyd ailddatganedig (l/h/d) ⁴²	151.4	153.8	154.8	149.5	144.6
Tanberfformiad ailddatganedig (l/h/d)	7.2	11.0	13.5	10.5	8.1
Cyfradd cymhelliad taliad tanberfformiad fesul Ml/d o danberfformiad	£0.135m	£0.135m	£0.135m	£0.135m	£0.135m
Taliad tanberfformiad a gyfrifwyd (prisiau 2017-18) ⁴³	£0.972m	£1.485m	£1.823m	£1.418m	£1.093m

Ymchwiliad Ofwat

2.33 Ar 25 Mai 2023, agorodd Ofwat ymchwiliad ffurfiol ('[the Investigation](#)') i doriadau Trwydded gan Dŵr Cymru.⁴⁴ Gwnaeth Ofwat hynny ar y sail bod Dŵr Cymru o bosibl wedi torri:

- paragraff 9.2 Amod B;
- paragraff 6 Amod F; a
- paragraff 1 Amod M

o'i Drwydded, drwy gamadrodd ei ffigurau Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau a PCC ar gyfer 2020-21 a 2021-22, yn ogystal â'i waelodlin wreiddiol y seiliwyd targedau Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau a PCC ar gyfer AMP7 arni.

2.34 Yn ogystal, roedd gan Ofwat sail i amau y gallai Dŵr Cymru fod wedi torri ei rwymedigaethau o dan Amod P12 ei Drwydded, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddo feddu ar adnoddau ariannol a rheoli a systemau cynllunio a rheolaeth fewnol

⁴¹ Fel gyda'r uchod, cyfrifir hyn yn yr un modd. Mae Dŵr Cymru wedi gorfod ailddatgan ei waelodlin hefyd, sef 145.7 l/h/d, drwy gyfartaleddu ei ffigurau ailddatganedig ar gyfer 2017-18 (143.7 l/h/d), 2018-19 (147.6 l/h/d) a 2019- 20 (145.8 l/a/d). Yn unol â Phenderfyniadau Terfynol PR19 Ofwat, cafodd Ymrwymiad Perfformiad ailddatganedig Dŵr Cymru ei gyfrifo wedyn drwy gymhwyso'r % gostyngiad targed o 1 i'r waelodlin newydd o 145.7 l/h/d, gan arwain at Ymrwymiad Perfformiad PCC o 144.2 l/h/d ar gyfer 2020 -21.

⁴² Perfformiad ailddatganedig ar gyfer APR 2020-21 a 2021-22, perfformiad a adroddwyd ar gyfer APR 2022-23, a rhagolygon Dŵr Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

⁴³ Cyfanswm taliad tanberfformiad o £4.28 miliwn ar gyfer perfformiad gwirioneddol hyd yn hyn yn ystod AMP7 (h.y. 2020-23).

⁴⁴ [Achos gorfodi i Dŵr Cymru ynglŷn â chywirdeb ei berfformiad o ran gollyngiadau a defnydd y pen \('PCC'\) a adroddwyd - Ofwat.](#)

digonol, i'w alluogi i gyflawni ei weithgareddau a reoleiddir, yn yr achos hwn mewn perthynas â'i adroddiadau rheoleiddiol.

- 2.35 Ar 31 Mai 2023, cyhoeddodd Ofwat hysbysiad o dan adran 203 WIA91 ('**Hysbysiad Adran 203**')⁴⁵ i Dŵr Cymru, yn ei gwneud gofyn iddo ddarparu gwybodaeth benodedig a chynhyrchu dogfennau penodedig i gynorthwyo'r Ymchwiliad. Cyflwynodd Dŵr Cymru ei ymateb i Hysbysiad Adran 203 mewn cyfrannau, rhwng 21 Mehefin a 23 Awst 2023.
- 2.36 Yn PR14, gwnaeth Ofwat hi'n glir y byddai'n ystyried camau gorfodi lle'r oedd perfformiad cwmnïau'n disgyn y tu hwnt i goler cosb ODI,⁴⁶ fel sy'n wir yn awr gyda pherfformiad gollyngiadau Dŵr Cymru. Er bod Ofwat wedi cymryd hyn i ystyriaeth at ddibenion agor ymchwiliad, mae ei ganfyddiadau yn yr achos hwn yn ymwneud â thorri rhwymedigaethau Trwydded Dŵr Cymru yn unig, ar ffurf camadrodd a methiannau llywodraethu,⁴⁷ yn hytrach na thorri dyletswydd statudol sy'n gysylltiedig â gollyngiadau.

⁴⁵ [Adran 203 WIA91](#).

⁴⁶ Gweler [Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 - methodoleg derfynol a disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau Atodiad 5: Canllawiau ar dablau cynlluniau busnes \(Gorffennaf 2013\)](#).

⁴⁷ Y mae Ofwat o'r farn sydd wedi galluogi'r camadrodd.

3. Tystiolaeth

3.1 Mae'r adran hon yn nodi'r dystiolaeth y mae Ofwat wedi'i chasglu a'i hadolygu yn ystod yr Ymchwiliad i ddeall y ffactorau a arweiniodd at y camadrodd. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys dogfennau a ddarparwyd i Ofwat cyn lansio'r Ymchwiliad⁴⁸ a'r rheini a ddarparwyd mewn ymateb i'r Hysbysiad Adran 203 ac ymholiadau dilynol a anfonodd Ofwat i Dŵr Cymru.

3.2 Mae gweddill yr adran hon yn rhoi:

- crynodeb o'r meysydd allweddol lle mae Jacobs a WRc wedi nodi problemau gydag adroddiadau rheoleiddiol Dŵr Cymru i Ofwat;
- manylion am ddealltwriaeth Ofwat o sut a pham y cafodd ffigurau anghywir eu camadrodd gan Dŵr Cymru;
- manylion am ddealltwriaeth Ofwat o sut a pham yr arweiniodd trefniadau llywodraethu Dŵr Cymru at y camadrodd; a
- manylion y camau y mae Dŵr Cymru wedi'u cymryd ers nodi'r camadrodd i unioni'r sefyllfa.

Meysydd allweddol o gamadrodd

3.3 Comisiynodd Dŵr Cymru Jacobs, ei archwilydd allanol arferol, i roi sicrwydd trydydd parti o'i APR ar gyfer 2020-21. Wrth wneud hynny, nododd Jacobs bryderon ynghylch methodoleg adrodd Dŵr Cymru ar gyfer gollyngiadau a PCC, a oedd ar y pryd wedi'u nodweddu gan Jacobs fel rhai ansylweddol o ran y ffynonellau data a ddefnyddiwyd, ond a allai fod yn sylweddol o ran proses. Mewn perthynas â PCC, er enghraifft, nododd Jacobs nad oedd data o fonitorau defnydd domestig yn cael ei gyfateb i ddata meddiannaeth ar lefel cwmni, a bod ffynonellau data gwahanol yn arwain at wahanol raddau o gywirdeb. O ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliad, argymhellodd Jacobs y dylid cynnal adolygiad llawn o ddull y cwmni o ymdrin ag adrodd ar ollyngiadau a PCC cyn i Dŵr Cymru adrodd ar ei APR nesaf ar gyfer 2021-22.

3.4 Fel rhan o'i baratodau ar gyfer APR 2021-22, defnyddiodd Dŵr Cymru broses sgorio asesiad risg i benderfynu pa rai o'i Ymrwymadau Perfformiad a fyddai'n elwa fwyaf o gael adolygiad cynnar o'r broses gan Jacobs. Roedd Dŵr Cymru o'r farn, gan fod Ymrwymadau Perfformiad gollyngiadau a PCC eisoes wedi mynd

⁴⁸ Er enghraifft, adroddiadau a gomisiynwyd gan Dŵr Cymru fel rhan o'i waith ei hun i ddeall y materion.

trwy adolygiad annibynnol gan gynghorydd allanol ar ollyngiadau allanol a contractiwyd gan Dŵr Cymru ('y **Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau**'), ni chawsant eu nodi'n wreiddiol yn yr asesiad risg hwnnw fel rhai yr oedd angen iddynt gael adolygiad cynnar o'r broses. Fodd bynnag, cawsant eu cynnwys yn Adolygiad Jacobs 2022, ar ôl i aelod o uwch reolwyr Dŵr Cymru gynnig, gan fod y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi bod yn darparu adolygiad cymheiriaid ers nifer o flynyddoedd, bod hyn yn cyfiawnhau Jacobs yn ychwanegu Ymyriadau Perfformiad ar ollyngiadau a PCC at ei adolygiadau proses ar gyfer APR 2021-22.⁴⁹

- 3.5 Nododd Adolygiad Jacobs (a gwblhawyd ar gyfer APR 2021-22) faterion o bwys gyda phrosesau cyfrifo gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru. Yn dilyn hynny comisiynodd Dŵr Cymru adolygiad annibynnol gan WRc i ddeall rhagor am y materion yn ymwneud ag adrodd. Roedd ei ganfyddiadau'n cyd-fynd yn agos â'r rheini yn Adolygiad Jacobs. Crynhoir y materion a nodwyd isod.

Colledion Prif Bibell Cyflenwi a Chronfa Gwasanaeth ('TMSR').

- 3.6 Fel yr eglurwyd uchod, un o'r cydrannau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo lefel gollyngiadau cwmni yw cyfrifo colledion dŵr o'i brif bibell cyflenwi. Fel y nodir yng nghanllawiau adrodd ar ollyngiadau Ofwat, mae dau ddull ar gyfer meintoli gollyngiad prif gyflenwi, sef dull BABE a dull cydbwysedd llif.⁵⁰ Mae canllawiau Ofwat yn nodi bod y dewis rhwng y ddau ddull hyn yn dibynnu ar ba ddata sydd ar gael i gwmni, ac y dylai cwmnïau ddefnyddio dull cymesur wrth amcangyfrif gollyngiadau o'u brif bibell cyflenwi. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai cwmni ddefnyddio dull monitro rhagweithiol lle mae gollyngiadau prif gyflenwad yn ffurfio cyfran gymharol uchel o'i lefel gollyngiadau cyffredinol (hynny yw, mwy na 5%), neu lle mae ei fwch cydbwysedd dŵr yn fwy na +/- 2 %. Byddai dull rhagweithiol o'r fath yn cynnwys cyfuniad o archwiliadau maes, technegau dadansoddol, a dulliau cydbwysu llif. Mae'r canllaw'n nodi y dylai cwmnïau sydd â gollyngiadau o brif bibellau cyflenwi sy'n fwy na 5% o gyfanswm y gollyngiadau adolygu ac adnewyddu'r holl brif gydrannau yn eu cyfrifiadau bob blwyddyn. Mae'r canllawiau'n nodi y gall cwmnïau sydd â llai na 5% o'u gollyngiadau wedi'i briodoli i ollyngiad prif bibell cyflenwi ddefnyddio dulliau llai dwys ond y dylent ddefnyddio eu data eu hunain a pheidio â dibynnu ar werthoedd rhagosodedig cenedlaethol.
- 3.7 Nododd adolygiadau Jacobs a WRc fod y gwerthoedd a ddefnyddiodd Dŵr Cymru i gyfrifo ei brif ollyngiadau o brif bibell cyflenwi yn ei APR 2020-21 a 2021-22 wedi defnyddio dull BABE a gyfrifwyd ac nad oedd wedi'i ddiweddarau ers 2016 (cyfeiria Dŵr Cymru at hyn fel y '**BABE Sefydlog**'). Amcangyfrifodd y BABE Sefydlog mai 32.6 MI/d oedd gollyngiadau'r prif bibellau cyflenwi, sef tua 20% o gyfanswm y gollyngiadau a adroddwyd gan Dŵr Cymru ar gyfer 2020-21 a 2021-22. Yn unol â

⁴⁹ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁵⁰ [Canllawiau Adrodd ar Ollyngiadau Ofwat](#). Gweler hefyd paragraffau 2.18 i 2.19.

Chanllawiau Adrodd ar Ollyngiadau Ofwat, dylai'r gyfran hon o'r holl ollyngiadau y gellir eu priodoli i ollyngiad o'r brif bibell cyflenwi fod wedi sbarduno Dŵr Cymru i adolygu ac adnewyddu ei gyfrifiad o ollyngiadau prif bibell cyflenwi yn flynyddol. Canfu adolygiad WRc na wnaeth Dŵr Cymru hyn, er iddo hefyd gael ei argymell gan ddau o'r tri adroddiad trydydd parti a baratowyd ar gyfer y cwmni.⁵¹ Yn unol â'r canllawiau adrodd, dylai'r ffaith bod gollyngiadau o brif bibellau cyflenwi yn fwy na 5% o gyfanswm y gollyngiadau a adroddwyd hefyd fod wedi ysgogi Dŵr Cymru i ddefnyddio dull rhagweithiol o fonitro, a ddisgrifir yn y canllawiau fel 'cyfuniad o archwiliadau maes, technegau dadansoddi a dulliau cydbwysedd llif', yn hytrach na dull BABE.

- 3.8 Nododd WRc hefyd fod gan Dŵr Cymru ffigurau BABE mwy diweddar ar gael iddo, nad oedd wedi'u defnyddio, ac a fyddai, pe baent wedi cael eu defnyddio, wedi arwain at adrodd llawer uwch o ollyngiad prif bibellau cyflenwi, sef tua 85 MI/d. Amlygodd WRc, wrth gymharu mewnbynnau dosbarthu (hynny yw, cyfaint y dŵr a oedd yn mynd i mewn i system Dŵr Cymru) â chyfaint y dŵr a oedd wedyn yn mynd i mewn i DMA (cyfanswm llif dyddiol), fod bwlch anesboniadwy rhwng y ddau ffigur. Roedd hyn yn dangos bod colledion i fyny'r gadwyn gyflenwi o'r DMA (hynny yw, colledion TMSR) yn wir yn uwch na'r ffigur BABE Sefydlog o 32 MI/d y dewisodd Dŵr Cymru ei ddefnyddio yn ei gyfrifiadau. Ategwyd hyn gan gyfrifiad yn defnyddio cydbwysedd llif 'gwaith ar y gweill' mewnol Dŵr Cymru, y gwnaeth Dŵr Cymru eu rhannu â WRc.⁵²

Defnydd Anfesuredig Fesul Aelwyd

Mae'r ail fater o bwys a nodwyd yn ymwneud â chyfrifiad Dŵr Cymru o'r Defnydd Anfesuredig Fesul Aelwyd ('PHC'), a ddefnyddir i gyfrifo gollyngiadau a PCC. Mae canllawiau Ofwat yn glir y dylid cyfrifo PCC o dri rhif: (A) cyfanswm defnydd mesuredig aelwyd (hynny yw, swm y darlleniadau mesurydd); (B) cyfanswm defnydd anfesuredig

⁵¹ Dywedodd un o'r adroddiadau hyn, 'Argymhellir bod DCWW yn adolygu ac yn diweddarar....TM/SR gollyngiadau yn flynyddol yn unol â chwmnïau dŵr eraill i fonitro unrhyw ddirywiad neu welliant a rhoi cyfrif am gysondeb adrodd ar ollyngiadau (cydgyfeirio)'. Yr adroddiad arall oedd Adolygiad Cynnar Jacobs – adborth sicrwydd cyn APR22. Dywedodd, 'Yn ystod yr archwiliad, nid oedd y tîm yn glir pryd y cafodd yr amcangyfrif [BABE] ei ddiweddarar ddiwethaf ond mae wedi darparu dyfyniad o sylwebaeth 2012-13 yn disgrifio newid mewn methodoleg i ddefnyddio dull cydbwysedd màs i ganfod colledion prif bibellau cyflenwi. Mae'n ymddangos bod arolygon y prif bibellau cyflenwi ar gyfer model BABE wedi'u cynnal yn 2007/08. Nid oedd y tîm yn gwybod am y ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer paramedrau cyfradd llif gollyngiadau, cyfradd arolwg a chyfradd llwyddiant. Roedd tarddiad y ffigurau hyn hefyd yn anhysbys. [...] lle mae colledion prif bibellau cyflenwi yn fwy na 5%, dylid eu hadolygu bob blwyddyn.' Y drydedd farn oedd barn y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, y nododd ei adolygiadau blynyddol o 2017 hyd at 2021 fod yr 'amcangyfrif cyfredol o 32.61 MI/d wedi aros yr un fath'.

⁵² Ibid.

aelwyd (wedi'i allosod o'r Monitor Defnydd Domestig); ac (C) cyfanswm y boblogaeth. Dylid rhannu cyfanswm A a B gydag C i gyfrifo PCC.

Mae Dŵr Cymru wedi defnyddio'r dull hwn i benderfynu ar PCC a nododd adolygiad WRc, er bod dull y cwmni ar gyfer monitro data o fonitorau defnydd domestig yn cydymffurfio â'r fethodoleg adrodd, roedd tystiolaeth bod *'dehongliad a dadansoddiad y canlyniadau wedi arwain at ddiffyg cydymffurfio'*.⁵³ Yn benodol, ar argymhelliad ymgynghorydd trydydd parti a ddywedodd fod addasiad meddiannaeth yn gyson â'r canllawiau adrodd am PCC, roedd Dŵr Cymru wedi cyflwyno addasiad ar gyfer cyfraddau meddiannaeth mewn rhai mathau o eiddo heb fesurydd. Yn ei adroddiad dywedodd WRc fod yr addasiad hwn, yn y modd a gymhwyswyd yn y pen draw gan Dŵr Cymru, wedi cael yr effaith o gynyddu PHC anfesuredig Dŵr Cymru gan 17%, ac felly roedd yn amhriodol. Mae Canllawiau Adrodd ar PCC Ofwat yn nodi *'ar hyn o bryd ni chynigir y dylai'r mesur PCC cyfartalog ddeillio o amcangyfrifon PCC mesuredig ac anfesuredig ar wahân. Nid oes angen dadgyfuno cyfanswm y boblogaeth aelwydydd rhwng aelwydydd mesuredig ac anfesuredig ac nid oes angen data meddiannaeth ar gyfer y mesur hwn'*.⁵⁴

- 3.9 Barnodd Adolygiad Jacobs yn 2022 fod y dyrchafiad i PHC anfesuredig yn amhriodol wrth gyfrifo PCC. Roedd WRc o'r farn bod y dull hwn yn groes i'r canllawiau adrodd ar PCC, ac roedd y dyrchafiadau a gynhyrchwyd ganddo yn afresymol yn ei farn ef.
- 3.10 Mae PHC anfesuredig, fel elfen o'r cyfrifiad PCC, yn eistedd o fewn y cydbwysedd dŵr ehangach. Po uchaf yw'r PHC, yr uchaf yw'r PCC, ac yn y pen draw, yr uchaf yw'r dŵr y rhoddwyd cyfrif amdano fel wedi'i ddarparu. Po fwyaf o ddŵr y gall cwmni roi cyfrif amdano wedi'i gyflenwi, y lleiaf o ollyngiadau y mae angen iddo roi cyfrif amdano. Felly, mae Ofwat o'r farn (fel y cydnabuwyd ac yr adroddwyd wrth Ofwat gan Dŵr Cymru) bod penderfyniad gan Dîm Adrodd ar Ollyngiadau Dŵr Cymru i gymhwyso'r dyrchafiad i PHC (yr **'addasiad meddiannaeth'**), trwy gynyddu'r PCC yn gyffredinol wedi cael yr effaith o leihau'r gollyngiadau a adroddwyd.⁵⁵
- 3.11 Yng ngoleuni'r uchod, canolbwyntiodd ymchwiliad Ofwat ar ganfod sut a pham y digwyddodd y materion pwysig hyn, gan arwain at ffigurau anghywir yn cael eu hadrodd yn ffigurau Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru, a pham nad oedd trefniadau llywodraethu mewnol y cwmni wedi atal hyn rhag digwydd.

⁵³ *Ibid.*

⁵⁴ [Canllawiau Adrodd ar PCC Ofwat](#).

⁵⁵ Gweler er enghraifft paragraffau 3.35 i 3.36 isod.

Cyd-destun sut a pham yr adroddwyd ffigurau anghywir

AMP6 (2015–20)

- 3.12 Ym mlynnyddoedd olaf AMP6, ac i mewn i AMP7 (2020–21 a 2021–22), mae tystiolaeth bod Tîm Adrodd ar Ollyngiadau Dŵr Cymru wedi mynd ati i addasu gwahanol gydrannau yn ei gyfrifiad gollyngiadau er mwyn cynnal y cydbwysedd dŵr o fewn goddefiant o 5%. Fel y manylir rhagor isod, ar gyfer rhai o gydrannau'r cyfrifiad roedd ganddo hefyd ddata mwy newydd ar gael iddo a oedd yn nodi bod lefelau gollyngiadau yn debygol o fod yn uwch na'r data mwy hanesyddol a gynhwyswyd yng nghyfrifiadau'r cwmni. Dewisodd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau beidio â defnyddio'r data mwy newydd hwnnw, o ystyried pryderon ynghylch ei ddibynadwyedd (gweler paragraff 3.17 isod), a gafodd yr effaith bod Dŵr Cymru'n cyflwyno sefyllfa fwy ffafriol o ran gollyngiadau nag yr oedd mewn gwirionedd.
- 3.13 Mae Ofwat yn deall bod gollyngiadau cynyddol i fyny'r gadwyn gyflenwi, a sut y yr oedd yn cael ei gyfrifo a'i adlewyrchu yn adroddiadau rheoleiddio gollyngiadau'r cwmni, wedi dod yn destun ffocws cynyddol i Dŵr Cymru ers o leiaf 2015, pan wnaeth sefydlu Dîm Colledion i Fyny'r Gadwyn Gyflenwi newydd a chomisiynu WRC i ddatblygu methodoleg i feintoli dŵr na roddwyd cyfrif amdano ar TMSR. Sefydlwyd y Tîm Colledion i Fyny'r Gadwyn Gyflenwi i wella dealltwriaeth Dŵr Cymru o ollyngiadau TMSR ac o ganlyniad i wella cynllun busnes gollyngiadau'r cwmni ar gyfer yr AMP7 sydd i ddod. Un o amcanion y tîm oedd adolygu methodolegau gollyngiadau blaenorol (mwy adweithiol) i fyny'r gadwyn gyflenwi a diweddarau'r gwerthoedd a ddefnyddir gan y cwmni gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael.⁵⁶ Ar y pryd, roedd Dŵr Cymru yn teimlo bod y gwaith hwn yn bwysig ar gyfer cyflawni ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ('WRMP').
- 3.14 Mae Ofwat yn deall hefyd, yn ystod 2017, bod nifer o sgysiau mewnol ynn Dŵr Cymru wedi mynegi pryder y gallai gollyngiadau'r cwmni i fyny'r gadwyn gyflenwi fod yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd ac a ddefnyddiwyd gan y cwmni yn ei adroddiadau ar y pryd, ac, o ganlyniad, nad oedd ei strategaeth blaenorol o fabwysiadu 'dull cynnal a chadw cost leiaf' i reoli gollyngiadau ar sail adweithiol bellach yn briodol oherwydd risg gynyddol i gyflenwadau cwsmeriaid o ollyngiadau prif bibell cyflenwi. Cydnabu Dŵr Cymru, er gwaethaf yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn gynydd sylweddol gan ei Dîm Colledion i Fyny'r Gadwyn Gyflenwi o ran datblygu dull rhagweithiol o reoli gollyngiadau a thargedu achosion dŵr na roddwyd cyfrif amdano, bod y mesuryddion a'r data ar draws y rhwydwaith yn risg allweddol ar gyfer cyflawni lleihad mewn gollyngiadau. Adroddodd yn fewnol fod

⁵⁶ Amcanion eraill y tîm oedd, yn gyntaf, sefydlu cyfres lawn o gydbwysedd llif a sgematigau i lywio polisi rheoli gollyngiadau rhagweithiol; yn ail, cynnal arolygon maes o ar rannau o'r prif gyflenwad lle yr amheuwyd bod lefelau uchel o ddŵr na roddwyd cyfrif amdano i dreialu technegau a datblygu methodoleg safonol; ac yn drydydd, sefydlu rhestr gynhwysfawr o ollyngiadau hysbys ar yr ystâd i fyny'r gadwyn gyflenwi, ac asesu risg y rhain.

hyn naill ai oherwydd bod mesuryddion yn hen, wedi'u lleoli'n wael neu'n anghywir, neu arferion gweithredu gwael, yn ogystal â diffyg gwybodaeth am weithrediad TMSR y cwmni ei hun. Arweiniodd hyn at bryder yn dod i'r amlwg o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau ynglŷn ag effaith gollyngiadau cynyddol o brif bibell cyflenwi ar sefyllfa gollyngiadau cyffredinol y cwmni a'r adroddiadau rheoleiddio cysylltiedig.

3.15 Gan adlewyrchu'r cyfrifiad cydbwysedd dŵr a eglurwyd yn Adran 2 uchod, roedd model adrodd AMP6 Dŵr Cymru hefyd yn cynnwys cyfrifiad o'r brig i'r bôn ac o'r gwaelod i fyny, yn unol ag arferion a chanllawiau arferol y diwydiant. Mewn papur mewnol yn 2017, ysgrifennodd aelod o Dîm Adrodd ar Ollyngiadau Dŵr Cymru fod strategaeth fusnes AMP6 y cwmni wedi nodi'r angen i leihau dŵr nas cyfrifir amdano ar gyfer yr ystâd i fyny'r gadwyn gyflenwi, er mwyn sicrhau 'nad yw'r cydbwysedd dŵr yn fwy na'r 5% sy'n ofynnol gan Ofwat i gynnal ein dull presennol o adrodd ar ollyngiadau.' Ychwanegodd y papur, '*Os na chaiff y trothwy hwn ei gynnal, byddai'n rhaid i ni adrodd gwerth uwch o 30 MLD*'. Ategwyd hyn yn yr e-bost eglurhaol i'r papur hwnnw, a oedd yn nodi bod angen i Dŵr Cymru gadw'r cydbwysedd rhwng DMA a gollyngiadau o brif bibell cyflenwi er mwyn ei alluogi i ddefnyddio ei fodel adrodd presennol. Esboniodd y papur, '*Rydym yn defnyddio 2 asesiad i wneud hyn, os ydynt yn cytuno o fewn 5% rydym yn cynnal ein lefel gollyngiadau a adroddir ar hyn o bryd, os yw'n uwch na 5% mae'n rhaid i ni adrodd ar werth o'r brig i'r bôn sydd ar hyn o bryd yn +30 MLD*'. Mae Dŵr Cymru wedi egluro i Ofwat fod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau wedi'i gynghori gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau nad oedd y ffigur 'o'r brig i'r bôn' hwn yn cael ei ystyried yn gadarn heb adrodd ar gydbwysedd llif llawn. Mae Ofwat yn nodi bod y papur yn dangos, ym mis Ionawr 2017, bod gan Dîm Adrodd ar Ollyngiadau Dŵr Cymru bryderon na fyddai'r data a ddefnyddiwyd ganddo ar gyfer adrodd ar ollyngiadau ar y pryd yn adlewyrchu'n gywir berfformiad y cwmni o ran gollyngiadau, a bod risg o fynd y tu hwnt i'r goddefiant o 5% yn y cydbwysedd dŵr, a fyddai wedi arwain at adrodd yn mynd yn ddiodyn i ffigur gollyngiadau o'r brig i'r bôn a oedd ar y pryd tua 30 Ml/d yn uwch, gan arwain at y cwmni'n methu ei darged gollyngiadau.

3.16 Digwyddodd y pryder hwn o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau ar yr un pryd â thrafodaethau o fewn y cwmni, gan gyrraedd lefel uwch reolwyr, ar sut y gallai gynnal y bwch cydbwysedd dŵr o dan y 5% i osgoi gorfod adrodd y gwerth gollyngiadau uwch, gan gynnwys trwy addasu'r tybiaethau a ddefnyddiodd mewn cydrannau eraill o'r cyfrifiadau gollyngiadau. Mae Ofwat wedi gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod Dŵr Cymru eisoes wedi bod yn gweithredu addasiadau o'r fath am o leiaf y flwyddyn cyn hynny. Er enghraifft, mae negeseuon e-bost ar yr un pryd yn dangos bod Dŵr Cymru yn 2017 o'r farn bod yr 'hyblygrwydd' yr oedd wedi'i gael yn 2016 drwy wneud addasiadau at i fyny i lwfansau defnydd nos⁵⁷ ddim yn

⁵⁷ Ac a oedd yn cadw'r bwch cydbwysedd dŵr o fewn 5%.

bodoli mwyach, gan eu bod yn cael eu gwrthbwysu gan gynnydd mewn mewnbwn dosbarthu.⁵⁸ Roedd staff hefyd yn cydnabod na ellid lliniaru'r graddau y gallai gollyngiadau fod wedi bod yn cynyddu trwy atebion gollyngiadau mwy syml ac y byddai'n anodd ei wrthbwysu wrth adrodd trwy gymhwysu lwfansau gwahanol yn ei gyfrifiadau gollyngiadau. Er enghraifft, mynegodd aelod o'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau ar y pryd bryder na fyddai mynd i'r afael â gollyngiadau trwy reoli pwysedd yn effeithiol, gan nad oedd llawer o bwysedd gormodol y gellid ei leihau i wrthsefyll y cynnydd mewn llif nos net a achoswyd gan ollyngiadau. Ysgrifennodd, *'Bydd ymraniad pellach trwy fwy o lif nos i'r flwyddyn nesaf yn achosi pryder gwirioneddol - ni allwn gadw i fyny â'r dirywiad yn y llif nos gyda lwfansau.'*

- 3.17 Yn 2017, roedd Dŵr Cymru hefyd wedi cyflogi ymgynghoriaeth trydydd parti i'w gynorthwyo i fodelu costau ar gyfer gollyngiadau a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â gollyngiadau cynyddol y cwmni o brif bibellau cyflenwi. Roedd hyn er mwyn bwydo i mewn i gynllun busnes gollyngiadau AMP7 y cwmni. Ar gefn hyn, bu Dŵr Cymru yn trafod yn fewnol a ddylai ailosod y ffigur TMSR yr oedd yn ei ddefnyddio yn ei gyfrifiad gollyngiadau gan tua 3.5 Ml/d ar ddechrau AMP7, gan arwain at gyfanswm ffigur gollyngiadau o 168.08 Ml/d, neu adael y TMSR ar y ffigur BABE Sefydlog o 32.6 Ml/d, gan arwain at gyfanswm gollyngiad o 163.58 Ml/d.⁵⁹ Yn lle hynny, penderfynodd Dŵr Cymru *'fynd am gynnydd yng nghyfanswm gollyngiadau, gan gadw lefel gollyngiadau DMA ar y trywydd cywir'*.
- 3.18 Mae Ofwat yn deall bod hyn yn golygu, yn gyntaf, bod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn gwybod bod ei ollyngiadau TMSR yn debygol o fod yn codi, ac yn ail, yn hytrach na chynyddu gwerthoedd TMSR yn ei gyfrifiadau gollyngiadau ar gyfer ei gynllunio busnes AMP7, i adlewyrchu'r cynnydd, dewisodd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn lle hynny gynyddu cyfanswm ei ollyngiadau disgwylidig. Roedd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn bwriadu *'edrych ar leihau gollyngiadau TM/SR yn ôl i lawr i'r ffigurau gwreiddiol gan eu cael yn ôl ar y trywydd cywir.'*
- 3.19 Yng nghyd-destun paratoi cynllun busnes drafft WRMP19 a PR19 Dŵr Cymru, roedd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau hefyd yn cwestiynu a oedd camosodiad cynyddol rhwng ei ollyngiadau a adroddir a mewnbwn dosbarthu gan fod newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'w gyfrifiadau er mwyn dyrannu cyfeintiau defnydd dŵr i gydrannau eraill yn y cydbwysedd dŵr tra'n cynnal y cyfaint a ddyrannwyd i ollyngiadau. Yng nghanol 2018 nododd staff, *'Er bod gollyngiadau'n mynd heibio bob blwyddyn a bod y newidiadau o bwys yn symud y swm i gydrannau eraill, sef galw gan aelwydydd, mae'r dŵr yn dal wedi'i fesur trwy*

⁵⁸ Po uchaf yw'r lwfans defnydd nos, y mwyaf o ddŵr y cyfrifir amdano, a'r isaf fyddai'r gollyngiad canlyniadol.

⁵⁹ Roedd Dŵr Cymru yn gyson ymwybodol o hyn dros y blynyddoedd, ac yn 2019, dywedodd staff y gallai fod yn 'werth ei ystyried' ar gyfer AMP7. Ar ôl trafod yn flaenorol a ddylid cyfrifo gollyngiadau TMSR gan ddefnyddio'r BABE Sefydlog neu ddull deinamig (a oedd ar y pryd yn dangos ffigur TMSR uwch o ~70 Ml/d), cytunodd staff i ddefnyddio BABE.

DI, sydd o ganlyniad wedi cynyddu flwyddyn ar ôl bwlyddyn. Mae Dŵr Cymru hefyd wedi cydnabod hyn yn ei Adroddiad Terfynol, gan gydnabod bod 'aelodau'r tîm yn ymwybodol o'r cynnydd mewn DI a dehongliadau amgen o golledion i fyny'r gadwyn gyflenwi, ac ni aethpwyd i'r afael â'r materion yng nghyd-destun sicrhau cywirdeb adrodd, ac ni chawsant eu rhannu â'r tîm Rheoleiddio, na'u codi yn adolygiad blynyddol y tîm Gweithredol o ffigurau perfformiad, na'u trafod gyda'r swyddogion sicrwydd trydydd parti'.⁶⁰

- 3.20 Ar y pryd, roedd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn gwerthfawrogi bod bwlch a oedd yn tyfu rhwng ei ragolwg a'r mewnbwn dosbarthu gwirioneddol, fel nad oedd y cyntaf yn gywir mwyach. Fodd bynnag, ystyriwyd y byddai mewnbwn dosbarthu 'yn ôl ar y trywydd iawn erbyn 2020' (hynny yw cyn dechrau ar y cyfnod PR19), gan ei fod yn bwriadu adennill y gwahaniaeth rhwng y gwirioneddol a'r rhagolwg (gwahaniaeth a oedd wedi cyrraedd 26.01 Ml/d yn 2017-18) drwy ymdrechion parhaus gyda gollyngiadau dŵr ac ymgyrchoedd effeithlonrwydd dŵr, fel y byddai ei ragolygon yn dod yn ddilys eto erbyn 2020. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r tîm yn cydnabod bod risg yn y dyfodol o gamosodiad parhaus rhwng y rhagolygon yr oedd yn eu defnyddio a'i ffigurau gwirioneddol a'r ffigurau APR a adroddwyd, oherwydd yr addasiadau yr oedd wedi'u gwneud i gydrannau eraill yn ei gyfrifiad cydbwysedd dŵr. Nodwyd bod gwahaniaeth mawr rhwng ei ragolwg a'r galw gwirioneddol mesuredig ac anfesuredig gan aelwydydd a ffigurau PCC mesuredig ac anfesuredig. Nododd staff pe bai'r cwmni'n llwyddo i leihau mewnbwn dosbarthu i'w ragolygon gwreiddiol erbyn 2020, a gan dybio ei fod '*o leiaf wedi cyrraedd*' ei darged gollyngiadau, yna byddai angen iddo adlewyrchu'r gostyngiad yn y mewnbwn dosbarthu '*mewn cydran arall er mwyn i'r rhifau gysoni*.' Nodwyd galw gan aelwydydd a PCC fel elfennau '*a fyddai'n gorfod gostwng yn sylweddol hefyd i wneud iawn am y newid hwn*.' Hwn oedd y dull y cytunwyd arno o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau.
- 3.21 O 2019, roedd Ofwat yn disgwyl i gwmnïau adrodd yn unol â Methodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7. Yn 2019 cyflwynodd Ofwat Ymrwymiad Perfformiad cyffredin ar gyfer PCC hefyd. Roedd y ddau yn fodd i amlygu anghysondebau yng nghyfrifiadau adrodd Dŵr Cymru. Wrth gymhwyso o'r newydd un o'r agweddau ar Fethodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7 yn ymwneud â galw gan aelwydydd, dywedodd aelod o staff Dŵr Cymru ei fod wedi arwain at fwlch cydbwysedd dŵr o 4.79% a nododd, '*Rwy'n amau, gan nad ydym yn adrodd am unrhyw newid i Ollyngiadau TMSR... dyna pam nad yw'r cydbwysedd yn wych (mae'r dŵr yn rhywle)*'. Dywedodd aelod o'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau mewn e-bost at aelodau eraill o'r tîm ei fod yn gobeithio, gyda gweithredu Methodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7, y byddai cyfrifiad gollyngiadau o'r gwaelod i fyny Dŵr Cymru '*lle mae angen iddo fod*' ac y byddai'r TMSR yn adrodd bron i 32.6 Ml/d, gyda mewnbwn dosbarthu '*hefyd yn*

⁶⁰ Adroddiad Terfynol.

adlewyrchu'r gostyngiad i sicrhau bod y bwlch cydbwysedd yn debyg i [APR19] ac yn sefydlog.'

- 3.22 Aeth yr aelod hwn o'r tîm ymlaen i ddweud bod Methodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7 wedi cywiro problem oedd gan Dŵr Cymru o ran sut yr oedd yn cynhyrchu'r ffigurau galw gan aelwydydd anfesuredig a ddefnyddiwyd yn ei gyfrifiadau cydbwysedd dŵr, yr oedd y cyfraddau defnydd a ddefnyddiwyd ganddo yn anghywir. Nodwyd, er eu bod wedi gwybod am hyn ers tro, *'nad oedd cyfle erioed i'w newid' oherwydd y ffordd y bu'r cydbwysedd a pha mor agos y maent bob amser wedi bod ar y gollyngiadau a'r targedau a adroddwyd'*. Daw Ofwat i'r casgliad, er bod aelodau'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn gwybod bod y ffigurau wedi bod yn anghywir ers peth amser, parhaodd Dŵr Cymru i adrodd ar y ffigurau hynny ac felly'n cadw'r bwlch cydbwysedd dŵr o fewn 5%. Felly, nid oeddent yn peri risg o graffu pellach a methiant posibl i gyrraedd y targed gollyngiadau. Mae Ofwat yn nodi bod y gollyngiadau a adroddwyd gan Dŵr Cymru yn wir yn agos iawn at ei darged Ymrwymiad Perfformiad dros gyfnod AMP6, y mae'r datganiad uchod yn ymwneud ag ef.
- 3.23 Fel y nodwyd uchod, yn 2019 roedd Dŵr Cymru yn defnyddio cyfuniad o lwfansau BABE a chydbwysedd llif i adrodd ar ollyngiadau prif bibell cyflenwi. Fodd bynnag, roedd yn defnyddio'r ffigur BABE Sefydlog o 2016 ar gyfer ei gyfrifiadau TMSR gan gynhyrchu'r ffigur prif bibell cyflenwi o 32.6 MI/d a ddefnyddiodd ar gyfer ei adroddiadau rheoleiddiol. Yn fewnol, roedd gan y cwmni werth gollyngiad arall, sylweddol uwch (a oedd, yn ei farn ef, yn set amgen o ffigurau heb eu dilysu), yr oedd yn ei defnyddio, ochr yn ochr â ffynonellau data eraill, ar gyfer ei weithgareddau canfod gollyngiadau a rheoli i'w helpu i dargedu ei ymdrechion lleihau gollyngiadau ar lawr gwlad. Ar y pryd, trafododd Dŵr Cymru gynlluniau i symud o ddefnyddio ei ffigur BABE Sefydlog i ffigur a adroddwyd yn fyw fel rhan o Fethodoleg Adrodd ar Ollyngiadau AMP7, ond roedd o'r farn y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i *'gollyngiad o'r prif gyflenwad gwirioneddol fod yn debyg i'r ffigur a adroddir ar hyn o bryd.'*
- 3.24 Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn dal i fod yn bryderus ynghylch y gallu i aros o fewn y bwlch cydbwysedd dŵr o 5% ac roedd yn ymwybodol ei bod yn bosibl nad oedd y ffigur gollyngiadau TMSR a ddefnyddiwyd yn ei gyfrifiadau cydbwysedd dŵr, ac felly ffigur y cwmni ar gyfer gollyngiadau a gofnodwyd, yn adlewyrchiad cywir o ollyngiad gwirioneddol.⁶¹ Ym mis Medi 2019, roedd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau o'r farn bod y bwlch cydbwysedd dŵr yn 4.79% a thynnodd Gyngorydd Allanol ar Ollyngiadau y cwmni

⁶¹ Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyn o safbwynt adrodd a chyflawni lleihad mewn gollyngiadau.

sylw at *'risg sylweddol'*, o ystyried y bwlch cydbwysedd cynyddol a welwyd rhwng 2016–2019, y gallai Dŵr Cymru fynd y tu hwnt i na 5% erbyn mis Mawrth 2020.

- 3.25 Ar yr adeg hon roedd gan Dŵr Cymru fynediad at amcangyfrifon 'deinamig'⁶² amgen o'i ollyngiadau TMSR wedi'u codi o wybodaeth cydbwysedd parthau.⁶³ Mae'r rhain yn cyfrifo gollyngiadau TMSR i fod tua 60ML/d, yn hytrach na'r ffigur BABE Sefydlog o 32.6 ML/d. Wrth redeg ei ffigurau cydbwysedd dŵr diweddaraf ym mis Medi 2019, dywedodd aelod o staff Dŵr Cymru, *'Rwy'n credu bod gollyngiadau TMSR wedi cynyddu rhwng mis Ebrill a mis Medi a byddai hyn yn cael ei nodi yn y DI ond mae'r bwlch [cydbwysedd dŵr] yn amsugno'r newid gan fod y gydran TMSR yn statig ar 32.61ML/d'*. Argymhellodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau er y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith a wneir ar gydbwysedd parthau, y dylid cadw'r ffigur TMSR uwch o tua 60 ML/d *'yn gyfrinachol nes bod gwerth cadarn y gellir ei ddefnyddio yn y KPI a adroddir. Tan hynny, dylid defnyddio'r gwerth presennol sy'n seiliedig ar egwyddorion BABE.'*⁶⁴ Mae Dŵr Cymru wedi dweud wrthym fod hyn yn adlewyrchu barn y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau nad oedd y ffigurau a oedd yn seiliedig ar gydbwysedd parthau yn ddigon cadarn na dibynadwy eto.⁶⁵
- 3.26 Ar yr adeg honno, yn hwyr yn 2019, roedd ymwybyddiaeth ymhlith Uwch Reolwyr ym musnes dŵr Dŵr Cymru bod camosodiad rhwng perfformiad tueddiad y cwmni o ran mewnbwn dosbarthu a gollyngiadau, gan nodi o ystyried y lefelau gollyngiadau yr oedd yn adrodd arnynt yn ei gyfrifiad o'r gwaelod i fyny, byddai disgwyl i'w ffigurau mewnbwn dosbarthiad fod yn is nag yr oeddent. Gofynnodd Uwch Reolwr yn y busnes dŵr am gynllun gweithredu brys i wirio hyn ac i wella perfformiad mewnbwn dosbarthu'r cwmni. Ar ôl derbyn cynllun gweithredu amlinellol, fe wnaeth nodi, *'Mae llawer o sylwadau a dim digon o weithredu, mae'n edrych fel ein bod wedi bod yn eistedd yn edrych ar hyn gan obeithio y byddai'n dod i lawr...mae'r cynllun gweithredu a gyflwynwyd gennyh yn golygu y byddwn y tu allan i'r cydbwysedd 5%...ac felly yn methu ein targed gollyngiadau o'r brig i'r bôn'*. Gofynnwyd i'r tîm benodi parti allanol i fwrw ymlaen â chamau gweithredu'n gyflymach.
- 3.27 Gofynnwyd i'r Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau gynnal adolygiad hanner blwyddyn o'r cydbwysedd dŵr yn 2019, o ystyried y bwlch cynyddol yn y cydbwysedd dŵr. Dywedodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, *'Mae defnyddio gwerth TMSR o 64.33 ML/d a gesglir o gydbwysedd i fyny'r gadwyn gyflenwi yn cau'r bwlch i 1.1% ond mae'n golygu ein bod yn methu'r targed gollyngiadau o gryn dipyn. Fel y dywedais yn fy nodyn ar 19 Medi, rhaid i ni gadw'r gwerth amgen hwn yn gyfrinachol a pheidio ei drafod â phartion allanol.'*⁶⁶ Dywedodd y

⁶² Neu 'rhagweithiol', yn unol â [Chanllawiau Adrodd ar Ollyngiadau Ofwat](#).

⁶³ Gweler paragraff 2.25 uchod.

⁶⁴ Ymateb dyddiedig 21 Mehefin 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁶⁵ Gweler paragraff 3.42 isod.

⁶⁶ Gweler hefyd paragraff 2.27 uchod.

Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, *'Rwy'n amau nad yw llawer o'r gollyngiadau TM a adroddwyd o'r cyfrifiad cydbwysedd mewn gwirionedd ar y prif bibell cyflenwi ond yn hytrach ar gyflenwadau oddi arnynt gan gynnwys DMA sydd wedi'u hatal a changhennau heb fesuryddion. Bydd hyn llai o gost is i'w atgyweirio a dylid ei flaenoriaethu.'*

- 3.28 Ar ddiwedd 2019, roedd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi cadarnhau y byddai Dŵr Cymru yn methu ei darged gollyngiadau 2019-20 *'heb wneud addasiadau i lwfansau hyd yn oed gyda'r ymdrech enfawr ar lawr gwlad.'* Roedd uwch reolwyr yn y busnes dŵr o'r farn bod hyn yn *'siomedig dros ben ac [...] yn un y bydd yn anodd cytuno arno gyda'r archwilydd.'* Dywedodd dogfen ddilynol a gyflwynwyd i Dŵr Cymru gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau *'heb newidiadau i'r lwfansau yn y cyfrifiad o'r gwaelod i fyny, ni fyddai'r targedau KPI ar gyfer gollyngiadau wedi'u cyrraedd [...] Mae'r cynnydd o 1.65 l/p/hr yn y defnydd nos yn cyfateb i tua 50 MI/d oddi ar y ffigur gollyngiadau.'* Mae Ofwat yn nodi bod hyn yn dangos bod Dŵr Cymru wedi gwneud addasiadau o'r fath i lwfansau, yn ogystal ag ymdrechion cyflenwi ar lawr gwlad i leihau gollyngiadau.

AMP7

- 3.29 Yn PR19, sefydlodd Ofwat PCC fel ymrwymiad perfformiad cyffredin. Hyd at hynny, byddai cwmnïau wedi cyfrifo galw a defnydd fel rhan o'r ymarfer cydbwysedd dŵr ehangach. Fodd bynnag, ar gyfer AMP7, roedd hefyd yn ofynnol iddynt adrodd ar eu PCC cyfartalog blynyddol. Felly comisynodd Dŵr Cymru ymgynghorydd allanol i adolygu sut yr oedd yn cyfrifo galw anfesuredig gan aelwydydd, a oedd yn bwydo i mewn i'w gyfrifiad PCC ehangach. Roedd adroddiad dilynol yr adolygiad, dyddiedig Mawrth 2020, yn tynnu sylw at y ffaith, cyn 2019-20, nad oedd y ffordd yr oedd Dŵr Cymru yn cyfrifo galw gan aelwydydd anfesuredig yn briodol ac nid oedd yn cyd-fynd ag arfer gorau'r DU, yn benodol mewn perthynas ag Arfer Gorau Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU ym 1999 (**'UKWIR 1999'**).⁶⁷ Felly, cynigiwyd dull arall o gyfrifo.
- 3.30 Yn wahanol i'r datganiadau uchod (gweler paragraff 3.30) ynglŷn â'r cynnydd yn y defnydd nos, ar ddechrau 2020 nododd staff, *'Nid ydym yn gwybod beth fydd y newidyn [defnydd nos aelwydydd] eleni, bydd yn is ond nid ydym yn gwybod gan faint. [...] Felly byddai angen cynyddu'r elfen sefydlog [gollyngiadau preifat] i wrthbwysu'r gostyngiad naturiol a mwy eto i wrthbwysu'r perfformiad ar draws y flwyddyn [...] Os byddwn yn cadw at ddefnyddio 3.39 l/p/h yna fe ddown ni i mewn ar 175.47 MI/d. Gyda 3.60 l/p/h rydym yn dod i mewn ar 168.95 MI/d.'* Mae Ofwat o'r farn bod hyn yn dangos bod staff yn ymwybodol bod defnydd nos aelwydydd wedi bod yn gostwng mewn gwirionedd, tra bod y cwmni'n nodi cynnydd ynddo. Mae Ofwat hefyd o'r farn bod y dyfyniad uchod yn nodi ymhellach bod staff wedi

⁶⁷ Arfer Gorau Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU ar gyfer Monitorau Defnydd Anfesuredig y Pen (**'UKWIR 1999'**).

ystyried cynyddu gollyngiadau preifat, hynny yw, gollyngiadau ochr y cwsmer, er mwyn cynyddu gwerthoedd defnydd nos cartrefi, gan ganiatáu i'r cwmni adrodd am lai o ollyngiadau yn y pen draw. O fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau, trafodwyd y byddai angen i Dŵr Cymru ar ryw adeg ar draws AMP7, symud i ddull cydbwysedd màs (llif) o gyfrifo gollyngiadau TMSR, gan fod y data perthnasol ar gyfer gwneud hynny ar gael. Dywedodd hefyd y byddai *'angen iddynt liniaru'r risg o unrhyw gynnydd yng nghyfanswm y gollyngiadau trwy newid yr amcangyfrif TM / SRV sef [...] gan wrthbwysu unrhyw gynnydd o ganlyniad i ddefnyddio dull gwahanol h.y. y cydbwysu màs a oedd yn gosod yr amcangyfrif i fyny i tua 40 – 45 MI/d o gymharu â 32.61 MI/d.'*

- 3.31 Fel mewn blynyddoedd blaenorol,⁶⁸ ar yr adeg hon roedd Dŵr Cymru yn ystyried cost-ffeithiolrwydd ei ymdrechion i leihau gollyngiadau. I gefnogi ei gyflawniad AMP7, cynhaliodd grŵp strategaeth Dŵr Cymru ar ollyngiadau (y **'Grŵp Strategaeth Gollyngiadau'**) brosiect i ddeall achosion defnydd nos uwch yng nghyd-destun y cynnydd yn y gollyngiadau a adroddwyd yn ystod tywydd poeth. Roedd deall yr achosion yn galluogi Dŵr Cymru i'w *'hatal rhag effeithio ar ollyngiadau a adroddwyd'* (hynny yw, dyrannu'r cyfeintiau hyn i ddefnydd hysbys, lle y'i cefnogir gan ddata, yn hytrach na gollyngiadau) ac roedd y tîm o'r farn y gallai wedyn *'gymhwysu'r canfyddiadau ar draws y busnes i helpu i gyflawni gostyngiad o ollyngiadau adroddadwy AMP7 heb gost atgyweiriadau nac o ran adnoddau.'* Roedd Dŵr Cymru wedi drafftio rhaglen wella i fynd i'r afael â gollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi, yn dilyn *'cynnydd sylweddol yn y prif gyflenwad yn byrstio' ar ddechrau 2020.*
- 3.32 Ym mis Hydref 2020, anfonodd y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau ddrafft cynnar o set o sleidiau o'r enw *'AMP7 Adolygiad: strategaeth gollyngiadau ac effeithlonrwydd dŵr'* at uwch aelod o'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau, gan ofyn i'r drafft beidio â chael ei ddisbarthu ymlaen. Mae Ofwat yn deall bod cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys adolygu agweddau ar weithgareddau cyflawni lleihau gollyngiadau Dŵr Cymru yn ogystal â phrosiectau yn ymwneud â chyfrifiad cydbwysedd dŵr y cwmni, gan gynnwys gwella'r data allweddol a ddefnyddir yn ei gyfrifiadau a dilyn i fyny argymhelliad archwiliad Jacobs ar gyfer 2019–20 bod Dŵr Cymru yn dogfennu ei gynlluniau arfaethedig i wneud newidiadau i'w gydrannau cydbwysedd dŵr. Yn y sleidiau drafft hynny, nododd y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau farn a oedd yn ystyried, er mwyn i Dŵr Cymru gyrraedd ei dargedau gollyngiadau a PCC AMP7, byddai angen iddo leihau mewnbyn dosbarthu gan tua 60 MI/d. Roedd y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai'r cwmni'n gallu cyflawni hyn drwy fesurau effeithlonrwydd dŵr cynlluniedig a thrwy barhau â'i ddull AMP6 o reoli gollyngiadau, ond yn hytrach y byddai'n fwy tebygol o ddod o leihau gollyngiadau TMSR "gwirioneddol", gan

⁶⁸ Gweler paragraffau 3.16, 3.19 a 3.29 uchod.

leihau isafswm llif nos DMA, rheoli pwysedd i leihau gollyngiadau llif a chanolbwyntio ar golledion ochr y cwsmer.

- 3.33 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn 2021, parhaodd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau i fodelu'r hyn a fyddai'n digwydd i ollyngiadau a adroddwyd, gan dybio bod gollyngiadau gwirioneddol is a seiliau amgen ar gyfer cyfrifo'r cydbwysedd dŵr. Ym mis Mai 2021, amlinellodd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau nifer o senarios o sut beth fyddai mewnbyn dosbarthu, cyfanswm y gollyngiadau a PCC, o gymharu â ffigurau a adroddwyd ar gyfer 2020-21, pe bai'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau:
- yn dileu'r addasiad meddiannaeth;
 - dileu'r addasiad meddiannaeth ac adrodd ar ollyngiadau deinamig i fyny'r gadwyn gyflenwi (yn hytrach na defnyddio'r ffigur BABE Sefydlog);
 - pe bai'r timau gweithredol yn lleihau gollyngiadau ar lawr gwlad gan 45 MI/d a bod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn adrodd ar ollyngiadau deinamig i fyny'r gadwyn gyflenwi, ond yn gadael yr addasiad meddiannaeth; a
 - pe bai'r timau gweithredol yn lleihau gollyngiadau ar lawr gwlad gan 45 MI/d, bod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn adrodd ar ollyngiadau deinamig i fyny'r gadwyn gyflenwi, ac yn tynnu'r addasiad meddiannaeth.
- 3.34 Dangosodd y cymariaethau hyn y byddai PCC yn gostwng o 175.98 l/h/d i 161.34 l/h/d drwy ddileu'r addasiad meddiannaeth yn unig, a byddai gollyngiadau'n cynyddu o 163.62 MI/d i 219.78 MI/d. Trafododd aelodau'r tîm y senarios yn ddiweddarach yn y flwyddyn hefyd, fel rhan o broses cynllunio senarios, gan nodi bod y rhifau yn 'dda' a bod y gostyngiad yn PCC yn ganlyniad uniongyrchol i ddileu'r addasiad meddiannaeth ar PHC yn y cydbwysedd dŵr (hynny yw, nid o ganlyniad i unrhyw ymyrraeth uniongyrchol gan Dŵr Cymru i alluogi cwsmeriaid i leihau eu defnydd). Eglurwyd bod yr addasiad meddiannaeth yn gwrthbwysu'r cynnydd mewn mewnbyn dosbarthu drwy gynyddu PHC a galw cartref anafesuredig, a phe baent yn dechrau lleihau mewnbyn dosbarthu mewn termau real (y mae Ofwat yn deall y byddai'n cael ei gyflawni drwy fynd i'r afael â gollyngiadau o brif bibellau cyflenwi), gallent ddechrau cael gwared ar yr addasiad meddiannaeth yn raddol '*i wrthbwysu'r newid a chadw'r cydbwysedd yn sefydlog*'.
- 3.35 Yn ogystal, ystyriodd y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau pryd y byddai'n fwyaf buddiol i'w adroddiadau gyflwyno data newydd a mwy cywir a oedd ar gael i'w gyfrifiad cydbwysedd dŵr, yn hytrach na defnyddio'r data mwyaf cywir ar gyfer pob cydran cyn gynted ag y byddai ar gael. Er enghraifft,⁶⁹ roedd Dŵr Cymru yn ymchwilio i

⁶⁹ Yn ogystal â chydbwysu ar gyfer addasiad meddiannaeth fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach.

faterion yn ymwneud â thangofrestru mesuryddion ('MUR') (cydran arall a ystyriwyd yn y cyfrifiad cydbwysedd dŵr)⁷⁰ ac yn gwybod y byddai angen iddo ar ryw adeg alinio'r cyfraddau MUR yr oedd yn eu defnyddio â'r rhai o astudiaeth WRC ac o ystyried ei fod wedi diweddarau data yn rheolaidd. Nododd y staff y byddai adroddiadau APR y cwmni ar ollyngiadau yn llai ffafriol pe bai'n parhau i ddefnyddio ffigurau MUR hanesyddol. Serch hynny, credai'r staff na allent ddefnyddio ffigurau mwy newydd oedd ar gael iddynt eto oherwydd 'y ffordd y mae cydrannau eraill ac ati yn adrodd' gan ddweud yn hytrach ei bod yn 'debygol bod hyn yn rhywbeth i'w gyflwyno wrth i [ollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi / gollyngiadau o brif bibellau cyflenwi] gael ei leihau. Bydd y bwlch yn lleihau wrth i DI ostwng fel y gallwn wneud iawn trwy leihau'r cydrannau a thrwy hynny ddefnyddio cyfraddau MUR is a fydd yn cynyddu'r bwlch eto'.

- 3.36 Roedd negeseuon e-bost o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau o'r farn bod Dŵr Cymru angen strategaeth ar y mater hwn er mwyn 'cofio ei gyflwyno' neu gael asesiad annibynnol arno yn ddiweddarach. Roedd yr ystyriaethau hyn yn cynnwys yr addasiad meddiannaeth, a oedd ynghlwm wrth y cynllun lleihau mewnbwn dosbarthu. Roedd y tîm o'r farn bod hyn yn gadarnhaol, gan ei fod yn ymwneud â 'mynd i'r afael â'r materion y gallai Jacobs fod wedi'u gweld / eu codi yn ystod archwiliadau, hyd yn oed os yw'n parhau ar gyfer yr ychydig o adroddiadau blynyddol nesaf.' Mae'n ymddangos bod ffocws y gwaith hwn a'r oedi ymddangosiadol mewn defnyddio data mwy cywir yn canolbwyntio ar gadw'r bwlch cydbwysedd dŵr o dan 5% yn hytrach na chanolbwyntio ar gywirdeb y ffigur a adroddwyd (a fyddai yn ei dro wedi arwain at Dŵr Cymru'n methu â chyflawni ei Ymrwymiad Perfformiad).

Wrth baratoi ar gyfer APR 2020-21, comisiynodd Dŵr Cymru y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau i adolygu ei adrodd ar yr Ymrwymiad Perfformiad cydbwysedd dŵr a gollyngiadau. Adolygodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau ddogfennau ar 'welliannau data' yn ymwneud, yn gyntaf, ag adolygiad o amcangyfrifon poblogaeth cudd a byrarrhosol, a 'chynnydd mawr yn y defnydd nos aelwydydd', a ddangoswyd yn dilyn 'dull newydd o allosod' a gyflwynwyd gan ymgynghorydd allanol⁷¹. Yn ogystal, cyflwynwyd gwelliannau data mewn perthynas â cholledion gwaith plymio, defnydd nos annomestig a MUR. Daeth y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau i'r casgliad bod Dŵr Cymru yn 'cydymffurfio â phob un o'r 64 o argymhellion ar adrodd ar ollyngiadau gan Water UK ac Ofwat a elwir yn Cydgyfeirio Gollyngiadau', a bod yr amcangyfrif o ollyngiadau o 163.62 Ml/d yn rhesymol sy'n golygu bod Dŵr Cymru wedi cyflawni ei Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau o 163.80 Ml/d. Roedd yr adroddiad yn nodi, mewn perthynas â

⁷⁰ Mae MUR yn cyfeirio at effaith tanddarllen a achosir yn nodweddiadol gan draul mewn mesuryddion dŵr mecanyddol sy'n achosi gostyngiad mewn cywirdeb gydag oedran.

⁷¹ Mae Ofwat yn nodi bod hyn yn ymwneud â'r addasiad deiliadaeth a gyflwynwyd o ganlyniad i'r gwaith gan ymgynghorydd trydydd parti.

gollyngiadau TMSR, *'mae'r amcangyfrif presennol o 32.61 Ml/d wedi aros yn ddigyfnewid ar gyfer 2016/17, 2017/18, 2018/19 ac ar gyfer 2019/20'*.

- 3.37 Yn dilyn hynny, nododd adborth Jacobs o'i adolygiad sicrwydd o APR 2020-21 Dŵr Cymru nad oedd data meddiannaeth monitro defnydd domestig Dŵr Cymru yn cyfateb i'r data meddiannaeth ar lefel cwmni, sy'n golygu bod dwy ffynhonnell ddata ar wahân gyda lefelau gwahanol o gywirdeb. Mae hyn yn cyd-fynd â thrafodaethau mewnol Dŵr Cymru a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Awst 2021 a ddangosodd ymwybyddiaeth nad oedd yr addasiad meddiannaeth yn briodol, a bod staff yn bwriadu rhoi'r gorau i'w ddefnyddio. Argymhellodd Jacobs adolygiad llawn o'r dull hwn cyn ei APR ar gyfer 2021-22.
- 3.38 Er gwaethaf adrodd yn gynharach yn 2021 bod amcangyfrif gollyngiadau Dŵr Cymru yn rhesymol, ym mis Tachwedd 2021 rhannodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau gydag Uwch Reolwyr o fewn busnes dŵr Dŵr Cymru gymhariaeth o'r sefyllfa bresennol fel yr adroddwyd, a sut y gallai fod mewn gwirionedd os yw gollyngiadau o'r brig i'r bôn yn fwy cywir ac mae'r gollyngiad TM/SR yn 80 Ml/d.' Ar gefn hyn, cafwyd trafodaeth ar lefel uwch yng nghyd-destun paratoi set o sleidiau yn dangos dadansoddiad cost atgyweirio gollyngiadau yn seiliedig ar ffigurau cydbwysedd dŵr ar y pryd. Roedd y sleidiau'n cadarnhau bod gollyngiad TMSR, yn seiliedig ar ddata cydbwysedd llif, yn tua 80 Ml/d, fodd bynnag ni chafodd hyn *'unrhyw effaith ar ollyngiadau a adroddwyd nes bod y niferoedd yn cydgyfeirio ar 32.61Mld'*. Mae Ofwat yn deall bod hyn yn golygu, gan fod Dŵr Cymru'n defnyddio'r BABE Sefydlog o 32.6 Ml/d yn ei gyfrifiadau ar gyfer ei adroddiadau rheoleiddiol ar ollyngiadau, er bod cydbwysedd llif y gollyngiad TMSR yn llawer uwch, ni fyddai unrhyw ostyngiad iddo yn effeithio ar y ffigurau gollyngiadau a adroddwyd. Mae Ofwat hefyd yn deall, ar argymhelliad y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, fod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r BABE Sefydlog nes bod cadernid y data cydbwysedd llif wedi'i brofi, a bod gollyngiadau TMSR gwirioneddol yn agosach at y ffigur o 32.6 Ml/d (gweler hefyd paragraff 3.37 uchod).
- 3.39 Dywedodd Dŵr Cymru wrth Ofwat fod Uwch Reolwyr yn y busnes dŵr yn rhagweld y byddai gwaith ychwanegol i wirio cadernid y ffigurau cydbwysedd llif, fel yr awgrymwyd gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, yn cael ei wneud, ond ni chafodd hyn ei gwblhau wedi hynny, yn rhannol oherwydd gadawiaid allweddol yn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau, ac yn rhannol oherwydd dyfodiad y pandemig COVID-19, gan gyfyngu ar waith nad ydoedd yn hanfodol o fewn y cwmni. Eglurodd Dŵr Cymru hefyd ei fod yn bwriadu profi cadernid data cydbwysedd llif trwy ei Raglen Mesuryddion Swmp AMP7 ond yn dilyn gweithgor y diwydiant cyfan, ac adroddiad UKWIR 2020 gyda'r teitl 'Arfer gorau ar gyfer parthau monitro llif i fyny'r gadwyn gyflenwi', roedd o'r farn bod yna ddiffyg confensiwn diwydiant clir ar yr amseriad i symud i fethodoleg cydbwysedd llif. Dywedodd Dŵr Cymru wrth Ofwat

ei fod felly wedi penderfynu defnyddio ei Raglen Fonitro Swmp AMP7 i wella data a gohirio'r symud i adrodd ar gydbwysedd llif ar gyfer AMP8.

Cyd-destun sut y bu i drefniadau llywodraethu Dŵr Cymru alluogi'r camadrodd

3.40 Roedd nifer o drefniadau rheoli a llywodraethu ar waith yn Dŵr Cymru yn ystod o leiaf rhan olaf AMP6 ac i mewn i ddechrau AMP7 a arweiniodd at y cwmni yn camadrodd ei ffigurau perfformiad gollyngiadau a PCC. Fel y manylir ymhellach isod, roedd y camadrodd o ganlyniad i'r ffactorau canlynol:

- a) Dim digon o wybodaeth fewnol;
- b) Gorddibyniaeth ar arbenigedd allanol;
- c) Presenoldeb gwrthdaro buddiannau;
- d) Pwysau diwylliannol mewnol;
- e) Diffyg asedau data priodol a fframwaith llywodraethu; a
- f) Rheolaeth wael o sicrwydd risg.

3.41 Yn gyffredinol, mae Dŵr Cymru wedi cydnabod bod *'methiant sylweddol o ran llywodraethu a goruchwyllo rheolwyr'*. Yn ei Adroddiad Terfynol ym mis Mai 2023, dywedodd wrth Ofwat *'nad oedd unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr wedi cyfeirio, annog neu gymell unigolion yn y tîm i gamadrodd data' ond bod hyn yn hytrach o ganlyniad i 'dîm uchel ei gymhelliad ond iau a oedd yn dioddef o ddiffyg llywodraethu da a goruchwyliaeth gan reolwyr oedd â phrofiad priodol'*.⁷² Digwyddodd hyn, meddai Dŵr Cymru, yng nghyd-destun y ffaith bod staff yn teimlo pwysau i gyrraedd targedau a chanolbwyntio ar gynnal y cydbwysedd dŵr trwy ddulliau megis addasu lwfansau a oedd yn bwydo i'r cyfrifiad cydbwysedd dŵr ehangach ac felly, gollyngiadau. Roedd y cyfrifiadau hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, a oedd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu strategaeth gollyngiadau, ac wedi ymgymryd â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â sicrwydd adrodd. Derbyniodd Dŵr Cymru ei fod wedi methu â goruchwyllo a rheoli'r gwrthdaro buddiannau hwn, a rôl y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau yn ehangach.

⁷² Adroddiad Terfynol.

A. Gwybodaeth a dealltwriaeth fewnol annigonol o'r cyfrifiad cydbwysedd dŵr a gofynion adrodd rheoleiddiol

- 3.42 Mae Ofwat yn deall bod amryw o newidiadau wedi bod o fewn strwythur Tîm Adrodd ar Ollyngiadau Dŵr Cymru ar draws AMP6 ac AMP7. Mae Dŵr Cymru wedi cydnabod ei bod yn anochel bod ymadawiad nifer o aelodau allweddol o staff a oedd â phrofiad helaeth o reoli gollyngiadau yn golygu colli rhywfaint o wybodaeth a oedd wedi bod o fewn y tîm. Nid oedd swyddi'r unigolion hyn bob amser yn cael eu llenwi, ac arweiniodd hyn at osod cyfrifoldebau a rannwyd yn flaenorol rhwng tair neu bedair rôl gydag un unigolyn.⁷³
- 3.43 Dywedodd Dŵr Cymru fod ei strwythur a'i staffio ar gyfer adrodd ar ollyngiadau a PCC *'ddim yn rhoi llywodraethu a chraffu annibynnol digonol ar wneud penderfyniadau yn ymwneud â'r fethodoleg gollyngiadau'*. Yn benodol, dywedodd, o 2019 ymlaen, ei bod yn ymddangos bod y ddealltwriaeth a'r cyngor yr oedd Dŵr Cymru'n dibynnu arnynt mewn perthynas â'i fodelau gollyngiadau cymhleth a'r addasiad meddiannaeth wedi bod yn bennaf yn gyfrifoldeb aelod iau o staff, nad oedd yn gwerthfawrogi maint neu arwyddocâd yr addasiad meddiannaeth.
- 3.44 Mae Dŵr Cymru wedi hysbysu Ofwat ymhellach na ddarparwyd yr hyfforddiant angenrheidiol i arfer goruchwyliaeth briodol o'r tîm gollyngiadau ac na ddarparwyd ei allbynnau adrodd i'r rheolwr oedd â chyfrifoldeb newydd am y tîm. Arweiniodd hyn at y ffaith nad oedd penderfyniadau yn ymwneud â barn am y model adrodd ar ollyngiadau a chydymffurfiaeth â gofynion adrodd rheoleiddiol, yn cael eu gwirio a'u herio'n ddigonol.⁷⁴
- 3.45 Yn 2019, wrth drafod yr anghysondeb rhwng ffigurau gollyngiadau a mewnbwn dosbarthu a'i fwlcch cydbwysedd dŵr cynyddol, nododd Uwch Reolwr ym musnes dŵr Dŵr Cymru fod angen i'r tîm gollyngiadau sicrhau bod ganddo wiriadau a chydbwysedd yn eu lle i osgoi bod hyn yn digwydd eto. Dywedodd fod angen adolygiad o rolau ac atebolrwydd o fewn y tîm er mwyn sicrhau bod staff yn mynd yn ôl *'i ganolbwyntio ar y gwaith o reoli eu swyddi o ddydd i ddydd a rhoi gwybod am ollyngiadau'*. Roedd hefyd yn cwestiynu effeithiolrwydd cyfarfodydd strategaeth gollyngiadau'r tîm ar gyfer unrhyw beth heblaw ei amcangyfrif gollyngiadau o'r gwaelod i fyny, a gwnaeth sylwadau yn awgrymu nad oedd y tîm yn defnyddio'r data a oedd ar gael iddo i ganolbwyntio ymdrechion lleihau gollyngiadau yn y manau cywir. Oherwydd y sgiliau mewnol annigonol a amlinellwyd uchod, gofynnodd y Rheolwr i'r tîm benodi rhywun allanol i helpu i fynd i'r afael â'r mater yn gyflymach (gweler isod).

⁷³ *Ibid.*

⁷⁴ *Ibid.*

B. Gorddibyniaeth ar arbenigedd allanol mewn perthynas â data cydbwysedd dŵr

- 3.46 Dywedodd Dŵr Cymru nad oedd staff yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i arfer goruchwyliaeth briodol o'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau a'i allbynnau adrodd, a achosodd iddynt ddibynnu ar gyngor a barn gan gynghorwyr trydydd parti.⁷⁵
- 3.47 Penododd Dŵr Cymru'r Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, a oedd, ymhlith gweithgareddau eraill, i gynnal adolygiadau o'r cydbwysedd dŵr, ac archwiliad llawn o'r mecanwaith a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifo ac adrodd ar fewnbwn dosbarthu ar draws y cwmni.⁷⁶ Roedd yr orddibyniaeth ar y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau fel unigolyn unigol ar gyfer gwahanol agweddau ar ei waith cydbwysedd dŵr, ynghyd â gwrthdaro buddiannau cysylltiedig (manylir ymhellach isod), yn creu'r risg i'r cwmni o un pwynt o fethiant.
- 3.48 Mae'r dystiolaeth y mae Ofwat wedi'i gweld yn dangos bod rôl y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau yn aneglur, wedi'i chamddeall, a/neu wedi'i chamddehongli gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau a rhannau amrywiol o Dŵr Cymru (manylir ymhellach isod), gyda'r olaf yn golygu bod y cwmni'n ystyried bod penderfyniadau ynghylch cydbwysedd dŵr a data adrodd yn destun adolygiad a sicrwydd mwy manwl ac annibynnol nag oedd yn ymarferol. Mae Ofwat yn deall bod y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi deall nad ei rôl erioed oedd cyfarwyddo staff Dŵr Cymru, datblygu strategaeth, paratoi adroddiadau rheoleiddio neu ddadansoddi data, neu fod yn ddarparwr sicrwydd swyddogol y cwmni, ond yn hytrach i "wirio synnwyr" yr hyn yr oedd eraill wedi'i wneud yn seiliedig ar ei brofiad o ollyngiadau. Nododd yr Ymgynghorydd Allanol ar Ollyngiadau mewn gohebiaeth sydd wedi bod gyda Dŵr Cymru ers iddo nodi'r camadrodd mai ei brif gylch gwaith oedd y KPI gollyngiadau (sef yr Ymrwymiad Perfformiad) sy'n deillio o'r cydbwysedd dŵr, ac er bod PHC a PCC yn berthnasol i'r amcangyfrifon gollyngiadau o'r brig i'r bôn, nid ei rôl oedd cynnal archwiliad technegol manwl arnynt. Nododd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau ymhellach mai dim ond ar ôl iddo gael gwybod ym mis Ebrill 2022 am yr addasiad meddiannaeth y gofynnwyd iddo gynnal adolygiad o PHC.⁷⁷
- 3.49 Er mwyn dangos nad oedd gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau rôl mewn cyfarwyddo staff Dŵr Cymru, mewn perthynas â'i gyngor blaenorol i gadw'r ffigur gollyngiadau TMSR uwch yn gyfrinachol nes bod gwerth digon cadarn a allai wrthsefyll archwiliad, dywedodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau bod hyn 'hefyd yn farn rheolwyr Dŵr Cymru' ac yn 'benderfyniad gan reolwyr [Dŵr Cymru]

⁷⁵ Adroddiad Interim.

⁷⁶ *Ibid.*

⁷⁷ Fodd bynnag, mae dystiolaeth bod y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau yn ymwybodol o'r addasiad meddiannaeth. Gweler paragraff 3.39 uchod.

yr oeddwn yn ei gefnogi'. Nododd yr Ymgynghorydd Allanol ar Ollyngiadau farn gref nad oedd y ffigur TMSR yn ddigon cadarn i wrthsefyll archwiliad, bod y mater wedi bod yn hysbys ers tua thair blynedd cyn hynny, a *'pharhawyd i'w drafod ar bob lefel o fewn [Dŵr Cymru...] nes iddo ddod yn broblem i Jacobs ym mis Chwefror 2022.*'

- 3.50 Roedd Dŵr Cymru, fodd bynnag, yn dibynnu'n fawr ar ymglymiad y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau ac roedd o'r farn bod ei rôl yn ehangach ei chwmpas nag y dywedodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau oedd ei ddealltwriaeth ef parthed data adroddedig y cwmni. Mae Dŵr Cymru yn nodi bod y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi paratoi adolygiadau sicrwydd diwedd blwyddyn o adroddiadau, y cyfeirir atynt fel adroddiadau KPI ar ollyngiadau, ar gyfer Dŵr Cymru ar gyfer 2018-19, 2019-20 a 2020-21. Rhannodd Dŵr Cymru ddyfyniad o adroddiad KPI 2021-22 a baratowyd gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau i ddangos ei gwmpas. Roedd hwn yn nodi bod Dŵr Cymru wedi gofyn i'r Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau gynnal adolygiad o'i KPI Cydbwysedd Dŵr a Gollyngiadau 2021-22 er mwyn cefnogi cyflwyniad y cwmni o'i ddatganiad risg a chydymffurfiaeth blyneddol. Mae'r dyfyniad yn nodi bod gan yr adolygiad gyfres o nodau, gan gynnwys ymhlith eraill, *'sicrhau bod data, rhagdybiaethau a methodolegau yn rhesymol; i nodi unrhyw ansicrwydd a risgiau sylweddol; i wneud sylwadau ynghylch a yw'r KPI a adroddwyd yn adlewyrchiad cywir o berfformiad gwirioneddol I nodi unrhyw hepgoriadau o bwys.*⁷⁸ Dywedodd Dŵr Cymru fod dibyniaeth ei reolwyr ar yr adroddiadau hyn yn gyfystyr â sicrwydd annibynnol ffurfiol o ddata'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau.
- 3.51 Dywedodd Dŵr Cymru wrth Ofwat fod cyngor a ddarparwyd gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau yn *'annhebygol o fod wedi cael ei gwestiynu gan y derbynnnydd'* ac y byddai'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau wedi dibynnu ar gyngor a barn gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau a sicrwydd data gan Jacobs i fodloni eu hunain bod y cydbwysedd dŵr a'r data a adroddwyd o fewn y lefelau goddefiant a ganiateir.⁷⁹
- 3.52 Yng nghyd-destun gallu sefydliadol annigonol yn ymwneud ag adrodd ar ollyngiadau a'r orddibyniaeth o ganlyniad i hynny ar gyngor allanol, mae'n ymddangos bod staff Dŵr Cymru wedi mabwysiadu cyngor o'r fath heb her na chofnodi penderfyniadau priodol. Dywedodd Dŵr Cymru o ran y datganiad methodoleg a'r broses rheoli newid a ddefnyddiwyd ar gyfer ei adrodd ar gydbwysedd dŵr, bod ei reolwyr wedi cael cysur o'r adolygiad blyneddol o'r

⁷⁸ Ymateb dyddiedig 12 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁷⁹ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

cydbwysedd dŵr gan y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau a'r sicrwydd APR a gafodd gan gan aswirwyr allanol ar wahân.⁸⁰

C. Gwrthdaro buddiannau

- 3.53 Wrth i amser fynd rhagddo, arweiniodd dibyniaeth Dŵr Cymru ar y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau at y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau yn mynd y tu hwnt i ddim ond darparu sicrwydd trydydd parti o ffigurau a adroddwyd gan y cwmni, ond hefyd i gynnwys rhoi cyngor ar fewnbynau a ddefnyddiwyd i lywio'r adrodd hwnnw, ac ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud â darpariaeth weithredol y cwmni i leihau gollyngiadau a gweithgareddau eraill yn ymwneud â chydbwysedd dŵr.
- 3.54 Dywedodd Dŵr Cymru fod yr Ymgynghorydd Allanol ar Ollyngiadau mewn gwirionedd wedi helpu'r cwmni i ddatblygu ac asesu strategaeth, a oedd wedi'i ysgrifennu yn nhelerau ei benodiad o 2016 ymlaen, ac y gofynnwyd iddo fentora unigolion a ddyrchafwyd i rolau yn y Tîm Gollyngiadau. Er enghraifft, adolygwyd cynllun amlinellol uwch aelod o'r busnes dŵr ar gyfer lleihau mewnbyn dosbarthu ac roedd ganddo ran yn y dadansoddiad cost a budd o atebion, yn ogystal â gwthio am strategaeth ar wahân ar PCC. Hefyd, fel y nodir uchod, gwnaeth adolygu'n flynyddol gydbwysedd dŵr Dŵr Cymru a KPI gollyngiadau, yr ymdriniodd Dŵr Cymru ag ef yn ymarferol fel sicrwydd annibynnol o ddata'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau, a darparwyd cyngor ac arweiniad i'r tîm gollyngiadau ar fesurau rheoleiddio a sicrhau rheolaethau diwydrwydd dyladwy priodol.⁸¹
- 3.55 Arweiniodd yr orddibyniaeth barhaus ar y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau, a'r lefel gynyddol o ddylanwad a roddwyd iddo, at y risg o wrthdaro buddiannau. Mae Ofwat yn deall bod staff Dŵr Cymru wedi dweud bod *'contractwr i'w weld wedi ymwreiddio'n gadarn'* yng nghynlluniau AMP7, a'i fod yn poeni am *"ddilysrwydd cael contractwyr yn ymwneud â gwaith / gwneud penderfyniadau "yn ystod y flwyddyn" ac yna dod i mewn ar ddiwedd blwyddyn i archwilio ffigurau (APR, ac ati) fel adolygiad "annibynnol"*.⁸² Yn ei farn ef, roedd hyn hefyd yn cwmpasu rôl Jacobs ac roedd yn ymdebygu i wrthdaro buddiannau, gan nad oeddent yn credu y gallai contractwyr fod yn ddiuedd o safbwynt sicrwydd a llywodraethu o dan yr amgylchiadau hyn.⁸³ Roedd y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau ei hun wedi nodi y

⁸⁰ *Ibid.*

⁸¹ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁸² Mae Dŵr Cymru hefyd wedi cadarnhau nad oedd ei Dîm Caffael yn ymwybodol o gwmpas llawn ymglymiad y Cyngorydd Allanol ar Ollyngiadau yng ngweithgareddau'r cwmni yn ymwneud â chydbwysedd dŵr a gollyngiadau, na'i rôl mewn perthynas ag adroddiadau rheoleiddio diwedd blwyddyn.

⁸³ Darparodd Jacobs sicrwydd allanol i Dŵr Cymru drwy gyfrwng ymarfer sicrwydd data blynyddol yn cwmpasu holl adroddiadau perfformiad y cwmni, adrodd i Dîm Gweithredol, Pwyllgor

dylid cymryd gofal i sicrhau nad oedd rôl ar wahân Jacobs fel adolygwyr annibynnol y KPI gollyngiadau yn cael ei pheryglu.

D. Diwylliant o bwysau i fodloni targedau rheoleiddio

- 3.56 Mae Ofwat hefyd yn deall bod diwylliant mewnol yn Dŵr Cymru a greodd ymdeimlad o bwysau i sicrhau bod y cwmni'n cyrraedd ei dargedau rheoleiddio, a gyfrannodd yn ei dro at ddefnyddio a chynnal data anghywir yn ei gyfrifiadau cydbwysedd dŵr, gan arwain at y camadrodd. Gwaethygyd y diwylliant hwn gan strwythur trefniadol y cwmni, gyda'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn rhan o'r un tîm â chydweithwyr oedd yn gyfrifol am leihau gollyngiadau ar lawr gwlad.
- 3.57 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i Ofwat yn dangos bod ffocws trafodaethau a gweithredu'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn canolbwyntio'n fawr ar darged rheoleiddio'r cwmni ar gyfer gollyngiadau a pha newidiadau y gellid eu gwneud i gydrannau yn y cyfrifiad cydbwysedd dŵr er mwyn cynnal y bwch cydbwysedd dŵr o fewn 5%, ac i beidio â methu Ymrwymadau Perfformiad y cwmni.

Yn ôl adolygiad mewnol Dŵr Cymru ar ôl i'r camadrodd gael ei nodi, *'roedd y tîm adrodd ar ollyngiadau yn awyddus i sicrhau nad oeddent yn gwneud unrhyw beth [...] a fyddai'n cael yr effaith o gynyddu'r gollyngiadau a adroddwyd a/neu achosi i'r cwmni fethu ei dargedau gollyngiadau.'* Dywedodd Dŵr Cymru ei fod yn cydnabod y potensial *'i'r rheini sy'n gyfrifol am weithredu'r fethodoleg gollyngiadau cymhleth a choladu'r data adrodd deimlo pwysau ymhlyg i sicrhau bod y cwmni'n cyrraedd ei darged gollyngiadau, yn enwedig o ystyried bod [...] y tîm adrodd ar ollyngiadau yn rhan o'r Gwasanaethau Dŵr sy'n gyfrifol am gyflawni lleihad mewn gollyngiadau.'* Fel enghraifft o'r diwylliant tîm hwn, dywedodd un aelod o'r tîm eu bod dros y blynyddoedd yn dod yn nes ac yn nes at yr hyn y gallent ei wneud fel Tîm Strategaeth Gollyngiadau i helpu i basio targedau gollyngiadau, a dywedodd nifer o unigolion *'nad oedd y targed gollyngiadau byth yn methu.'*⁸⁴

- 3.58 Er nad yw Ofwat wedi gweld dystiolaeth o gyfarwyddyd rheoli penodol o fewn Dŵr Cymru i adrodd yn anghywir, ystyriodd adolygiad diwylliant annibynnol a gomisiynwyd gan Dŵr Cymru (yr **'Adolygiad Diwylliant'**) a oedd staff wedi bod dan bwysau ymhlyg i wneud hynny. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod mwyafrif y staff yn teimlo *'nad oeddent wedi cael eu rhoi dan bwysau naill ai'n benodol, nac yn ymhlyg, i gamu dros unrhyw linellau'* ac er eu bod yn cael eu cymell i gyrraedd

Archwilio a Bwrdd y cwmni ar y gwaith a wnaed a darparu datganiad sicrwydd ar gywirdeb y data a adroddwyd a chadernid y prosesau a ddilynwyd. Mae Jacobs hefyd wedi bod yn gysylltiedig yn flaenorol ag adolygu strategaeth gollyngiadau AMP7 Dŵr Cymru.

⁸⁴ Adroddiad Interim.

targedau, *'nid oedd hyn ar draul cywirdeb'*. Mae Ofwat yn deall bod Uwch Reolwyr wedi bod yn glir i staff *'na ddylai fod unrhyw or-gamu'r llinell'*.

3.59 Fodd bynnag, nododd yr Adolygiad Diwylliant, o ran cyfathrebu yn y sefydliad, bod negeseuon mewn perthynas ag adrodd ar ollyngiadau *'fel petaent wedi bod yn agored i gael eu camddehongli ac wedi arwain at y materion a nodwyd yn yr adolygiad sicrwydd ar gyfer y busnes.'* Canfu'r Adolygiad Diwylliant hefyd fod un aelod o staff yn teimlo bod *'cyfeiriad rheoli ymhlyg i barhau i ddefnyddio methodoleg nad oedd yn fesur cywir o berfformiad' a bod 'eraill hefyd yn rhan o beidio â herio hyn'*.⁸⁵ Dywedodd yr unigolyn hwn hefyd ei fod wedi tynnu sylw ei reolwyr at faterion a safbwyntiau amgen mewn perthynas ag adrodd, ond teimlai *'nad oedd neb yn gwrando, eisiau gwrando neu efallai eu bod yn meddwl y byddai'r broblem yn datrys ei hun'*.⁸⁶ Teimlai'r aelod o staff nad oedd ganddo'r dylanwad oedd gan Jacobs a WRc i wneud i'r busnes wrando, a'i fod *'ofn canlyniadau mynd uwch eu pennau'*. Dywedodd ei fod am nifer o flynyddoedd yn teimlo ei fod yn cael ei wthio i gornel yn ystod archwiliadau lle na allent roi rhesymeg wirioneddol dros fethodoleg Dŵr Cymru, *'tra'n ceisio peidio troi'r drol.'* Dywedodd yr unigolyn hwnnw fod hyn wedi achosi straen ac anghysur enbyd iddo, gan ei fod yn credu pe na bai'r cwmni'n pasio ei sicrwydd, y byddai wedi cael ei ddal yn gyfrifol ar sail ansawdd ei ymatebion.⁸⁷ Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Adolygiad Diwylliant, er bod ystod eang o adborth cadarnhaol am y profiad o weithio yn Dŵr Cymru a natur agored y gellid trafod materion o fewn y tîm, roedd nifer sylweddol o bobl a oedd yn credu bod *'pocedi o ddiwylliant bwrw bai' o fewn y cwmni (fel y cydnabu Dŵr Cymru, sydd wedi cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r mater hwn)*.⁸⁸

3.60 Ategir hyn gan ganfyddiadau adolygiad Dŵr Cymru ei hun o'r camadrodd, ac eithrio un unigolyn a'r materion a nodwyd gan Jacobs yn ei adolygiad diwedd blwyddyn yn 2021, nad oedd tystiolaeth o bryderon ynghylch adrodd neu gyfrifiadau'n ymwneud â gollyngiadau neu PCC yn cael eu codi gan gyflogai neu gontractwr, ac ni allai unrhyw un o'i uwch staff gofio unrhyw achosion o bryderon a godwyd gyda nhw ar y materion hyn.⁸⁹ Hefyd, er bod un unigolyn yn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau wedi mynegi pryderon wrth aelodau eraill y tîm,⁹⁰ roedd Dŵr Cymru o'r farn bod y negeseuon e-bost dan sylw yn *'hynod dechnegol a heb eglurder'*, ac nad oedd rheolwr llinell yr aelod o staff yn ymwybodol o'r pryderon ac nid oedd chwaith yn gwerthfawrogi arwyddocâd y materion a godwyd ynghylch cywirdeb adrodd.⁹¹ Er bod Dŵr Cymru yn derbyn y *'gallai'r e-byst fod wedi'u*

⁸⁵ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁸⁶ Gweler hefyd paragraff 3.28 uchod.

⁸⁷ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁸⁸ Adolygiad Diwylliant Gwasanaethau Dŵr. Adroddiad dyddiedig 11 Ebrill 2023.

⁸⁹ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

⁹⁰ Gweler paragraffau 3.21 i 3.24 uchod.

⁹¹ Adroddiad Terfynol.

bwriadu i godi pryderon, roedd cyfweiliadau â Rheolwyr *'yn nodi nad oeddent wedi eu dehongli felly.'* Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd Uwch Reolwyr o fewn busnes dŵr Dŵr Cymru yn ymwybodol o anghysondebau cynyddol yn y cyfrifiadau cydbwysedd dŵr, ac roedd aelodau'r tîm yn ymwybodol bod hyn yn wir. Mae hyn yn ategu ymhellach y materion a archwiliwyd yn Adran A uchod, gan ddangos bod y diffyg sgiliau mewnol yn golygu bod materion a godwyd yn cael eu hanwybyddu oherwydd nad oedd y tîm yn gallu deall perthnasedd ac arwyddocâd y pryderon a godwyd.

E. Diffyg asedau data priodol a fframwaith llywodraethu ar gyfer gwneud a chofnodi penderfyniadau data ar ei gydbwysedd dŵr

3.61 Yn gyson â'r dystiolaeth y mae Ofwat wedi'i gweld, mae Dŵr Cymru wedi cydnabod yn ei adroddiadau i Ofwat ar ei ymchwiliad mewnol i'r materion adrodd ar ollyngiadau a PCC, bod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau wedi bod yn ymwybodol o gyfyngiadau yn y ffynonellau data a ddefnyddiodd ar gyfer elfennau allweddol o'i gyfrifiadau cydbwysedd dŵr, o ganlyniad i reoli a/neu gynnal a chadw ei fesuryddion. Byddai'r cyfyngiadau hyn wedi tanseilio gallu Dŵr Cymru i gael ffigurau cywir ar gyfer ei adroddiadau. Cyn belled yn ôl â 2016, nododd adroddiadau mewnol yn Dŵr Cymru fod mesuryddion a data ar draws ei rwydwaith yn risg allweddol o ran deall a rheoli ei ollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi, o ganlyniad i asedau hen, anghywir, asedau wedi'u lleoli'n wael nad ydynt yn mesur yr holl ddefnydd, neu arferion gweithredu gwael. Yn 2016, nododd y cwmni hefyd fod ganddo ddiffyg gwybodaeth cyffredinol o fewn y cwmni am weithrediad y prif brif bibell gyflenwi, ac ym mis Ionawr 2017, oherwydd diffyg mesuryddion, ni allai fonitro'n effeithiol nifer sylweddol o ollyngiadau anodd eu trwsio ar ei rwydwaith prif gyflenwad. Mewn ymateb, sefydlodd Dŵr Cymru raglen o ddatblygu a monitro mesuryddion swmp yn AMP7 (ar gyfer y cyfnod 2020–25). Mae Dŵr Cymru wedi dweud bod y pandemig COVID-19 wedi gohirio'r rhaglen hon yn sylweddol.⁹²

3.62 Dywedodd Dŵr Cymru fod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau ac uwch aelodau staff yn ymwybodol o'r defnydd o BABE Sefydlog ar gyfer adrodd ar ollyngiadau TMSR ac argaeledd cydbwysedd llif deinamig sy'n cyfeirio at ollyngiadau uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi o bosibl. Cydnabu Dŵr Cymru y dylai'r cydbwysedd llif hyn fod wedi bod yn destun gwaith pellach i ddilysu'r ffigurau, fel yr argymhellwyd gan yr Ymgynghorydd Allanol ar Ollyngiadau.⁹³ Roedd gwaith ychwanegol o'r fath i gynnwys gosod mesuryddion mewnbyn dosbarthu neu dynnu newydd, neu eu newid, i gefnogi cywirdeb adrodd rheoleiddiol a thargeddu gollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi Cynlluniwyd hyn yn wreiddiol i ddigwydd o gwmpas PR19 ond bu oedi gyda'r gwaith yn dilyn ymadawiad aelod allweddol o'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau a dyfodiad y pandemig COVID-19, wrth i Dŵr Cymru roi'r gorau i

⁹² Gweler paragraff 3.42 uchod.

⁹³ Gweler paragraff 3.27 uchod.

weithgarwch ymwithiol nad oedd yn hanfodol a allai fygwth cyflenwad dŵr, ac yn y pen draw yn cael ei ohirio tan 2022-23.

Yn ogystal â materion yn ymwneud â data ffynhonnell berthnasol, mae Dŵr Cymru yn cydnabod nad oedd ganddo fframwaith llywodraethu priodol ar waith i sicrhau bod y data a ddefnyddiwyd ganddo wrth adrodd yn gywir, ‘a ddangoswyd gan ddogfennu annigonol o brosesau a phenderfyniadau gan y tîm adrodd ar ollyngiadau, llywodraethu gwael o ran ei fodel adrodd ar ollyngiadau a phwyntiau methiant unigol’.⁹⁴ Canfu'r Adolygiad Diwylliant fod dau aelod o'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau wedi codi pryderon nad oedd mecanweithiau effeithiol ar gyfer cofnodi materion a phenderfyniadau o ddydd i ddydd a bod hyn wedi golygu nad oeddent yn gallu tracio a dangos sut y gwnaed rhai penderfyniadau rheoli allweddol.⁹⁵

3.63 Amlygwyd pryderon tebyg ym mis Ionawr 2020 mewn adroddiad mewnol gan Dîm Rheoleiddio Dŵr Cymru i gyfarwyddwyr y cwmni ynghylch yr adroddiadau APR a oedd ar ddod ar gyfer 2019-20. Roedd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau Jacobs o'i archwiliad o APR y flwyddyn flaenorol (2018-19) gan nodi eu sylw cyffredinol bod ‘y mwyafrif helaeth o’ch timau’n gallu disgrifio eu prosesau gwirio’n fanwl, ond rydym yn argymhell bod timau’n datblygu’n prosesau gwirio archwiliadwy, e.e. taflenni rheoli sy’n nodi enwau, dyddiadau, materion a ganfuwyd a datrysiadau fel rhan o’ch gwelliannau parhaus’. Roedd yr adroddiad yn nodi, mewn ymateb i'r sylw hwn, y byddai hyfforddiant i staff ar y dystiolaeth y mae angen i berchnogion data allu ei darparu ynghylch y gwiriadau a'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer eu data, gan gynnwys tystiolaeth o adolygiad o'r data gan berson annibynnol megis cydweithiwr neu reolwr.

3.64 Roedd adroddiad i Bwyllgor Archwilio Dŵr Cymru ar effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ar gyfer 2019-20 yn nodi cyfres o feysydd a amlygwyd ar draws busnes Dŵr Cymru lle'r oedd potensial i wella systemau presennol, gan gynnwys methodolegau ysgrifenedig i gefnogi adroddiadau APR wedi'u hadolygu gan ‘berchnogion tablau’ o fewn y busnes a Jacobs, a gweithredu ar adborth.

3.65 Er gwaethaf y gwaith uchod, yn 2022 nododd Jacobs nifer o faterion o bwys wrth olrhain data yn ôl i'r ffynhonnell mewn perthynas â'r cydbwysedd dŵr, gollyngiadau a PCC. Mewn perthynas â PCC, ar ôl nodi'r camadrodd, dywedodd Dŵr Cymru, ar ôl adolygu dogfennau mewnol, nad oedd wedi canfod cyfeiriadau at benderfyniad i ddefnyddio'r addasiad meddiannaeth.⁹⁶

⁹⁴ Adroddiad Interim.

⁹⁵ Adolygiad Diwylliant Gwasanaethau Dŵr. Adroddiad dyddiedig 11 Ebrill 2023.

⁹⁶ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

F. Rheolaeth wael o sicrwydd risg o ran adrodd data APR ar ollyngiadau a PCC

- 3.66 Mae Dŵr Cymru wedi dweud wrth Ofwat bod ei fusnes yn defnyddio model '**Tair Llinell o Amddiffyniad**' i ddarparu llywodraethu a sicrwydd priodol ynglŷn â'i benderfyniadau. Mae hwn yn fframwaith a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer rheoli risgiau o fewn sefydliadau, darparu gwiriadau a chydbwysedd o ran gwneud penderfyniadau gan dimau gweithredol ('**llinell gyntaf**'), drwy gymorth a her gan dîm rheoli cydymffurfiaeth ('**ail linell**'), a sicrwydd annibynnol drwy archwiliad mewnol a/neu sicrwydd trydydd parti ('**trydedd llinell**').
- 3.67 Mae Dŵr Cymru wedi datgan bod ei fodel Tair Llinell o Amddiffyniad yn gweithredu'n effeithiol yn y pen draw i sicrhau llywodraethu a sicrwydd priodol o ran ei adroddiadau perfformiad.⁹⁷ Mae hyn oherwydd bod Adolygiad Jacobs (hynny yw, rhan o'i drydedd linell) wedi nodi pryderon ynglŷn ag adrodd ar ollyngiadau a PCC gan y cwmni, gan annog Dŵr Cymru i nodi ei fod wedi camadrodd.
- 3.68 Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos nad oedd y model hwn yn gweithredu'n effeithiol mewn blynyddoedd blaenorol, gan olygu nad oedd manylion adroddiadau gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru yn destun adolygiad a chraffu digonol, a bod timau gweithredol, uwch reolwyr, Pwyllgor Archwilio a Bwrdd y cwmni yn ystyried bod y ffigurau a adroddwyd yn fwy sicr nag oeddent mewn gwirionedd.
- 3.69 Er enghraifft, fel y nodir yn yr adrannau uchod, roedd amrywiaeth o faterion yn ymwneud â rheolaethau mewnol y tîm llinell gyntaf ac nid oedd digon o ganllawiau ysgrifenedig, hyfforddiant, gwiriadau ac adolygiadau gan reolwyr, a chofnodi penderfyniadau ac olrhain ffynonellau data. Roedd y tîm llinell gyntaf, gan gynnwys ei reolwyr, yn gwybod nad oedd y data a adroddwyd yn gywir, hyd yn oed cyn ei gyflwyno ar gyfer adolygiadau ail a thrydedd llinell. Fel yr amlygwyd yn Adran C uchod, roedd ei sefyllfa strwythurol a'i linell adrodd yn y sefydliad hefyd yn peri risgiau, gyda'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn rhan o'r isadrannau Gwasanaethau Dŵr, a oedd yn gyfrifol am gyflawni lleihad mewn gollyngiadau. Bwriad yr ail linell oedd darparu craffu annibynnol a chefnogaeth i dimau arbenigol ar adrodd, ond fel yr amlinellwyd yn Adrannau B ac C uchod, tanseiliwyd y nod hwn trwy gael ei gynghori a'i arwain gan y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau a oedd hefyd yn ymwneud â datblygiad y llinell gyntaf o'r data; cymerodd hefyd fwy o gysur nag y dylai yn rôl y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau mewn adolygu'r data hwnnw.
- 3.70 Fel rhan o archwiliad mewnol Dŵr Cymru i'r hyn a achosodd y materion o ran adrodd, yn 2022 cynhaliodd y Prif Swyddog Risg archwiliadau mewnol. Canfu'r

⁹⁷ Adroddiad Terfynol.

rhain, er bod gan y Tîm Gollyngiadau gryn dipyn o arbenigedd mewn rheolaethau yn ymwneud â dilysu data, nid oedd ganddo *'fframwaith llawn o oruchwylio a llywodraethu gyda chyfrifoldebau clir wedi'u hamlinellu i sicrhau bod tybiaethau model allweddol, dyfarniadau allweddol a meysydd o ansicrwydd yn cael eu craffu a'u cymeradwyo mewn digon o ddyfnder gan uwch reolwyr oedd wedi'u gwahanu oddi wrth gynhyrchu'r data.'* Mewn cyferbyniad, roedd gan y Tîm Data ac Adrodd Rheoleiddiol fframwaith mwy cadarn, *'wedi'i gefnogi gan ddefnydd dull gweithredu cymesur a thryloyw sy'n seiliedig ar risg'* ac a nodweddwyd gan ymglymiad agosach gan y Weithrediaeth a'r Bwrdd, er bod asesiadau risg uwch y tîm hwnnw'n dibynnu'n bennaf ar sicrwydd trydydd parti.⁹⁸

- 3.71 Roedd gwrthdaro buddiannau hefyd wedi niweidio'r drydedd linell o amddiffyniad, gan yr effeithiwyd ar annibyniaeth archwiliadau mewnol, allanol a thechnegol. Er enghraifft, cynhaliodd y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau adolygiad cydbwysedd dŵr, a gafodd ei drin gan y rheolwyr fel pe bai'n sicrwydd trydedd llinell annibynnol ffurfiol, er bod yr unigolyn yn cyfrannu at weithgareddau yn y 'llinell gyntaf' ac yn darparu cyngor ac arweiniad i'r 'ail linell' yn ymwneud â mesurau adrodd rheoleiddiol.⁹⁹ Mae hyn yn amlwg yn y ffaith, yn groes i argymhelliad Jacobs yn gynharach y flwyddyn honno, ym mis Tachwedd 2021, nad oedd y Tîm Rheoleiddio wedi cynnwys adroddiadau ar ollyngiadau a PCC i ddechrau ar gyfer adolygiad cynnar o'r broses, gan fod y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi'i gyflogi gan y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau ar gyfer *'adolygiad annibynnol gan gymheiriaid'*.¹⁰⁰ Yn dilyn hynny, fodd bynnag, cynigiodd Pennaeth Data ac Adrodd Rheoleiddiol Dŵr Cymru, gan fod y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi bod yn darparu adolygiad cymheiriaid ers nifer o flynyddoedd, fod hyn yn cyfiawnhau Jacobs yn ychwanegu'r Ymrwymadau Perfformiad gollyngiadau a PCC at ei adolygiadau proses ar gyfer APR 2021-22. Yn yr un modd, ym mis Ionawr 2020 penderfynodd Dŵr Cymru beidio â chael Jacobs i gynnal archwiliad diwedd blwyddyn o ddata perfformiad PR19 gan fod Jacobs eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith sicrwydd cynnar yn 2019. Fodd bynnag, roedd hyn yn cyd-daro hefyd â Dŵr Cymru yn gofyn i'r Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, yn nhymor yr hydref 2019, i gynnal adolygiad hanner blwyddyn o'r cydbwysedd dŵr.
- 3.72 Mae'n ymddangos felly bod Tair Llinell o Amddiffyniad Dŵr Cymru wedi'u seilio ar y lefel anghywir o sicrwydd. Nid oedd archwilwyr allanol chwaith yn adolygu'r prosesau a ddefnyddiwyd i asesu cydymffurfiaeth yn uniongyrchol â pherchnogion data neu staff enwebedig,¹⁰¹ ac nid oedd datganiadau dull ar gyfer gollyngiadau ar gael i'w hadolygu ar adeg yr archwiliad. Arweiniodd yr uchod i gyd at hyder ffug yn

⁹⁸ *Ibid.*

⁹⁹ Gweler paragraff 3.58 uchod.

¹⁰⁰ Ymateb dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 i Hysbysiad Adran 203.

¹⁰¹ Er eu bod wedi archwilio nifer o'r prosesau a'r rheolaethau perthnasol yn uniongyrchol.

lefel y diwydrwydd a gymhwyswyd i'r broses adrodd a risg a danamcangyfrifwyd yn ddirifol o gamadrodd rheoleiddiol.¹⁰²

Camau y mae Dŵr Cymru wedi'u cymryd ar ôl nodi'r camadrodd

Mynd i'r afael â meysydd o gamadrodd

3.73 Mae Dŵr Cymru bellach wedi mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â sut y mae'n cyfrifo rhai cydrannau yn ei gyfrifiad cydbwysedd dŵr, a oedd wedi cyfrannu at ei gamadrodd.¹⁰³ Mae Dŵr Cymru yn datgan bod y ffigur y mae'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer ei ollyngiadau TMSR wedi'i gyfrifo yn unol â'r canllawiau arfer gorau cyfredol a bod cyfrifiad cydbwysedd dŵr y cwmni yn gyffredinol, i gefnogi hynny, wedi'i wneud gan gydnabod ymhle mae ganddo ddata ansicr, fel nad yw'n cynnwys defnydd anfesuredig lle nad oes gan y cwmni ar hyn o bryd sail ddibynadwy ar gyfer amcangyfrif hyn. Mae'r cwmni hefyd wedi adolygu a diweddarau ei broses ddilysu DMA i sicrhau bod dilysiadau cywir yn cael eu cynnal o fewn ei system adrodd ar ollyngiadau.

3.74 O ran PCC, mae Dŵr Cymru bellach wedi tynnu'r addasiad meddiannaeth o'i gyfrifiad ac wedi sicrhau cysondeb o ran data poblogaeth ac eiddo rhwng ei gyfrifiadau o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i'r bôn yn y cydbwysedd dŵr.

Mynd i'r afael â methiannau llywodraethu

3.75 Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau ei fod wedi gweithredu'r argymhellion o'r Adolygiad Diwylliant annibynnol ac wedi cynnal rhaglenni gwella ychwanegol i atgyfnerthu diwylliant cadarnhaol o fewn Dŵr Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- adolygiad o strwythurau a rolau tîm, gan arwain at newid llinellau a strwythurau adrodd, ac amcanion clir wedi'u sefydlu o fewn ei fframwaith rheoli perfformiad, gyda phwyslais ar ddisgwyliadau o ran gweithredu ac ymddygiad, ac, ar gyfer staff sy'n ymwneud ag adrodd yn APR, y gofyniad i adrodd yn gywir.
- Mewn perthynas â hyfforddiant, mae Dŵr Cymru wedi adolygu a diwygio'r pecyn dysgu ar gyfer staff sy'n ymwneud ag adrodd, sy'n cynnwys amlygu

¹⁰² Er enghraifft, yn 2020, daeth Gweithrediaeth Dŵr Cymru i'r casgliad bod systemau rheolaeth fewnol y cwmni wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn. Yna mor hwyr â 2022, asesodd Dŵr Cymru y risg o 'gamadrodd neu ddata anghywir yn arwain at gamau rheoleiddio anffafriol neu ddirwy' fel 'GWYRDD'.

¹⁰³ Gweler paragraffau 3.6 i 3.12 a 3.31 uchod.

ffyrdd iddynt adrodd am bryderon,¹⁰⁴ a neges glir na ddylai staff deimlo pwysau i adrodd canlyniad penodol. Mae hefyd wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi newydd ac asesiad sy'n orfodol ar gyfer pob uwch reolwr ac roedd wedi cyflwyno 57 o sesiynau hyfforddi 'Arweinyddiaeth Deg a Chyfiawn' erbyn diwedd 2023.

- 3.76 Mae Dŵr Cymru hefyd wedi rhoi amlinelliad manwl i Ofwat o'r camau gweithredu amrywiol y mae wedi cytuno i'w cymryd o ganlyniad i'w ymchwiliad ei hun i faterion sy'n ymwneud â materion adrodd a llywodraethu gollyngiadau a PCC, yn ogystal ag adroddiad WRc. Cwblhaodd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu hyn mewn pryd ar gyfer ei adroddiad APR 2022-23 a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2023, fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.82 i 3.90 isod.
- 3.77 Ers mis Ionawr 2023 mae gan Dŵr Cymru fframwaith asesu risg wedi'i ddiweddarau ar waith ar gyfer adrodd ar ei Ymrwymadau Perfformiad, gyda'r meysydd risg uchaf yn ddarostyngedig i sicrwydd a thracio ychwanegol. Er bod y dull hwn wedi bod ar waith yn flaenorol, mae Dŵr Cymru bellach wedi'i fireinio a'i ddogfennu, ac wedi cyflwyno matrices risg ar gyfer y Tîm Rheoleiddio ac Adrodd. Mae hefyd wedi adolygu a dogfennu rolau Jacobs, aelodau o'r timau Gweithredol ac Arwain, ac unrhyw staff perthnasol eraill sy'n ymwneud â rhoi sicrwydd ynghylch cadernid matricesau risg unigol.
- 3.78 Mewn perthynas â'r gwrthdaro buddiannau yr oedd wedi'i nodi gyda rôl yr Ymgynghorydd Allanol ar Ollyngiadau, dywedodd Dŵr Cymru fod y berthynas gytundebol â'r contractwr bellach wedi dod i ben, gan nodi bod yr orddibyniaeth ar waith y Cynghorydd Allanol ar Ollyngiadau wedi cyfrannu at y diffyg goruchwyliaeth effeithiol o fewn y tîm.¹⁰⁵
- 3.79 Mewn perthynas â chofnodi penderfyniadau ac olrhain ffynonellau data, mae wedi creu log newid, penderfyniadau a materion manwl, sy'n cwmpasu data a datblygiadau dull sy'n destun sicrwydd, ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i dracio cydrannau o'r dechrau i'r diwedd. Rhaid i unrhyw newid mewn dull gael ei adolygu gan y tîm Gweithredol a bydd datganiadau dull ar gael i'w harchwilio.¹⁰⁶ Byddai'r datganiadau hyn hefyd yn cynnwys cadarnhad a oes unrhyw ddata wedi'i gynhyrchu neu ei wirio gan unigolion y tu allan i Dŵr Cymru ac, os felly, gan bwy. Gan fod Dŵr Cymru wedi nodi gwrthdaro buddiannau fel mater sydd wedi effeithio ar gywirdeb ei adrodd yn flaenorol, mae wedi penodi Rheolwr Cydymffurfiaeth Gollyngiadau i gydlynu prosiectau gollyngiadau, gan gynnwys rhai a arweinir gan

¹⁰⁴ Gan gynnwys trwy ddarpariaeth chwythu'r chwiban annibynnol.

¹⁰⁵ Adroddiad Interim.

¹⁰⁶ Gweler paragraff 3.77 uchod.

ymgyngorwyr allanol, i sicrhau nad ydynt yn cael eu cwblhau ar wahân a heb ystyried y cyd-destun ehangach.

- 3.80 O ran cyfrifiadau cydbwysedd dŵr, mae Dŵr Cymru bellach wedi creu llawlyfr defnyddiwr manwl a rhestr wirio cydymffurfiaeth yn dogfennu'r gwiriadau a'r rheolaethau ar gyfer agweddau allweddol ar y cyfrifo, yn unol â strategaeth cydbwysedd dŵr newydd sy'n manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau cynghorwyr a swyddogion sicrwydd. Mae hefyd wedi symleiddio ei broses cydbwysedd dŵr i wella tryloywder a rhwyddineb monitro, yn gyson ag argymhellion adolygiad WRc, ac mae ganddo raglen barhaus i wirio a newid mesuryddion er mwyn gwella hyder mewn rhai meysydd o'r cydbwysedd dŵr yr effeithir arnynt gan asedau sy'n hen, sy'n rhoi canlyniadau anghywir neu sydd ddim yn cael eu darllen.¹⁰⁷ Mae hyn er mwyn cefnogi strategaeth mesuryddion mwy cyfannol y cwmni.
- 3.81 Er mwyn gwella cywirdeb, mae Dŵr Cymru hefyd wedi ymrwymo i gynnal proses adrodd cydbwysedd dŵr chwarterol gyda Jacobs ac mae wedi gwella gwiriadau mewnol a chydbwysedd ar gyfer gwahanol gydrannau cydbwysedd dŵr, gyda'r bwriad o gasglu a chyflwyno data gwell, gan gynnwys mewn perthynas â mân gydrannau. I gynorthwyo staff, mae wedi darparu canllawiau ysgrifenedig ar yr hyn sy'n ddisgwylidig ar gyfer y broses gymeradwyo derfynol ar gyfer data a adroddir. Yn fwy eang, mae Dŵr Cymru wedi cynllunio prosiectau ar gyfer PR24 i archwilio sut y gallai wella ansicrwydd ynglŷn â'i gyfrifiad cydbwysedd dŵr yn y tymor hwy yng nghyd-destun adrodd a rheoli'r galw. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith i ddatblygu fframwaith o raglen wella glir wedi'i rheoli.

Rhaglen adfer gollyngiadau

Nod Dŵr Cymru yw lleihau gollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi ar ei rwydwaith yn ystod gweddill AMP7 gan tua 30 MI/d, a gollyngiadau pellach ar draws ei rwydwaith dosbarthu gan 31 MI/d ychwanegol. I gefnogi hyn, mae wedi cynyddu ei ymrwymiad i wario cyfanswm o £151 miliwn ar fynd i'r afael â gollyngiadau yn ystod 2023–24 a 2024–25, sy'n gynydd o £54 miliwn y tu hwnt i'r hyn yr oedd wedi rhagweld ei wario o dan ei lwfans costau penderfyniad terfynol PR19.¹⁰⁸ Eglurodd Dŵr Cymru y byddai'r buddsoddiad hwn, yn ymarferol, yn golygu rhaglen flaengar i wella ei seilwaith mesuryddion gyda'r bwriad o fynd i'r afael â materion sy'n codi o iechyd gwael asedau mesuryddion, a chynnal ymyriadau ar y safle i ganfod gollyngiadau, gan ddefnyddio technoleg canfod 'mewn pibell'.¹⁰⁹ Ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd Dŵr Cymru

¹⁰⁷ Gweler paragraff 3.65 uchod. Mae hyn yn cwmpasu monitorau ar bob lefel, e.e. DI, DMA a monitorau cartrefi.

¹⁰⁸ Mae'r gwerthoedd ariannol hyn yn brisiau alldro disgwylidig y mae Dŵr Cymru yn eu disgwyl ar ddiwedd 2024–25.

¹⁰⁹ Adroddiad Terfynol.

wrth Ofwat ei fod yn parhau i fod ar darged gyda'i wariant rhagamcanol o £79.6 miliwn ar gyfer 2023-24.

Buddsoddi mewn lleihau PCC

3.82 Mae Dŵr Cymru hefyd wedi ymrwymo i ariannu £5 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad yn 2024–25 i leihau lefelau PCC, gan gynnwys drwy ehangu ei archwiliadau effeithlonrwydd dŵr cartrefi a'i raglen gymunedol bresennol gyda'r nod o hyrwyddo arfer gorau ac ymgysylltu â chwsmeriaid. Mae Dŵr Cymru wedi egluro bod y buddsoddiad hwn hefyd wedi'i fwriadu i gynnwys datblygiad ardal beilot gyda mesuryddion clyfar llawn, nifer o ymgyrchoedd effeithlonrwydd dŵr ac ymddygiad cwsmeriaid, yn ogystal â dosbarthu a gosod casgenni dŵr am ddim.¹¹⁰

Gwneud iawn i gwsmeriaid

3.83 Ym mis Mawrth 2023, amlinellodd Dŵr Cymru wrth Ofwat ei ddull arfaethedig o ddarparu iawndal i gwsmeriaid yng ngoleuni ei fethiannau. Roedd yn cynnig dychwelyd £15 miliwn i gwsmeriaid a symudodd ymlaen ar unwaith i gyhoeddi a gweithredu hynny'n gyhoeddus drwy ei filiau 2023–24, drwy ad-daliad o £10 ar fil pob cartref.¹¹¹ Mae gwerth yr ad-daliad hwn yn seiliedig ar gyfrifiad damcaniaethol y mae Dŵr Cymru wedi'i wneud o amcangyfrif beth fyddai'r taliadau tanberfformiad ODI wedi bod am ei Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau pe bai wedi cymhwyso ei berfformiad ailddatganedig yn erbyn ei dargedau blaenorol (hynny yw, cyn iddynt gael eu hailddatgan) a heb ddefnyddio'r goler ODI. Mae Dŵr Cymru o'r farn bod y dull hwn yn darparu procsi addas ar gyfer y gwerth y mae cwsmeriaid yn ei roi ar symiau gollyngiadau. Mae'r swm hwn yn ychwanegol at £5.3 miliwn o daliadau tanberfformiad ODI y bydd yn gorfod ei dalu'n awtomatig ar gyfer tanberfformiad gollyngiadau ar sail ei ffigurau wedi'u hailddatgan ar gyfer 2020–21 a 2021–22,¹¹² a dychweliad y taliad gorberfformiad gwerth £0.2 miliwn yr oedd y cwmni eisoes wedi elwa ohono o 2020–21. Yn ogystal, byddai Dŵr Cymru yn gorfod talu taliadau tanberfformio ODI o £2.5 miliwn ar gyfer PCC ar sail ei ffigurau ailddatganedig ar gyfer 2020–21 a 2021–22.¹¹³

Ymrwymodd Dŵr Cymru hefyd i beidio â cheisio adennill gan gwsmeriaid unrhyw gyfraniad tuag at y gwariant ychwanegol y mae wedi mynd iddo yn 2020–21 a 2021–22 er mwyn mynd i'r afael â lefelau gollyngiadau uchel. Ar sail buddsoddiad ychwanegol o

¹¹⁰ Ymgymeriadau Drafft. Gweler hefyd paragraff 5.52 isod.

¹¹¹ Mae hyn yn cyfateb i £10 ar gyfer pob cyfrif, ac mae'r cwmni wedi dechrau gweithredu'r taliadau hyn. Gweler [Cwsmeriaid Dŵr Cymru i dderbyn ad-daliad o £10 | Dŵr Cymru \(dwrcymru.com\)](https://www.dwrcymru.com).

¹¹² Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy adio'r taliadau tanberfformiad ailddatganedig ar gyfer gollyngiadau ar gyfer 2020–21 (£1.982 miliwn) a 2021–22 (£3.360 miliwn). Gan adlewyrchu Penderfyniad Terfynol PR19, mae'r ffigurau hyn ym mhrisiau 2017–18 – ym mhrisiau 2022–23 mae hyn yn cyfateb i £6.3 miliwn.

¹¹³ Mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm y taliadau tanberfformiad ailddatganedig ar gyfer PCC ar gyfer 2020–21 (£0.972 miliwn) a 2021–22 (£1.485 miliwn). Gan adlewyrchu Penderfyniad Terfynol PR19, mae'r ffigurau hyn ym mhrisiau 2017–18 – ym mhrisiau 2022–23 mae hyn yn cyfateb i £2.9 miliwn.

£32 miliwn in those two years,¹¹⁴ yn y ddwy flynedd hynny, o dan fecanwaith rhannu costau PR19, byddai cwsmeriaid fel arall wedi talu'r gost o £14 miliwn.¹¹⁵ Hefyd, mae Dŵr Cymru wedi cyhoeddi ei fod wedi dyrannu £54 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â gollyngiadau yn 2023-24 a 2024-25.¹¹⁶

¹¹⁴ Mae £32 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol ym mhrisiau 2021-22, yn cyfateb i £34.8 miliwn ym mhrisiau 2022-23.

¹¹⁵ Mae £14 miliwn prisiau 2021-22 yn cyfateb i £15 miliwn ym mhrisiau 2022-23.

¹¹⁶ [Cwsmeriaid Dŵr Cymru i dderbyn ad-daliad o £10 | Dŵr Cymru \(dwrcymru.com\)](https://www.dwrcymru.com).

4. Canfyddiadau

4.1 Yn yr adran hon, fel sy'n ofynnol gan adran 22A(4) WIA91, mae Ofwat yn nodi'r gweithredoedd neu anweithredoedd sydd, yn ei farn ef, yn gyfystyr â thorri amodau Trwydded Dŵr Cymru. Yn dilyn ei adolygiad o'r dystiolaeth a amlinellir yn Adran 3 uchod, mae Ofwat yn canfod bod Dŵr Cymru wedi torri Amodau B, F ac M o Drwydded Dŵr Cymru o ganlyniad i gamadrodd gwybodaeth a ddarparwyd i Ofwat o dan y gwahanol amodau Trwydded hyn; ac wedi torri Amod P o'i Drwydded mewn perthynas â chael adnoddau a chyfleusterau ariannol; adnoddau rheoli; a systemau cynllunio a rheolaeth fewnol digonol i'w alluogi i gyflawni ei weithgareddau a reoleiddir, yn yr achos hwn mewn perthynas ag adrodd rheoleiddiol.

Amodau B, F ac M Trwydded Dŵr Cymru

4.2 Fel y nodir yn Adran 2, mae cwmnïau dŵr yn rhoi cyfres o wybodaeth a data i Ofwat i alluogi Ofwat i bennu a monitro rheolaethau prisiau cwmnïau. Mae gallu Ofwat i ofyn am y wybodaeth hon wedi'i gynnwys mewn sawl darpariaeth o fewn Trwydded cwmni.

4.3 Mae paragraff 9.2 Amod B (Ffioedd) yn darparu y bydd Dŵr Cymru *'yn rhoi i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr y cyfryw Wybodaeth ag y bydd yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn rhesymol yn gofyn amdani i'w alluogi i gynnal Adolygiad Cyfnodol yn unol ag is-baragraff 9.3 neu is-baragraff 9.4.'*

4.4 Mae paragraff 1 Amod M (Darparu Gwybodaeth i Ofwat) yn ei gwneud yn ofynnol i Dŵr Cymru *'ddarparu i Ofwat unrhyw Wybodaeth y gallai fod ei hangen yn rhesymol ar Ofwat er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad.'*

Mae paragraff 6 Amod F (Datganiadau cyfrifyddu rheoleiddiol) yn ei gwneud yn ofynnol i Dŵr Cymru *'baratoi set o ddatganiadau cyfrifyddu rheoleiddiol, [yn flynyddol], sy'n unol â'r Canllawiau Cyfrifo Rheoleiddiol; a chydymffurfio â'r holl ofynion eraill a nodir yn y Canllawiau Cyfrifo Rheoleiddiol (RAGs).'*¹¹⁷ Mae'r RAGs yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gyflwyno eu APR¹¹⁸ ac, ers 2021, mae'n rhaid i Fyrddau cwmnïau hefyd gynnwys datganiad ar ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno.¹¹⁹

¹¹⁷ Mae paragraff 1 o Amod F yn gwneud darpariaeth i Ofwat gyhoeddi'r Grwpiau Cyfeirio hyn.

¹¹⁸ Gweler [RAG 3.13](#).

¹¹⁹ Gweler [RAG 3.12](#) a [RAG 3.13](#), paragraffau 4.41 i 4.44. Mae hyn yn cynnwys cywirdeb a chyflawnrwydd data a gwybodaeth, gan gynnwys rhesymau dros unrhyw eithriadau.

4.5 Gyda'i gilydd mae'r darpariaethau hyn yn cwmpasu'r wybodaeth a'r data yr oedd yn ofynnol i Dŵr Cymru eu darparu i Ofwat yn ei gynlluniau busnes a gwybodaeth ategol ar gyfer PR19 i alluogi Ofwat i osod gwaelodlin ac Ymrwymadau Perfformiad Dŵr Cymru ar gyfer y cyfnod 2020-25; y data a ddarparwyd ganddo ar gyfer cyflwyniadau 'cysoni blwyddyn ddall';¹²⁰ ac ar gyfer ei APR blynyddol ar gyfer AMP6 ac AMP7.

4.6 Mae Ofwat yn canfod bod Dŵr Cymru wedi torri amodau:

- paragraff 9.2 Amod B;
- paragraff 6 Amod F; a
- paragraff 1 Amod M;

ei Drwydded trwy gamadrodd gwybodaeth i Ofwat am ei Ymrwymadau Perfformiad gollyngiadau a PCC.

4.7 Yn benodol, mae Ofwat yn canfod bod Dŵr Cymru wedi camadrodd:

- ei berfformiad gollyngiadau a PCC yn ei APR 2020-21 a 2021-22;
- ei waelodlin wreiddiol y seiliwyd targedau Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau a PCC arni ar gyfer AMP7; a
- gwybodaeth a ddarparwyd ganddo am ei Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau ym mlynnyddoedd olaf cyfnod AMP6.

4.8 Er bod y camadrodd yn cael ei ddal gan y tri amod ar wahân yn Nhrwydded Dŵr Cymru a nodir uchod, at ddibenion yr Hysbysiad hwn, ac unrhyw gosb arfaethedig, mae Ofwat yn bwriadu trin y camadrodd o dan y tair rhwymedigaeth ar wahân fel un toriad cyfunol. Mae hyn oherwydd ei fod o'r farn bod Dŵr Cymru wedi camadrodd yr un wybodaeth mewn perthynas ag amodau perthnasol y drwydded (hynny yw, mae'n un o swyddogaethau'r Drwydded bod angen y wybodaeth

¹²⁰ Cyfeirir at flwyddyn olaf pob AMP fel y 'flwyddyn ddall'. Gan fod penderfyniadau terfynol Ofwat yn ei broses adolygu prisiau yn cael eu cyhoeddi cyn dechrau'r AMP y maent yn berthnasol iddo (er enghraifft, cyhoeddwyd y penderfyniadau PR19 terfynol ym mis Rhagfyr 2019 ond daethant i rym o 1 Ebrill 2020), cânt eu gwneud cyn bod y data gwirioneddol ar gyfer blwyddyn olaf y cyfnod AMP blaenorol ar gael. O ganlyniad, mae cwmnïau'n darparu data rhagolwg i Ofwat ar gyfer y flwyddyn olaf honno y mae'n ei ddefnyddio i wneud ei benderfyniad terfynol. Yna mae Ofwat yn cynnal 'proses gysoni blwyddyn ddall' lle mae cwmnïau'n cyflwyno eu data archwiliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ddall, gan alluogi Ofwat i gysoni'r data gwirioneddol terfynol yn erbyn rhagolygon y cwmni a ddefnyddiwyd ar gyfer ei benderfyniadau terfynol.

gysylltiedig hon drwy amodau trwydded gwahanol), a bod y camadrodd hwn wedi codi o'r un set o fethiannau, fel y manylir yn Adran 3.

- 4.9 Ni all unrhyw gwmni dŵr na charthffosiaeth fod ag unrhyw amheuaeth ynghylch pwysigrwydd darparu gwybodaeth o ansawdd uchel i Ofwat. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae Ofwat o'r farn bod data o ansawdd uchel yn ddata dibynadwy, cywir a chyflawn o fewn y terfynau a nodir, gan alluogi Ofwat i gyflawni ei swyddogaethau. Mewn perthynas ag APR, nodir hyn yn benodol yn RAG 4.10 – Canllaw ar gyfer tabl diffiniadau yn yr adroddiad perfformiad blynyddol: *'Cyfrifoldeb y cwmni yw adrodd gwybodaeth gywir a chyflawn ar gyfer ymrwymadau perfformiad cyffredinol ac unigol fel y nodir yn yr atodiad ymrwymiad perfformiad canlyniadau penodol y cwmni.'*¹²¹
- 4.10 Trwy ei ailddatganiad o'i ddata perfformiad gollyngiadau a PCC ar gyfer 2020–21 a 2021–22, yn ogystal â'r blynyddoedd cysgodol (2017–18, 2018–19 a 2019–20), mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y data a adroddodd yn wreiddiol i Ofwat ar gyfer y cyfnod hwn, at ddibenion AMP7, yn anghywir.
- 4.11 Mae Ofwat hefyd o'r farn bod Dŵr Cymru wedi camadrodd ei berfformiad gollyngiadau ym mlynnyddoedd olaf AMP6 o ganlyniad i'r un methiannau sy'n bresennol yn AMP7. Fel y nodir yn Adran 3, mae'r dystiolaeth (negeseuon e-bost o'r un cyfnod yn benodol), yn dangos, mor bell yn ôl â 2016, fod gan staff Dŵr Cymru ymwybyddiaeth gynyddol bod gollyngiadau TMSR yn debygol o fod yn cynyddu ac efallai nad oedd ei ffigurau gollyngiadau a adroddwyd wedi adlewyrchu gwir lefelau y gollyngiadau. Mae Dŵr Cymru wedi cydnabod ei fod wedi parhau i gyfrifo ac adrodd ar ei berfformiad gollyngiadau gan ddefnyddio ffigurau oedd yn bodoli'n barod, er bod y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau yn pryderu efallai nad oedd y ffigurau hynny'n adlewyrchu'n gywir berfformiad gollyngiadau gwirioneddol. Yn wir, bu staff yn cymryd rhan mewn trafodaethau mewnol a champau gweithredu sy'n dangos ymdrech barhaus i gynnal amcangyfrif Dŵr Cymru o ollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi o fewn ei gyfrifiad cydbwysedd dŵr (a roddodd sefyllfa fwy ffafriol i'r cwmni), er eu bod yn gwybod bod risg gynyddol bod hyn yn anghywir.¹²² Er enghraifft, cynyddodd Dŵr Cymru ei lwfansau defnydd nos i greu effaith ffafriol ar y cyfrifiad gollyngiadau.¹²³
- 4.12 Lle mae gollyngiadau TMSR yn fwy na 5% o lefel gollyngiadau cyffredinol cwmni, mae'n ofynnol i'r cwmni, Dŵr Cymru yn yr achos hwn, gymryd camau ychwanegol a chraffu wrth gyfrifo ac adrodd ar ei ollyngiadau gan ddefnyddio dull rhagweithiol, ac adolygu ei ollyngiadau TMSR bob blwyddyn. Ym marn Ofwat,

¹²¹ RAG 4.10 – Canllaw ar gyfer y tabl diffiniadau yn yr adroddiad perfformiad blynyddol (Mawrth 2022), t.42.

¹²² Mae Ofwat yn nodi bod y wybodaeth hon hefyd ar lefel uwch reolwyr.

¹²³ Gweler er enghraifft paragraffau 3.18 a 3.30 uchod.

dangosodd staff eu bod yn gwybod y byddai adrodd ar y lefel uwch ar gyfer TMSR yn gwthio'r bwlch cydbwysedd dŵr y tu hwnt i 5% a byddai hyn wedi datgelu lefelau gollyngiadau uwch y cwmni a byddai hefyd wedi arwain at fethu ei Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau. Ceisiodd staff addasu cydrannau eraill yn y cyfrifiad gollyngiadau i guddio hyn. Gweithredodd hyn i 'gydbwyso' effaith defnyddio'r ffigur anghywir is ar gyfer gollyngiadau TMSR. Nododd rhai aelodau o staff y byddai'r addasiadau hyn yn debygol o fod yn rhai dros dro, a'u bod i bob pwrpas heb eu dirwyn i ben unwaith yr eir i'r afael â gollyngiadau i fyny'r gadwyn gyflenwi.¹²⁴

- 4.13 Mae'n ymddangos efallai bod Dŵr Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn o gyfrifo ac adrodd ar y cychwyn (yn ystod cyfnod AMP6) oherwydd ei fod yn credu y byddai ei ymyriadau cyflawni mewn perthynas â gollyngiadau o'r prif bibellau cyflenwi yn dod â pherfformiad gwirioneddol yn ôl yn unol â'r ffigurau yr oedd yn eu defnyddio at ddibenion adrodd.
- 4.14 Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod Uwch Reolwyr ym musnes dŵr Dŵr Cymru o leiaf yn ymwybodol o broblem gynyddol gyda mewnbwn dosbarthu cynyddol, a ddylai fod wedi arwain at fwy o graffu ar y cydbwysedd dŵr a pherfformiad gollyngiadau a adroddwyd, gan eu bod yn cydnabod bod hyn '*bob amser yn arwydd da o lefelau gollyngiadau*' ac wedi nodi '*pob dangosydd [...] yn pwyntio at golledion i fyny'r gadwyn gyflenwi*'. Nid oes dystiolaeth bod y Weithrediaeth a'r Bwrdd yn gwybod am wir faint y broblem, ac mae Ofwat yn teimlo bod hyn oherwydd y fframweithiau llywodraethu aneffeithiol a'r craffu annigonol oedd ar waith o ran adrodd ar yr Ymrwymadau Perfformiad hyn.¹²⁵
- 4.15 Mae Ofwat yn cydnabod bod rhai o'r trafodaethau mewnol ynglŷn ag addasiadau i gydrannau'r cyfrifiadau cydbwysedd dŵr yn ffactor mewn cyfrifo gollyngiadau a PCC yn bod yn ddibynnol ar ddefnyddio allosod data sampl. Serch hynny, yn yr achos hwn, roedd penderfyniadau staff ar gydrannau allweddol yn eu cyfrifiadau yn canolbwyntio'n fawr ar gynnal amcangyfrifiad gollyngiadau TMSR, ac felly bwlch cydbwysedd dŵr o lai na 5%, yn hytrach nag ar yr hyn a fyddai'n galluogi adrodd mwyaf cywir sefyllfa'r cwmni o ran gollyngiadau. Roedd hyn er gwaethaf un unigolyn yn cwestiynu materion yn ymwneud ag adrodd Dŵr Cymru, a dau adroddiad trydydd parti a baratowyd ar gyfer Dŵr Cymru yn argymhell bod y cwmni'n adolygu ei ollyngiadau o brif bibellau cyflenwi yn flynyddol.¹²⁶
- 4.16 Yn PR19, gwnaeth Ofwat hefyd wneud PCC yn Ymrwymiad Perfformiad, y mae ei gyfrifiad â chysylltiad gwrthdro â'r cyfrifiad gollyngiadau cyffredinol. Cyflwynodd Dŵr Cymru addasiad meddiannaeth penodol, a gafodd yr effaith o chwyddo

¹²⁴ Gweler paragraffau 3.35 i 3.37 uchod.

¹²⁵ Gweler paragraffau 3.43 i 3.77 uchod.

¹²⁶ Gweler paragraffau 3.6 i 3.7 uchod.

ffigurau defnydd ac i'r gwrthwyneb, lleihau'r ffigurau gollyngiadau cyffredinol. Mae Ofwat yn nodi nad oes dystiolaeth bod yr addasiad meddiannaeth wedi'i gyflwyno gyda'r bwriad o leihau'r gollyngiadau a adroddwyd, ond yn hytrach mewn ymgais i Dŵr Cymru ddechrau adrodd ar PCC fel un o'r Ymrwymadau Perfformiad cyffredin. Serch hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos bod staff yn ymwybodol iawn o effaith yr addasiad meddiannaeth ar ollyngiadau a adroddwyd, a gwnaethant drafod mai digwyddiad dros dro fyddai hwn, gyda'r nod yn y pen draw i gael gwared ar yr addasiad meddiannaeth dros amser, wrth i'r cwmni leihau'r gollyngiadau gwirioneddol ar lawr gwlad.¹²⁷ Mae Ofwat hefyd yn nodi bod Jacobs a Wrm, yn eu hadolygiadau o'r adroddiadau ar ôl y digwyddiad (a gomisiynwyd gan Dŵr Cymru) wedi cytuno nad oedd yr addasiad hwn, yn y modd y'i defnyddiwyd, yn briodol.¹²⁸

- 4.17 Felly, mae Ofwat o'r farn bod y camadrodd yn fwriadol i raddau o leiaf oherwydd, yn enwedig o ystyried maint yr ailddatganiad, mae'n rhaid bod staff Dŵr Cymru wedi bod yn ymwybodol, neu na allent fod wedi bod ddim yn ymwybodol, bod ymdrechion i sicrhau bod y cydbwysedd dŵr yn aros o fewn y goddefiant 5%, trwy addasu cydrannau eraill ar y cydbwysedd dŵr, i bob pwrpas yn cuddio'r lefel wirioneddol debygol o ollyngiadau ac yn arwain at ffigurau a adroddwyd nad oedd yn adlewyrchiad cywir o berfformiad y cwmni.
- 4.18 Er nad yw Ofwat wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gyfarwyddyd gan reolwyr i adrodd yn anghywir, mae wedi gweld dystiolaeth o ddiwylliant o ddisgwyliad y dylid cynnal y cydbwysedd dŵr o fewn y 5% er mwyn galluogi'r cwmni i barhau i adrodd ar yr un sail. Tra'n cydnabod bod Dŵr Cymru hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni gostyngiad gwirioneddol mewn gollyngiadau ar lawr gwlad, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod y digwyddiadau a arweiniodd at y camadrodd wedi digwydd mewn diwylliant tîm lle mae'r targed rheoleiddio wedi dod yn ffocws anghymesur i Dŵr Cymru, yn hytrach na chywirdeb. Nid oedd ffocws Dŵr Cymru ar sicrhau bod ei adroddiadau perfformiad mor gywir â phosibl, er mwyn galluogi Ofwat i gyflawni ei swyddogaethau yn ddibynnol ar y data hwnnw, a galluogi Dŵr Cymru ei hun i ddeall a mynd i'r afael yn well â'i berfformiad gollyngiadau a PCC gwael, gydag effeithiau cysylltiedig datblygiad ei gynllunio adnoddau dŵr hirdymor trwy broses WRMP.
- 4.19 Arweiniodd cyflwyno data anghywir i Ofwat at Dŵr Cymru yn cael taliad gorberfformiad ODI o £0.1 miliwn am ei orberfformiad ar ollyngiadau a adroddwyd yn wreiddiol yn 2020–21, gan ei alluogi i adennill y refeniw ychwanegol hwn gan ei gwsmeriaid. Pe na bai Dŵr Cymru wedi hysbysu Ofwat am y materion yr oedd wedi'u canfod, byddai hyn hefyd wedi arwain at daliad gorberfformiad arall o

¹²⁷ Gweler paragraffau 3.35 i 3.37 uchod.

¹²⁸ Gweler paragraffau 3.11 a 2.31 uchod.

£0.257 miliwn ar gyfer 2021–22.¹²⁹ Byddai Dŵr Cymru hefyd wedi gorfod gwneud taliad tanberfformiad ar gyfer PCC o £3.605 miliwn am y ddwy flynedd dan sylw, a fyddai wedi cael ei ddychwelyd i gwsmeriaid ar ddiwedd AMP7.

- 4.20 Yn dilyn ailddatgan ffigurau gollyngiadau a PCC 2020–22, bydd Dŵr Cymru yn gorfod talu taliadau tanberfformiad o £7.8 miliwn am y ddwy flynedd hynny.¹³⁰
- 4.21 Fel y dangosir yn Nhablau 2.2 a 2.3, mae targedau a pherfformiad AMP7 ailddatganedig Dŵr Cymru yn seiliedig ar gymhwysu i'r waelodlin ailddatganedig yr un gostyngiadau canrannol cronus o ollyngiadau a PCC ag a bennwyd ym Mhenderfyniad Terfynol PR19 Ofwat ar gyfer y cwmni. Mae hyn yn golygu, yn dilyn ei ailddatganiad, mae Dŵr Cymru eto i gyflawni cyfanswm o 13.3% o leihad mewn gollyngiadau a 6.3% o leihad mewn PCC dros AMP7, ond yn gymharol i'r waelodlin newydd, uwch, wedi'i hailddatgan ar gyfer yr Ymrwymadau Perfformiad hyn. Mae hyn yn golygu bod y cwmni'n gorfod lleihau gollyngiadau gan nifer uwch o unedau dros y cyfnod PR19 na'i ffigurau gwreiddiol. Fodd bynnag, mae Ofwat yn nodi pe bai sefyllfa waelodlin wirioneddol Dŵr Cymru yn hysbys ar adeg yr adolygiad prisiau ac o ystyried bod y perfformiad hwnnw'n wael o'i gymharu â chwmnïau eraill yn y sector, mae'n bosibl y byddai penderfyniad terfynol Ofwat wedi pennu gostyngiad canrannol uwch ar gyfer y cwmni i'w gyflawni dros AMP7. Bydd perfformiad presennol ailddatganedig y cwmni nawr yn ystyriaeth ar gyfer graddfa'r ymrwymadau perfformiad ar gyfer PR24.

Amod P Trwydded Dŵr Cymru

- 4.22 Mae paragraff 12 Amod P Trwydded Dŵr Cymru yn nodi, '*Er mwyn ei alluogi i gyflawni'r Gweithgareddau a Reoleiddir rhaid i'r Cwmni Penodedig, bob amser, weithredu yn y modd sydd wedi'i gyfrifo orau i sicrhau bod ganddo ddigon o:*

P12.1 adnoddau a chyfleusterau ariannol;

P12.2 adnoddau rheoli; a

P12.3 systemau cynllunio a rheolaeth fewnol'.¹³¹

- 4.23 Fel y nodir yn Adran 3, arweiniodd trefniadau rheoli a llywodraethu gwael sydd ar waith yn Dŵr Cymru yn ystod o leiaf blynyddoedd olaf AMP6 ac i mewn i flynyddoedd cynnar AMP7 at y cwmni yn camadrodd ei Ymrwymadau Perfformiad o ran gollyngiadau a PCC. O ganlyniad, mae Ofwat yn canfod bod Dŵr Cymru wedi

¹²⁹ Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddychwelyd y cyntaf i gwsmeriaid a hepgor yr olaf.

¹³⁰ £9.2 miliwn ym mhrisiau 2022–23.

¹³¹ [Trwydded Dŵr Cymru](#).

torri Amod P o'i Drwydded drwy fethu â chael adnoddau rheoli a systemau cynllunio a rheolaeth fewnol rhwng o leiaf 2017 a 2022 i'w alluogi i adrodd yn gywir, ac yn hollbwysig atal camadrodd wrth ddarparu gwybodaeth reoleiddiol am ei berfformiad gollyngiadau a PCC. Arweiniodd y methiant i gael yr adnoddau a'r systemau hyn yn eu lle at y cwmni'n camadrodd gwybodaeth a ddarparwyd o dan Amodau B, M ac F ei Drwydded at ddibenion gosod a monitro rheolaeth prisiau ac Ymrwymadau Pherfformiad y cwmni, fel y nodir uchod.

- 4.24 Fel y nodir yn Adran 3, methodd Dŵr Cymru â sicrhau bod digon o wybodaeth ac arbenigedd rheoli yn fewnol i ddarparu trosolwg digonol o'i gyfrifiadau cydbwysedd dŵr a sut y cyfrifwyd sut yr adroddwyd ar ei Ymrwymadau Perfformiad gollyngiadau a PCC. Arweiniodd hyn i'r Tîm Adrodd ar Ollyngiadau ganolbwyntio ar y cyfrifo yn bennaf ar wahân i'r ystyriaeth o realiti perfformiad gwirioneddol ar lawr gwlad, ac wedi'i gyfreithloni gan ddisgwyliad mewnol na ddylai'r bwllch cydbwysedd dŵr fod yn fwy na 5% ac na fyddai'r cwmni byth yn methu ei Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau.
- 4.25 Cymerodd Dŵr Cymru gysur ffug wrth i ymgynghorydd allanol lenwi'r bwllch hwn mewn sgiliau ac arbenigedd mewnol o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau. Methodd Dŵr Cymru â chaffael yr adnodd allanol hwn yn briodol. Ni wnaethpwyd ei gylch gwaith yn ddigon clir i bob parti, ac arweiniodd y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, o ystyried cylch gwaith ehangach ei rôl gyda Dŵr Cymru yn ymarferol, at ogwydd posibl (bwriedig neu fel arall) tuag at gynnal y cyfrifiad gollyngiadau anghywir. Dylanwadodd hyn ar ddull y tîm 'llinell gyntaf' a gynhyrchodd y cyfrifiadau, a'r tîm 'ail linell' yn rhoi cyngor ar adrodd rheoleiddiol.
- 4.26 Effeithiodd hefyd ar faint o sicrwydd trydydd parti annibynnol yr oedd uwch reolwyr a Bwrdd Dŵr Cymru yn teimlo bod y data a adroddwyd gan y cwmni wedi'i gael. Arweiniodd hyn at i Fwrdd Dŵr Cymru ddibynnu'n ormodol ar sicrwydd yr ymgynghorydd allanol wrth ddarparu ei ddatganiadau sicrwydd ei hun ar gyfer ei gyflwyniadau data i Ofwat at ddibenion rheoleiddio. Er bod model sicrwydd Tair Llinell o Amddiffyniad Dŵr Cymru yn y pen draw wedi nodi'r camadrodd yn 2022, roedd Dŵr Cymru wedi methu â gwneud hynny rhwng 2017 a 2022. Roedd uwch reolwyr a Bwrdd y cwmni wedi methu â rhoi systemau cynllunio a rheolaeth fewnol ddigonol ar waith i wneud hyn, gan arwain at herio a chraffu annigonol ar gywirdeb adrodd ar berfformiad gollyngiadau a PCC.
- 4.27 Mae Ofwat o'r farn bod cael y systemau cynllunio a rheolaethau mewnol priodol ar waith i sicrhau adrodd cywir yn gyfrifoldebau o fewn rheolaeth cwmni rhesymol ac felly, dylai fod wedi bod o fewn rheolaeth Dŵr Cymru.
- 4.28 Mae Ofwat yn nodi bod dealltwriaeth cwmni o'i berfformiad o ran gollyngiadau a PCC yn ffactor hollbwysig yn ei allu i reoli ei rwydweithiau a'i gyflenwadau dŵr yn

effeithiol ac effeithlon. Felly, mae Ofwat o'r farn y gallai'r modd y mae Dŵr Cymru wedi rheoli ei gyfrifo ac adrodd ar y metrigau hyn, ynghyd â ffactorau eraill, fod yn arwydd o'i gydymffurfiaeth â'i ddyletswydd gyffredinol o dan adran 37 WIA91 i ddatblygu a chynnal system gyflenwi dŵr effeithlon a darbodus. Mae'r canfyddiadau a nodir yn y ddogfen hon yn ymwneud ag ystyriaeth Ofwat o gamadrodd y cwmni a'r amodau trwydded penodol a nodir uchod. Nid yw'n gwneud canfyddiadau ynghylch a yw'r cwmni wedi torri adran 37 ai peidio. Yng ngoleuni'r camau y mae Dŵr Cymru wedi'u cymryd, a'r rheini y mae'n parhau i'w cymryd, i unioni'r achosion o dorri amodau'r drwydded a nodir uchod, bydd Ofwat yn parhau i fonitro perfformiad y cwmni o ran gollyngiadau a PCC, ac unrhyw ddangosyddion perthnasol eraill, er mwyn sefydlu a oes angen cymryd camau pellach mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag adran 37. Nid yw'r canfyddiadau a'r camau gweithredu a nodir yn yr achos hwn yn atal Ofwat rhag cymryd camau yn y dyfodol yn hynny o beth, pe bai'n gweld yn dda gwneud hynny.

5. Cynnig i bennu cosb ariannol

Darpariaethau perthnasol WIA91

- 5.1 O dan adrannau 22A(1)(a) a 22A(2)(a) WIA91 caiff Ofwat bennu cosb o swm sy'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos ar ymgwymerwr dŵr neu garthffosiaeth, pan fo wedi'i fodloni bod yr ymgwymerwr yn, neu wedi, mynd yn groes i unrhyw amod ei Drwydded, neu yn, neu wedi, mynd yn groes i unrhyw ofyniad statudol y mae Ofwat yn gyfrifol am ei orfodi. Mae adran 22A(9) WIA91 yn darparu bod cosbau a bennir o dan adran 22A WIA91 yn cael eu talu i mewn i Gronfa Gyfunol Trysorlys EM.
- 5.2 O dan adran 22A(11) WIA91, ni chaiff unrhyw gosb a bennir gan Ofwat o dan adran 22A fod yn fwy na 10% o drosiant blynyddol y cwmni, a benderfynnir yn unol â Gorchymyn y Diwydiant Dŵr (Penderfynu ar Drosiant ar gyfer Cosbau) 2005. Mae erthygl 3 y Gorchymyn hwnnw yn darparu, at ddibenion adran 22A(11) WIA91, mai trosiant cwmni yw'r trosiant perthnasol ar gyfer y flwyddyn fusnes flaenorol heb dreth (hynny yw, y flwyddyn fusnes olaf cyn y dyddiad y mae Ofwat yn rhoi hysbysiad o dan adran 22A(4) WIA91).
- 5.3 Mae erthygl 2(2) yn diffinio "trosiant perthnasol" fel "y symiau, a benderfynir yn unol ag arfer cyfrifyddu arferol yn y Deyrnas Unedig, sy'n deillio gan gwmni o ddarparu nwyddau a gwasanaethau yng nghwrs gweithgareddau a reoleiddir y cwmni y pennir y gosb ar eu cyfer". Mae erthygl 2(1) yn diffinio 'gweithgareddau a reoleiddir' fel:
- (a) yn achos cwmni sy'n dal penodiad fel ymgwymerwr dŵr, ei swyddogaethau fel ymgwymerwr dŵr;*
- (a) yn achos cwmni sy'n dal penodiad fel ymgwymerwr carthffosiaeth, ei swyddogaethau fel ymgwymerwr carthffosiaeth';*
- 5.4 Rhedodd blwyddyn fusnes olaf Dŵr Cymru o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Trosiant perthnasol Dŵr Cymru a ddeilliodd o'i weithgareddau fel cwmni dŵr yn y flwyddyn fusnes honno oedd £336.914 miliwn.¹³² Yn unol â hynny, y gosb uchaf y gallai Ofwat ei gosod ar y cwmni fyddai 10% o'r rhif hwn, hynny yw £33.69 miliwn. Er bod Ofwat wedi canfod dau achos o dorri amodau – y rhwymedigaethau o dan

¹³² Adroddiad Perfformiad Blynyddol Dŵr Cymru 2022-2, Rhan2, Tabl 2I, t.14. Mae hyn yn adlewyrchu'r refeniw a adroddwyd ar gyfer Adnoddau Dŵr a Rhwydwaith Dŵr+, Cyflenwad dŵr swmp trydydd parti, Refeniw trydydd parti arall a Refeniw manwerthu. Mae'r refeniw a adroddwyd ar gyfer Trydydd Parti arall a Manwerthu yn adlewyrchu refeniw dŵr a dŵr gwastraff. I adlewyrchu'r refeniw sy'n gysylltiedig â swyddogaethau dŵr Dŵr Cymru, mae'r refeniw hwn wedi'i ddostrannu ar sail y gymhareb rhwng Rhwydwaith Dŵr+ a Rhwydwaith Dŵr Gwastraff+.

Amodau B, F ac M (gweler paragraff 4.9 uchod ynghylch pam yr ystyrir y rhain yn un toriad), a'r rhai o dan Amod P o Drwydded Dŵr Cymru, mae wedi penderfynu gosod un gosb yn ymwneud â hwy o ystyried eu bod yn gydgysylltiedig. Felly, uchafswm y gosb bosibl yn yr achos hwn yw £33.69 miliwn.

- 5.5 O dan adran 22C(1) WIA91 gall Ofwat ond pennu cosb am dorri amodau a ddigwyddodd o fewn pum mlynedd i osod y gosb, oni bai, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, fod Ofwat yn rhoi hysbysiad o dan adran 203 WIA91, neu orchymyn gorfodi dros dro neu derfynol.¹³³ Yn yr achos hwn, mae hyn yn golygu mai dim ond mewn perthynas â thorri amodau a ddigwyddodd ar ôl 31 Mai 2018 y gellir rhoi cosb.¹³⁴ Mae Ofwat yn fodlon bod y tramgwyddau y mae cosb yn cael ei gweithredu ar eu cyfer yn dod o fewn y cyfnod a ganiateir a ragnodir gan adran 22C(1) WIA91.
- 5.6 O dan adran 22A(4) WIA91, rhaid i Ofwat hefyd nodi'r gweithredoedd neu anweithredoedd ac unrhyw 'ffeithiau eraill' y mae'n ystyried sy'n cyfiawnhau pennu cosb am dramgwydd perthnasol, a'r swm a gynnigir. Mae adrannau 3, 4 a 5 yr Hysbysiad hwn yn cael yr effaith honno.
- 5.7 Yn unol ag adran 22B(2) WIA91, rhaid i Ofwat roi sylw i'w [ddatganiad polisi](#) perthynas â chosbau ('**Datganiad Polisi**') wrth benderfynu a ddylid pennu cosb, a'i swm.

Deddf Cystadleuaeth 1998

- 5.8 Mae adran 22A(13) a 22A(14) WIA91 yn darparu bod yn rhaid i Ofwat, cyn pennu cosb ariannol, ystyried a fyddai'n fwy priodol bwrw ymlaen o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Nid yw'r canfyddiadau yn yr Hysbysiad hwn yn ymwneud â thorri cyfraith cystadleuaeth y DU ac mae Ofwat yn fodlon, at ddibenion Adran 22A(13) WIA91, nad Deddf Cystadleuaeth 1998 yw'r ffordd fwyaf priodol i symud ymlaen.
- 5.9 O dan adran 22A(4) WIA91, rhaid i Ofwat nodi'r gweithredoedd neu anweithredoedd ac unrhyw 'ffeithiau eraill' y mae'n ystyried sy'n cyfiawnhau pennu cosb am dramgwydd perthnasol, a'r swm a gynnigir.
- 5.10 Mae Ofwat yn fodlon bod Dŵr Cymru wedi mynd yn groes i Amodau B, F ac M ei Drwydded mewn perthynas â sut yr adroddodd wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad gollyngiadau a PCC yn ei APR 2020-21 a 2021-22, ei waelodlin

¹³³ Cyflwynwyd y cyfnod o bum mlynedd i WIA91 gan Ddeddf Dŵr 2014.

¹³⁴ Cyhoeddodd Ofwat hysbysiad o dan adran 203(2) WIA91 ar 31 Mai 2023. Mae'r adroddiadau rheoleiddiol cynharaf sy'n berthnasol i'n canfyddiadau yn yr achos hwn yn ymwneud ag APR Dŵr Cymru ar gyfer 2017-18, a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018.

wreiddiol y seiliwyd targedau Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau a PCC arnynt ar gyfer AMP7, a gwybodaeth a ddarparwyd ganddo am ei Ymrwymiad Perfformiad gollyngiadau ym mlynnyddoedd olaf cyfnod AMP6 (gweler paragraff 4.8 uchod). Mae Ofwat hefyd yn fodlon bod Dŵr Cymru wedi mynd yn groes i Amod P ei Drwydded drwy fethu â gweithredu yn y modd oedd wedi'i gyfrifo orau i sicrhau bod ganddo systemau cynllunio a rheolaeth fewnol ddigonol ar waith rhwng 2017-2022.

5.11 Wrth benderfynu a ddylid pennu cosbau am y tramgwyddau hyn yn y symiau a gynigir, mae Ofwat wedi ystyried ei [Ddatganiad Polisi](#) ac yn arbennig y ffactorau canlynol, fel y manylir ymhellach isod:

- difrifoldeb a hyd y tramgwyddau neu fethiant;
- a yw'r tramgwydd neu fethiant wedi niweidio buddiannau cwsmeriaid, graddau'r niwed a achoswyd a hefyd unrhyw gostau uwch a gafwyd gan gwsmeriaid;
- a fyddai cymhwyso cosb yn debygol o greu cymhelliad i gydymffurfio ac atal tramgwyddau neu fethiannau yn y dyfodol;
- unrhyw enillion a wnaed gan yr ymgwymerwr (ariannol neu fel arall);
- unrhyw ddifrod i gyfranogwyr eraill y farchnad;
- unrhyw ddifrod a achoswyd i'r amgylchedd;
- a oedd neu a yw'r tramgwyddau neu'r methiant yn rhai dibwys o ran eu natur;
- a fyddai'r tramgwydd neu'r posibilrwydd o dramgwydd wedi bod yn amlwg i ymgwymerwr diwyd; a

cynseiliau a osodir o dan ddarpariaethau cyfatebol ar gyfer cyfleustodau eraill.

Mae Ofwat hefyd wedi ystyried ei bolisi presennol ar orfodi sy'n darparu y gall *'gytuno i gosb lai os bydd y cwmni'n rhoi mesurau ar waith i wneud iawn yn briodol i gwsmeriaid.'*¹³⁵

¹³⁵ Gweler [Agwedd Ofwat at Orfodaeth](#), paragraff 18 .

Difrifoldeb a hyd y tramgwyddau

- 5.12 Mae adrodd rheoleiddiol cywir yn hanfodol i alluogi rheoleiddio cymharol Ofwat, gan gynnwys sicrhau bod y cymhellion ariannol o fewn ein proses adolygu prisiau yn gweithredu fel y bwriadwyd iddynt, a bod y prisiau y mae cwsmeriaid yn eu talu am eu gwasanaethau dŵr yn deg ac yn briodol. Mae hefyd yn caniatáu i Ofwat, a rhanddeiliaid eraill, fonitro sut mae pob cwmni dŵr a charthffosiaeth yn perfformio ac a oes yna resymau i bryderu sy'n eu gwneud hi'n ofynnol i Ofwat neu'r cwmni ei hun gymryd camau gweithredu.
- 5.13 Yn ogystal, mae adrodd cywir ar berfformiad yn bwysig i gwmnïau dŵr eu hunain, fel eu bod yn deall yn llawn eu perfformiad ac yn gallu targedu eu buddsoddiad a'u gweithgareddau yn effeithiol i gyflawni a gwella canlyniadau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae'r achos hwn yn ymwneud â data gollyngiadau a defnydd, y mae dealltwriaeth gadarn ohonynt yn allweddol i allu cwmni i reoli ei gyflenwad dŵr yn effeithlon a darbodus ar gyfer cwsmeriaid presennol, sy'n ddyletswydd graidd ar gwmnïau dŵr. Mae'r data hwn hefyd yn allweddol i gwmni wneud hynny'n llwyddiannus ar gyfer cwsmeriaid y dyfodol trwy ei WRMP.
- 5.14 Mae camadrodd gwybodaeth reoleiddiol yn fater difrifol bob amser ac yn un sy'n peryglu'r drefn reoleiddio drwy niweidio, i raddau mwy neu lai, allu Ofwat i reoleiddio a diogelu buddiannau cwsmeriaid. Lle mae camadrodd yn cuddio diffygion ym mherfformiad cwmni, mae Ofwat yn cael ei atal rhag nodi methiannau yn y gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei dderbyn, rhag gweithredu ar y methiannau hynny, a rhag unioni'r broblem wrth symud ymlaen. Yn yr achos hwn golygodd camadrodd Dŵr Cymru nad oedd gan Ofwat, rhanddeiliaid eraill a'r cwmni ei hun ddealltwriaeth gywir o berfformiad gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru, a oedd yn sylweddol waeth nag yr oedd y cwmni wedi'i adrodd. Pe bai'r data cywir wedi'i adrodd, byddai'r cwmni, a lle bo angen Ofwat, wedi gallu bod mewn sefyllfa well i gymryd camau i unioni'r broblem.
- 5.15 Trwy gamadrodd data rheoleiddio, gall cwmnïau osgoi'r angen am wariant i unioni'r materion y byddai'r data cywir wedi'u datgelu, ac i elwa ar y terfynau prisiau y mae Ofwat yn eu gosod i gwmnïau dŵr, er anfantais i gwsmeriaid. Yn yr achos hwn mae'r camadrodd yn arbennig o ddifrifol oherwydd defnyddir y data hwn i gyfrifo'r cymhellion ariannol y mae Ofwat yn eu rhoi ar y cwmni drwy'r drefn adolygu prisiau, ac felly gallai fod â chanlyniadau ariannol clir i'r cwmni. Roedd camadrodd Dŵr Cymru yn golygu na fu'n rhaid iddo dalu daliadau tanberfformiad o dan y drefn ODI pan ddylai fod wedi gorfod talu £1.982 miliwn a £3.360 miliwn am ollyngiadau yn 2020-21 a 2021-22 yn y drefn honno. Mewn gwirionedd, i'r gwrthwyneb, fe wnaeth Dŵr Cymru elwa gan daliad gorberfformiad gollyngiadau bach o £0.1 miliwn yn 2020-21, a gymhwyswyd i filiau cwsmeriaid, ond sy'n cael ei

ddychwelyd i gwsmeriaid (gweler paragraffau 4.20 a 5.55). Byddai'r ddau wedi arwain at filiau cwsmeriaid uwch nag y dylent fod wedi bod.

- 5.16 Mae Ofwat wedi canfod bod y camadrodd wedi'i alluogi gan gyfres o fethiannau yn nhrefniadau llywodraethu a chraffu Dŵr Cymru ar gyfer y data rheoleiddio hwn – torri Amod P o'i drwydded. Mae'r methiannau hyn yn ychwanegu at ddifrifoldeb y tramgwyddau gan fod cael rheolaethau mewnol effeithiol yn allweddol i gwmni sy'n cael ei redeg yn dda. O ystyried bod gan y data hwn ganlyniadau ariannol hysbys ac uniongyrchol yn gysylltiedig â chymhellion adolygiad prisiau, dylai'r cwmni fod wedi sicrhau llywodraethu arbennig o gadarn a chraffu arno. Methodd y cwmni â gwneud hynny.
- 5.17 Mae camadrodd o ganlyniad i weithredu bwriadol yn llawer mwy difrifol nag un sy'n deillio'n unig o fethiannau mewn systemau cynllunio a rheolaeth fewnol. Yn yr achos hwn, er nad yw Ofwat wedi canfod tystiolaeth bod uwch reolwyr neu Fwrdd y cwmni wedi mynd ati'n fwriadol i gamadrodd perfformiad y cwmni o ran gollyngiadau a PCC, mae wedi canfod bod staff o fewn y busnes yn canolbwyntio'n fwriadol ar gynnal y cydbwysedd dŵr o fewn 5% (yn hytrach na chanolbwyntio ymdrechion i sicrhau cywirdeb), a gafodd yr effaith o guddio ffigurau perfformiad gwirioneddol y cwmni. Yn ogystal, roedd staff, gan gynnwys ar lefel uwch, yn gwybod ei bod yn bosibl nad oedd y data a adroddwyd yn gywir ac ni wnaethant sicrhau'r craffu oedd ei angen.
- 5.18 Methodd rheolwyr a Bwrdd y cwmni â rhoi systemau cynllunio a rheolaeth fewnol ddigonol ar waith i sicrhau bod ei adroddiadau ar ollyngiadau a PCC yn seiliedig ar y wybodaeth orau a diweddaraf am berfformiad, ac yn caniatáu diwylliant gweithio ac amodau o fewn y Tîm Adrodd ar Ollyngiadau a alluogodd ffocws amhriodol ar y modd y paratowyd data perfformiad, a herio a chraffu annigonol ar y data hwnnw at ddibenion adrodd rheoleiddiol. Am y rheswm hwnnw, mae Ofwat wedi gwahaniaethu rhwng yr achos hwn a'r achosion mwyaf difrifol o gamadrodd lle'r oedd cwmniau'n mynd ati'n fwriadol i gamadrodd gyda'r bwriad corfforaethol o gamarwain y rheoleiddiwr ond mae wedi rhoi ystyriaeth i ddangosyddion o'r bwriad o ran sut y paratowyd y cyfrifiadau a rôl uwch reolwyr mewn creu'r amgylchiadau lle gallai hynny ddigwydd.
- 5.19 O ran hyd, mae Ofwat o'r farn, fel y nodir ym mharagraff 4.8 uchod, bod y camadrodd am berfformiad o ran gollyngiadau a PCC wedi effeithio ar flynyddoedd adrodd 2017-18, 2018-19, 2019-20, 2020-21 a 2021-22. Mewn perthynas â methiant mewn prosesau llywodraethu, mae Ofwat yn ystyried bod hyn wedi para i 2017 i 2022 (gweler paragraff 4.24 uchod).

A yw'r tramgwydd neu fethiant wedi niweidio buddiannau cwsmeriaid, graddau'r niwed a achoswyd a hefyd unrhyw gostau uwch a gafwyd gan gwsmeriaid

- 5.20 Mae Dŵr Cymru wedi osgoi taliadau tanberfformio ODI mewn blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i gamadrodd ei berfformiad yn ymwneud â gollyngiadau (gweler paragraff 2.25 uchod). Mae hyn yn golygu bod biliau cwsmeriaid wedi bod yn uwch nag y byddent wedi bod fel arall oherwydd y ffordd y mae taliadau ODI yn cael eu hadlewyrchu yn y symiau o arian y gall cwmnïau adennill gan eu cwsmeriaid. Er y caiff hyn ei unioni nawr trwy ddefnyddio'r data ailddatganedig ym mhenderfyniadau'r adolygiad prisiau ac ymarferion cysoni yn y dyfodol, mae camadrodd yn tanseilio hyder cwsmeriaid a rheoleiddwyr eraill yng ngallu cwmnïau i gyflawni eu swyddogaethau a'u rhwymedigaethau.
- 5.21 Mae camadrodd yn lleihau gallu Ofwat i ymyrryd i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid a gwerth gwybodaeth gyhoeddedig ar gyfer y rheini sy'n ei defnyddio.

A fyddai cymhwyso cosb yn debygol o greu cymhelliad i gydymffurfio ac atal tramgwyddau neu fethiannau yn y dyfodol

- 5.22 Mae gwybodaeth reoleiddiol o ansawdd uchel yn sylfaenol i rôl Ofwat mewn diogelu cwsmeriaid. Felly, mae'n hanfodol bod cymhellion cryf ar gwmnïau i ddarparu gwybodaeth gywir, a bod â systemau cynllunio a rheolaeth fewnol gadarn ar waith i sicrhau llywodraethu a chraffu priodol dros adrodd rheoleiddiol.
- 5.23 Mae Ofwat yn nodi bod Dŵr Cymru wedi mynd i gostau wrth ymchwilio i'r materion a'r achosion sylfaenol a arweiniodd at y camadrodd a ystyriwyd yn yr achos hwn, ac i roi camau unioni ar waith ar gyfer y methiannau a nodwyd. Fodd bynnag, ym marn Ofwat nid yw'r costau hyn, ynddynt eu hunain, yn ddigon o ataliad yn erbyn troseddau tebyg yn y dyfodol gan na wnaeth y risg o gostau yn y dyfodol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio atal Dŵr Cymru yn ddigonol yn y lle cyntaf fel na ddigwyddodd y methiannau hyn.
- 5.24 Mae Ofwat felly o'r farn y bydd cosb ariannol a roddir o dan adran 22A WIA91 yn gymhelliad i atal tramgwyddau neu fethiannau gan Dŵr Cymru, a gan gwmnïau eraill yn y sector ehangach, yn y dyfodol.

Unrhyw enillion a wnaed gan yr ymgwymerwr (ariannol neu fel arall) o'r tramgwyddau

- 5.25 Mae Dŵr Cymru wedi osgoi taliadau tanberfformio ODI mewn blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i gamadrodd ei berfformiad yn ymwneud â gollyngiadau. Mewn gwirionedd, yn anghywir, derbyniodd daliad gorberfformiad o £0.1 miliwn yn anghywir yn 2020-21 ac roedd i fod i gael taliad gorberfformiad pellach o £0.3 miliwn pe na bai Ofwat wedi gohirio ei benderfyniad ar y taliad hwn ar ôl i Dŵr Cymru ei hysbysu am bryderon ynghylch y ffigurau a adroddwyd ganddo.¹³⁶ Mewn cyferbyniad, mae Dŵr Cymru wedi mynd i gosbau am danberfformiad yn flaenorol am ei berfformiad PCC a oedd, yng ngoleuni'r data ailddatganedig, yn fwy nag y dylent fod. Ar sail ei ddata ailddatganedig, bydd Dŵr Cymru yn gorfod talu taliadau tanberfformiad ODI gwerth £7.8 miliwn ar gyfer gollyngiadau a PCC ar gyfer ei berfformiad yn 2020-21 a 2021-22, yn hytrach na thaliad tanberfformiad net o £3.3 miliwn wrth ddefnyddio'r ffigurau anghywir yr oedd wedi'u hadrodd yn flaenorol.¹³⁷
- 5.26 Er bod y mater hwn yn ymwneud â phenderfyniad Ofwat a'i fod wedi llywio penderfyniad Ofwat ynghylch a ddylid pennu cosb o dan adran 22A WIA91 a'i lefel eang, mae cysoni taliadau tanberfformiad AMP7 ODI a gafodd eu hosgoi yn parhau i fod yn wahanol i unrhyw gosb gorfodi a osodir o dan adran 22A WIA91 a byddant yn cael eu prosesu trwy brosesau cysoni adolygu prisiau.
- 5.27 Rydym wedi canfod bod Dŵr Cymru wedi camadrodd data o 2017-18 i 2021-22. Mae ffigurau ailddatganedig Dŵr Cymru ond yn ymwneud ag adroddiadau AMP7, a'r fethodoleg gyfrifo a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfnod hwnnw, felly gellir eu prosesu'n gywir drwy'r cyfnod adolygu prisiau presennol. Mae'r broses cysoni ar gyfer y cyfnod AMP6 bellach wedi pasio. Mae graddfa'r camadrodd ar gyfer blynyddoedd olaf AMP6 yn aneglur, er ei fod yn debygol o fod wedi bod yn llai na'r un ar gyfer cyfnod AMP7 oherwydd newidiadau yn y fethodoleg gyfrifo a'r bwlch rhwng perfformiad a adroddwyd a pherfformiad gwirioneddol yn tyfu dros y cyfnod yr ydym wedi'i ystyried. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r cwmni wedi wynebu rhai cosbau ODI yn AMP6 am ei berfformiad gollyngiadau pe bai ei adrodd wedi bod yn gywir.¹³⁸

¹³⁶ Mae Dŵr Cymru wedi cael taliad gorberfformiad o £0.257 miliwn ar sail ei ddata a adroddwyd ym mhrisiau 2017-18. Mae'r ffigur hwnnw'n cyfateb i £0.3 miliwn ym mhrisiau 2022-23.

¹³⁷ Wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y perfformiad ailddatganedig ar gyfer 2020-21 a 2021-22. Gweler Tablau 2.2, 2.3, 2.6 a 2.7 uchod. Ym mhrisiau 2022-23, y ffigurau hyn yw £9.2 miliwn a £3.9 miliwn yn y drefn honno.

¹³⁸ Nid oedd gan Dŵr Cymru ymrwymiad perfformiad PCC yn ystod AMP6. Roedd taliadau tanberfformiad posibl gollyngiadau PR14 Dŵr Cymru wedi'u cyfyngu i daliad tanberfformiad posibl uchaf o £9.2 miliwn y flwyddyn.

5.28 Mae Ofwat yn nodi, gan nad oedd gwir sefyllfa cydymffurfiaeth gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru wedi'i hadlewyrchu'n gywir yn ei adroddiadau rheoleiddiol, y gallai fod wedi effeithio ar faint o weithredu a buddsoddiad a wnaeth y cwmni i fynd i'r afael â gollyngiadau a PCC. Nid yw'n ymddangos bod y cwmni wedi elwa'n ariannol yn hyn o beth; mae wedi gorwario yn erbyn ei lwfansau cost arfaethedig ar gyfer gollyngiadau, ond nodwn y gallai gwybod ei wir berfformiad fod wedi arwain at orfod gorwario hyd yn fwy i fynd i'r afael â thanberfformiad.

Unrhyw ddifrod i gyfranogwyr eraill y farchnad

5.29 Er nad yw Ofwat yn ystyried bod Dŵr Cymru wedi achosi niwed uniongyrchol i gyfranogwyr eraill y farchnad o ganlyniad i'r toriadau a nodwyd yn yr achos hwn, yn gyffredinol mae camadrodd a llywodraethu gwael gan un cwmni yn niweidio'r drefn reoleiddio ac enw da'r sector dŵr yn gyffredinol. Mae ymddiriedaeth a hyder cwsmeriaid yn y sector yn cael ei wanhau gan fethu adrodd yn gywir a bod yn atebol, yn enwedig lle mae cwmnïau wedi gwybod y gallai'r wybodaeth a adroddwyd ganddynt fod wedi bod, neu ei bod, yn anghywir.

Unrhyw ddifrod a achoswyd i'r amgylchedd

5.30 Fel y nodwyd ym mharagraffau 5.14 i 5.15 uchod, mae data cywir am berfformiad gollyngiadau a PCC yn allweddol i allu cwmni i reoli ei gyflenwad dŵr nawr ac yn y dyfodol. Mae camadrodd Dŵr Cymru yn debygol o fod wedi cuddio ac oedi gweithredu angenrheidiol i wella perfformiad y cwmni. Pe bai Dŵr Cymru wedi adrodd yn gywir ar ei berfformiad, mae'n bosibl y byddai'r cwmni, a lle y bo'n briodol Ofwat, wedi cymryd camau pellach i unioni tanberfformiad er budd yr amgylchedd.

A oedd neu a yw'r tramgwyddau neu'r methiant yn rhai dibwys o ran eu natur

5.31 Fel yr amlinellir uchod, mae Ofwat yn ystyried y tramgwyddau yn rhai difrifol.

A fyddai'r tramgwydd neu'r posibilrwydd o dramgwydd wedi bod yn amlwg i ymgymerwr diwyd

5.32 Fel yr amlinellwyd yn Adrannau 3 a 4, deilliodd camadrodd Dŵr Cymru ar ei berfformiad o ran gollyngiadau a PCC o fethiannau i roi systemau cynllunio a rheolaeth fewnol digonol ar waith. Roedd uwch reolwyr a Bwrdd Dŵr Cymru yn

dibynnu ar amrywiaeth o dimau, partiön allanol a systemau i reoli ansawdd data perfformiad gollyngiadau a PCC a adroddwyd gan y cwmni. Serch hynny, roedd y systemau a'r prosesau hyn yn aneffeithiol, gan arwain yn eu tro at herio a chraffu annigonol ar ddata a pherfformiad gollyngiadau a PCC gan uwch reolwyr a Bwrdd y cwmni.¹³⁹

- 5.33 Dylai'r methiannau fod wedi bod yn amlwg i gwmni diwyd a fyddai wedi atal, nodi a mynd i'r afael â materion o'r math a amlinellwyd yn yr achos hwn mewn modd mwy amserol ac effeithiol. Byddai cwmni diwyd wedi gwneud mwy i sicrhau bod rheolaethau o'r fath ar waith o ystyried arwyddocâd y data penodol hwn ar gyfer adrodd rheoleiddiol a chynllunio gweithredol ac oherwydd y canlyniadau ariannol clir a oedd yn gysylltiedig ag ef drwy'r drefn cymhelliad adolygu prisiau. Yn y pen draw, llwyddodd prosesau a systemau Dŵr Cymru i alluogi'r cwmni i nodi'r camadrodd a hysbysu Ofwat o hyn, ond dim ond ar ôl sawl blwyddyn o fethiannau.
- 5.34 Dŵr Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw am ansawdd a chywirdeb y wybodaeth y mae'n ei darparu at ddibenion rheoleiddio. Rhaid iddo sicrhau bod ei brosesau a'i lywodraethu yn addas at y diben o ran cynhyrchu'r wybodaeth gywir hon ac ar gyfer bodloni ei rwymedigaethau rheoleiddio. Mae Ofwat o'r farn na weithredodd Dŵr Cymru mewn modd diwyd i sicrhau a chymryd perchnogaeth o gywirdeb yr agwedd benodol hon ar ei ddata a'i fod yn or-ddibynnol ar bartiön allanol ar gyfer hyn.

Cynseiliau a osodwyd o dan ddarpariaethau cyfatebol

- 5.35 Yn 2019, cymerodd Ofwat gamau gorfodi yn erbyn [Southern Water Services Limited \('Southern Water'\)](#) mewn perthynas â chamadrodd bwriadol gwybodaeth am weithfeydd trin dŵr gwastraff, a thorri'r hyn sydd bellach yn Amod P Trwyddedau cwmnïau. Yn yr un modd, yn 2018, cymerodd Ofwat hefyd gamau gorfodi yn erbyn [Thames Water Utilities Limited \('Thames Water'\)](#) a oedd yn cynnwys torri Amod P presennol o Drwyddedau Cwmnïau.
- 5.36 Mae Ofwat hefyd wedi cymryd camau gorfodi yn flaenorol yn erbyn cwmnïau am gamadrodd gwybodaeth reoleiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys camau gorfodi yn 2008 yn erbyn [Southern Water](#), [Thames Water](#), [Dŵr Hafren Trent](#), [Veolia Water East](#), a [Veolia Water Central](#), ac yn 2014 yn erbyn [Thames Water](#). Wrth ddod i'w farn ar lefel arfaethedig y gosb a nodir isod, mae Ofwat wedi ystyried y penderfyniadau blaenorol hyn, gan gynnwys a oeddent wedi darparu digon o effaith ataliol.

¹³⁹ Gweler paragraffau 4.25 i 4.29 uchod.

Casgliad ar briodoldeb cosb ariannol a'i lefel eang

- 5.37 Mae adran 22A(11)(a) yn cyfyngu cosb ariannol a osodir gan Ofwat i uchafswm o 10% o drosiant perthnasol y cwmni a reoleiddir. At y dibenion hyn, mae Ofwat o'r farn mai trosiant perthnasol yw'r hyn sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau dŵr.
- 5.38 Gall Ofwat bennu cosbau ar wahân am dramgwyddau gwahanol. Yn yr achos hwn, canfu Ofwat bod Dŵr Cymru wedi mynd yn groes i Amodau B, F ac M mewn perthynas â chamadrodd,¹⁴⁰ ac Amod P. Fel y nodir yn Adrannau 3 a 4, mae'r tramgwyddau hyn yn cydberthyn i raddau. Mae eu heffaith gyfunol wedi ffurfio barn Ofwat am ddifrifoldeb y tramgwyddau. Felly, mae Ofwat o'r farn y byddai'n briodol gosod un gosb, yn hytrach na chosbau ar wahân mewn perthynas â phob toriad.
- 5.39 Wrth benderfynu ar lefel eang y gosb, mae Ofwat wedi ystyried y ffactorau uchod a'r dystiolaeth a'r canfyddiadau a nodir yn Adrannau 3 a 4. O ganlyniad, rydym o'r farn y dylid gosod lefel eang y gosb ar 5% o'r trosiant perthnasol o'i wasanaethau dŵr. Yn seiliedig ar 2022-23 byddai hyn yn cyfateb i gosb ariannol o £16.8 miliwn. Mae'r lefel gosb eang hon yn adlewyrchu pa mor ddifrifol y mae Ofwat yn ystyried camadrodd o unrhyw fath, yn ogystal â natur y bwriad y tu ôl i'r camadrodd, a methiant yr uwch reolwyr i sicrhau diwylliant a rheolaethau mewnol a fyddai'n atal hynny rhag digwydd.
- 5.40 Gan nad dyma'r tro cyntaf i Ofwat gymryd camau gorfodi mewn perthynas â chamadrodd, mae Ofwat o'r farn y byddai man cychwyn sydd o leiaf mor uchel ag achosion blaenorol yn briodol gan fod angen i achosion weithredu fel ataliad cyffredinol yn y sector. O ystyried achosion blaenorol, byddai Ofwat wedi disgwyl i Dŵr Cymru fod wedi bod yn fwy effro i'r risg o gamadrodd a'r angen am ddiwylliant cydymffurfio cadarn sy'n cael ei fonitro'n weithredol yn y sefydliad.
- 5.41 Fel y nodir yn y Datganiad Polisi, unwaith y bydd lefel eang y gosb wedi'i hystyried, efallai y bydd ffactorau eraill megis ffactorau gwaethygu a lliniaru yn cael eu hystyried er mwyn gwneud addasiadau pellach i lefel y gosb. Gall y rhain gynnwys, ond ni fyddent o reidrwydd yn gyfyngedig i:
- dramgwyddau neu fethiannau wedi'u hailadrodd;
 - Parhau gyda thrangwydd neu fethiant;
 - unrhyw gyfraniad gan uwch reolwyr;

¹⁴⁰ Fel yr eglurir ym mharagraff 4.9, er ei fod yn dod o dan amodau trwydded ar wahân, rydym yn ystyried bod yr un toriad hwn gan fod Dŵr Cymru wedi camadrodd yr un wybodaeth mewn perthynas ag amod trwydded perthnasol a bod y camadrodd yn deillio o'r un set o fethiannau.

- lefel y cydweithrediad ag unrhyw ymchwiliad a gynhelir
- unrhyw ymdrechion i guddio'r tramgwydd neu fethiant;
- adrodd yn rhagweithiol am y tramgwydd neu fethiant wrth yr awdurdod gorfodi;
- cymryd camau priodol i gydnabod ac unioni'r tramgwydd neu fethiant; a
- gweithgareddau i wneud iawn a darparu iawndal.

Ffactorau gwaethybol

Tramgwyddau neu fethiannau wedi'u hailadrodd

5.42 Nid yw Ofwat wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru yn y gorffennol, felly nid yw'r tramgwyddau yn yr achos hwn yn dramgwydd a ailadroddir.

Parhau gyda thramgwydd neu fethiant

5.43 Nid yw Ofwat wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru yn y gorffennol, felly nid yw'r tramgwyddau yn yr achos hwn yn gyfystyr â pharhau gyda thramgwydd.

Unrhyw gyfraniad gan uwch reolwyr

5.44 Methodd uwch reolwyr a Bwrdd Dŵr Cymru â sicrhau bod systemau cynllunio a rheolaeth fewnol ddigonol ar waith i ddarparu llywodraethu a chraffu priodol ar yr agwedd hon ar adrodd rheoleiddiol y cwmni. Er nad oes tystiolaeth o gyfarwyddyd gan uwch reolwyr i adrodd yn anghywir, roedd uwch reolwyr yn Dŵr Cymru yn ymwybodol o'r risg bod ei adroddiadau rheoleiddiol ar ollyngiadau a PCC yn anghywir ac roedd gwybodaeth berthnasol ar gael ac wedi'i thrafod o fewn y cwmni a ddylai fod wedi arwain y swyddogion gweithredol cyfrifol i gwestiynu cywirdeb y perfformiad gollyngiadau a adroddwyd.

5.45 Dylai'r uwch reolwyr a'r Bwrdd fod wedi bod yn arbennig o effro i'r angen am systemau rheolaeth fewnol cadarn (gan gynnwys ei ddiwylliant gweithio) mewn perthynas â'i adrodd ar berfformiad yn ymwneud â gollyngiadau a PCC oherwydd y canlyniadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r data rheoleiddio hwn. Gwnaethant fethu â chymryd camau digonol i wneud hynny.

Unrhyw ymdrechion i guddio'r tramgwydd neu fethiant

5.46 Nid yw Ofwat o'r farn bod Dŵr Cymru wedi ceisio celu'r camadrodd am y troseddau, na'i fethiannau llywodraethu o dan Amod P.

Ffactorau lliniarol

Adrodd yn rhagweithiol am y tramgwydd neu fethiant wrth yr awdurdod gorfodi

5.47 Hysbysodd Dŵr Cymru Ofwat yn rhagweithiol ei fod wedi adrodd yn anghywir yn APR 2020-21. Gwnaeth Dŵr Cymru hynny ym mis Ebrill 2022, bron yn syth ar ôl iddo nodi hyn drwy Adolygiad Jacobs ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022. Bu'r cwmni wedyn yn rhagweithiol wrth ddiweddarau Ofwat am ganlyniadau ei ymchwiliadau ei hun i'r mater fel y gallem benderfynu a oedd angen i Ofwat gymryd camau pellach, a pha gamau y dylai gymryd.

Lefel y cydweithrediad ag unrhyw ymchwiliad a gynhelir

5.48 Fel y byddem yn ei ddisgwyl gan unrhyw gwmni, mae Dŵr Cymru wedi ymgysylltu'n adeiladol ag Ofwat cyn a thrwy gydol ein hymchwiliad gorfodi, gan gydymffurfio'n llawn â'n hymholiadau a darparu ymatebion o ansawdd i gais Ofwat am wybodaeth o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

5.49 Mae Dŵr Cymru hefyd wedi cynnal ei ymchwiliadau ei hun i'r hyn a arweiniodd at ei gamadrodd am berfformiad gollyngiadau a PCC, gan gynnwys cynnal dau archwiliad mewnol, a chomisiynu adolygiadau allanol i ganfod sut y bu i'r camadrodd ddigwydd, a'i raddau, gyda'r bwriad o unioni unrhyw fethiannau. Mae Dŵr Cymru wedi rhannu manylion yr ymchwiliadau hyn pan ddaethant ar gael, cyn ac ers agor ein hymchwiliad gorfodi. Mae hyn wedi creu effeithlonrwydd gweinyddol sylweddol ar gyfer ein hymchwiliad, gan alluogi Ofwat i ganolbwyntio ar brofi ac adeiladu ymhellach ar y dystiolaeth hon.

Gweithgareddau i wneud iawn a darparu iawndal

5.50 Fel y nodir ym mharagraffau 3.78 i 3.90 y ddogfen hon, mae Dŵr Cymru eisoes wedi cymryd rhai camau ac wedi cynnig camau pellach i ddarparu iawndal i gwsmeriaid am ei fethiannau yn yr achos hwn ac i ddod â'i hun i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau Trwydded y mae wedi'u tramgwyddo. Mae Dŵr Cymru wedi rhoi ymgymeriadau drafft i Ofwat sy'n adlewyrchu'r ymrwymadau hyn y mae Ofwat yn bwriadu eu derbyn o dan adran 19 WIA91. Gall Ofwat orfodi ymgymeriad adran 19 os nad yw'r cwmni sy'n gwneud yr ymgymeriad yn cydymffurfio ag ef. Mae Ofwat

o'r farn y byddai cwblhau'r gweithredu a nodir ym mharagraffau 3.78 i 3.90 a rhoi'r camau a nodir yn yr ymgymeriadau arfaethedig ar waith yn mynd i'r afael â methiannau Dŵr Cymru a nodir yn y ddogfen hon ac yn sicrhau ei gydymffurfiaeth yn y dyfodol.

5.51 O ran gwneud iawn i gwsmeriaid am fethiannau Dŵr Cymru, mae'r ymgymeriadau drafft yn cynnwys y mesurau ariannol canlynol, sy'n werth £30 miliwn (yn cyfateb i tua 9% o drosiant perthnasol y cwmni) a ariennir gan y cwmni:

- Mae'r cwmni'n dychwelyd £15 miliwn iddynt drwy ad-daliad o £10 ar fil pob cartref ar gyfer 2023-24 (gweler paragraff 3.89 uchod).
- Ymrwymiad i beidio ag adennill gan gwsmeriaid unrhyw gyfran o'r £32 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol a wariwyd gan Dŵr Cymru ar weithgareddau lleihau gollyngiadau yn 2020-21 a 2021-22 (hynny yw, yn ychwanegol at y lefelau buddsoddi a ragwelwyd yn wreiddiol ym Mhenderfyniad Terfynol PR19 y cwmni). O dan fecanweithiau rhannu costau'r adolygiad prisiau, byddai Dŵr Cymru fel arall wedi gallu adennill £14 miliwn o'r buddsoddiad ychwanegol hwn gan gwsmeriaid (gweler paragraff 3.90 uchod).¹⁴¹

Cymryd camau priodol i gydnabod ac unioni'r tramgwydd neu fethiant

5.52 Yn ychwanegol at y camau uchod i wneud iawn i gwsmeriaid, mae Dŵr Cymru wedi cymryd, a bydd yn cymryd, camau i sicrhau ei gydymffurfiaeth yn y dyfodol ac i unioni effeithiau'r methiannau. Bydd rhai o'r rhain yn cael eu rhoi ar waith gan Ofwat gan ddefnyddio'r data perfformiad ailddatganedig yn ei brosesau cysoni adolygu prisiau arferol.

5.53 Yn amodol ar broses penderfyniad ODI Ofwat, bydd ailddatgan perfformiad gollyngiadau a PCC Dŵr Cymru ar gyfer 2020-21 a 2021-22 yn golygu y bydd y cwmni'n gorfod talu £5.3 miliwn yn awtomatig o daliadau tanberfformio am ollyngiadau ar gyfer 2020-22 a £2.5 miliwn o daliadau tanberfformiad o ran PCC ar gyfer 2020-22.^{142 143} Yn ogystal, bydd perfformiad ailddatganedig Dŵr Cymru ar

¹⁴¹ Ar y sail bod y buddsoddiad ychwanegol hwn o £32 miliwn ym mhrisiau 2021-22, mae hyn yn cyfateb i £34.8 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol ym mhrisiau 2022-23, y byddai £15 miliwn ohono fel arall wedi'i dalu gan gwsmeriaid.

¹⁴² Ar sail yr adrodd anghywir blaenorol mae Dŵr Cymru eisoes wedi wynebu taliadau tanberfformiad o £3.61 miliwn yn ymwneud â PCC ar gyfer 2020-22. Nid oedd y rhain wedi'u rhoi ar waith eto a byddent wedi bod ar ddiwedd AMP7. Byddant yn cael eu disodli gan y ffigurau sydd wedi eu datgan o'r newydd.

¹⁴³ Gan adlewyrchu Penderfyniad Terfynol PR19, mae'r ffigurau hyn ym mhrisiau 2017-18 – ym mhrisiau 2022-23 mae hyn yn cyfateb i £6.3 miliwn ar gyfer gollyngiadau a £2.9 miliwn ar gyfer PCC.

gyfer 2022-23 yn arwain at daliad tanberfformiad o £4.5 miliwn ar gyfer gollyngiadau a thaliad tanberfformiad o £1.82 miliwn ar gyfer PCC.¹⁴⁴ Bydd y cwmni'n parhau i fod yn agored i daliadau tanberfformiad ODI yn y dyfodol am ei berfformiad gollyngiadau a PCC yn AMP7, wrth iddo geisio gwella ei berfformiad. Ar sail rhagolygon perfformiad presennol Dŵr Cymru, gallai'r rhain gynnwys taliadau tanberfformio gwerth cyfanswm o £11.4 miliwn ar gyfer gollyngiadau a £2.5 miliwn ar gyfer PCC ar gyfer 2023-24 a 2024-25.¹⁴⁵ Mae bod yn agored i daliadau posibl o'r fath yn cymhell y cwmni i wella ei berfformiad mor gyflym â phosibl.

5.54 Yn ogystal, o ran mynd i'r afael â'r methiannau a sicrhau ei gydymffurfiaeth, mae'r ymrwymïadau drafft y mae Dŵr Cymru wedi'u darparu yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Dychwelyd y taliad gorberfformiad o £0.2 miliwn yr oedd Dŵr Cymru eisoes wedi'i dderbyn am ei berfformiad gollyngiadau yn 2020-21.¹⁴⁶
- Ymrwymïad i fuddsoddi £54 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â gollyngiadau yn 2023-24 a 2024-25 y tu hwnt i'r hyn a dybiwyd yn ei Benderfyniad Terfynol PR19. O ganlyniad i'r mecanwaith rhannu costau yn yr adolygiad prisiau bydd hyn yn golygu bod y cwmni'n ariannu tua £30.8 miliwn o'r buddsoddiad hwn gyda £23.2 miliwn yn cael ei adennill drwy filiau cwsmeriaid (gweler paragraff 3.87).
- Ariannu £5 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad yn 2024-25 i leihau PCC y tu hwnt i'r hyn a dybiwyd yn ei Benderfyniad Terfynol PR19. O ganlyniad i'r mecanwaith rhannu costau yn yr adolygiad prisiau bydd hyn yn golygu bod y cwmni'n ariannu tua £2.85 miliwn o'r buddsoddiad hwn gyda £2.15 miliwn yn cael ei adennill drwy filiau cwsmeriaid.
- Ymrwymïad i barhau i wella elfennau o'i ddata cydbwysedd dŵr yn ystod gweddill AMP7 ac AMP8, gan gynnwys gwell proses ddilysu DMA.
- Dileu'r addasiad meddiannaeth o gyfrifiadau adrodd PCC y cwmni a phrosesu gwelliannau i'r cyfrifo hwnnw.

¹⁴⁴ Gan adlewyrchu Penderfyniad Terfynol PR19, mae'r ffigurau hyn ym mhrisiau 2017-18 – ym mhrisiau 2022-23 mae hyn yn cyfateb i £5.3 miliwn ar gyfer gollyngiadau a £2.2 miliwn ar gyfer PCC.

¹⁴⁵ Gan adlewyrchu Penderfyniad Terfynol PR19, mae'r ffigurau hyn ym mhrisiau 2017-18 – ym mhrisiau 2022-23 mae hyn yn cyfateb i £13.5 miliwn ar gyfer gollyngiadau a £3.0 miliwn ar gyfer PCC.

¹⁴⁶ Mae'r ffigur hwn ym mhrisiau 2022-23.

- Gweithredu cyfres o welliannau llywodraethu yn dilyn adolygiad llywodraethu annibynnol a gomisiynwyd gan y cwmni, gan gynnwys:
 - Newidiadau i linellau adrodd staff i wahanu'n well adroddiadau am ollyngiadau oddi wrth weithgareddau cyflawni lleihad mewn gollyngiadau.
 - Sefydlu "Pwyllgor Goruchwylio Technegol Gollyngiadau a PCC" i gefnogi adrodd ar ddata gollyngiadau a PCC, trwy adolygu a chraffu ar adroddiadau gollyngiadau a PCC yn annibynnol ar eu timau adrodd.
 - Mwy o oruchwyliaeth gan y Weithrediaeth o ddata a newidiadau methodoleg o fewn cyfrifiadau gollyngiadau a PCC, wedi'i gefnogi gan dracio cydrannau o'r dechrau i'r diwedd, datganiadau dull archwiliadwy a logiau newid.
 - Proses cydbwysedd dŵr ddiwygiedig i gael gwared ar gymhlethdod diangen a sicrhau proses fanwl a dogfennau ar gyfer y dull.
 - Cyflwyno gwiriadau newydd ar y broses cydbwysedd dŵr a sicrwydd allanol manwl ar arferion adrodd cydrannau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol.
 - Cyflawni rhaglen sylweddol o wirio ac ailosod mesuryddion ar draws DMA y cwmni a'r rhwydwaith i fyny'r gadwyn gyflenwi i wella hyder mewn cydrannau data cydbwysedd dŵr.
 - Cyflwyno fframwaith asesu risg gwell i fethodoleg adrodd y cwmni ar gyfer pob un o'i ymrwymadau perfformiad a adroddir, a oruchwylir gan Brif Swyddog Risg y cwmni a'i adolygu gan ei Bwyllgor Archwilio.
 - Sefydlu trefniadau darparwr sicrwydd allanol newydd yn benodol ar gyfer gollyngiadau a PCC, gyda threfniadau ar gyfer cymorth a chyngor ar gyfer adrodd ar berfformiad bellach yn gwahaniaethu rhwng cyngor ar leihau gollyngiadau a'r cyngor ar gyfer casglu a dehongli data.
- Darparu hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â'r data adrodd ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, ac ymrwymiad i ailadrodd a datblygu'r hyfforddiant hwnnw ymhellach yn y dyfodol.

- Darparu "Rhaglen Arweinyddiaeth Gyfiawn a Theg" i bob rheolwr yn ystod 2023 i fynd i'r afael ag unrhyw elfennau sy'n weddill o ddiwylliant bwrw bai yn y cwmni. Bydd hon yn cael ei gwreiddio mewn hyfforddiant ar gyfer rheolwyr newydd.
- Lansio rhaglen hyfforddiant gorfodol ar gyfer rheolwyr sy'n cwmpasu gwerthoedd sefydliadol Dŵr Cymru.

Y gosb arfaethedig

5.55 Ar ôl ystyried pob un o'r ffactorau gwaethygu a lliniaru a nodir uchod, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai addasiad am i lawr i lefel eang y gosb yn briodol yn yr achos hwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod Dŵr Cymru wedi adrodd yn rhagweithiol am ei ddiffyg cydymffurfio wrth Ofwat ar ôl iddo nodi'r pryderon camadrodd; pa mor ddifrifol y mae'r cwmni wedi cymryd y materion hyn a'n hymchwiliad; a'r camau y mae Dŵr Cymru eisoes wedi'u cymryd a'u cynllunio i unioni ei fethiannau. Roedd yr addasiad wedi'i gyfyngu i'r swm hwn oherwydd y cyfnod o amser a gymerodd Dŵr Cymru i nodi'r camadrodd, natur y bwriad a arweiniodd at y camadrodd, a bod gan uwch reolwyr rywffaint o ymwybyddiaeth o wybodaeth a ddylai fod wedi eu rhybuddio i'w datrys yn gynt a methu â chraffu'n ddigonol ar hynny. O ganlyniad i'r addasiad byddai Ofwat yn ystyried pennu cosb o 4.5% o drosiant perthnasol Dŵr Cymru (£15.16 miliwn), oni bai am yr ymrwymadau arfaethedig y mae Dŵr Cymru wedi'u cyflwyno.

Rydym o'r farn ei bod yn briodol derbyn ymgymeriadau arfaethedig Dŵr Cymru yn yr achos hwn gan y bydd yn rhoi mwy o fanteision i gwsmeriaid na phennu cosb ariannol sylweddol ar y cwmni. Mae'r mesurau unioni cam i gwsmeriaid a nodir uchod yn cyfateb i £30 miliwn (sy'n gyfystyr â 9% o drosiant perthnasol Dŵr Cymru). Mae hyn yn fwy nag y byddai Ofwat wedi ystyried ei phennu fel cosb ariannol, ac o fudd uniongyrchol i gwsmeriaid. Yn ogystal, bydd Dwr Cymru yn dychwelyd £8 miliwn i gwsmeriaid mewn taliadau tanberfformiad ODI ar gyfer 2020-22,¹⁴⁷ ac yn ymrwmo i £33.6 miliwn o wariant ychwanegol gan y cwmni i gyflawni gwelliannau gollyngiadau a PCC yn ystod AMP7.¹⁴⁸ Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y pecyn o ymrwymadau a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru yn werth o leiaf £73 miliwn o ran buddion i gwsmeriaid.¹⁴⁹

¹⁴⁷ Ym mhrisiau 2022-23 mae'r taliad tanberfformiad ODI hwn o £7.8 miliwn a dychweliad taliad gorberfformiad o £0.2 miliwn yn cyfateb i £9.4 miliwn.

¹⁴⁸ Cyfran y cwmni o gostau o dan y mecanweithiau rhannu costau ar gyfer £59 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol ar ollyngiadau a PCC yn 2023-24 a 2024-25.

¹⁴⁹ £73m ym mhrisiau 2022-23, yn seiliedig ar Dychwelwyd £9.4m i gwsmeriaid o daliadau ODI 2020-22; £15m ad-daliad bil; Dŵr Cymru yn talu costau llawn £34.8m o orwariant ar ollyngiadau yn 2020-22 (£15m o gostau a fyddai fel arall wedi'u hysgwyddo gan gwsmeriaid am orwario ar

Felly, ar ôl ystyried y cydbwysedd cyffredinol rhwng lliniaru a gwaethygu a'r holl ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys y pecyn o fesurau a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru ac sydd i'w sicrhau drwy ymgymeriad o dan adran 19 WIA91, mae Ofwat o'r farn ei bod yn briodol pennu cosb mewn enw o £1.

ollyngiadau yn 2020-22); a Dŵr Cymru £33.6m o gostau yn deillio o'i ymrwymiad i fuddsoddi ymhellach £59m ar ollyngiad a CHTh yn 2023-25 (gyda'r gweddill £25m yn cael ei ysgwyddo gan gwsmeriaid drwy'r mecanwaith rhannu costau).

6. Sut i wneud sylwadau neu wrthwynebiadau

- 6.1 Yn unol ag adran 22A(4) WIA91, mae'n ofynnol bennu cosb o dan adran 22A(1) WIA91, bennu cyfnod, o ddim llai na 21 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad, pan ganiateir i sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â'r gosb arfaethedig gael eu gwneud. Yn unol â hynny, dylai unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud fel eu bod yn cael eu derbyn gan Ofwat erbyn 5pm ar 7 Ebrill 2024.
- 6.2 Dylid anfon sylwadau at Dayana Daneva yn y cyfeiriad canlynol:
- E-bost: enforcement@ofwat.gov.uk; neu
 - Drwy'r post i: Enforcement, Ofwat, Centre City Tower, 7 Hill Street, Birmingham, B5 4UA
- 6.3 Efallai y byddwn yn cyhoeddi copiâu neu grynodedbau o sylwadau a gwrthwynebiadau a dderbynnir gennym mewn ymateb i'r hysbysiad hwn ar ein gwefan. Nodwch os ydych am i'ch ymateb beidio cael ei gyhoeddi.
- 6.4 Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r hysbysiad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth - yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FoIA), Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- 6.5 Os hoffai personau sy'n cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau i'r hysbysiad hwn gael ei thrin yn gyfrinachol, a fyddech cystal â bod yn ymwybodol, bod 'Cod Ymarfer' statudol yn bodoli, o dan FoIA, sy'n delio, ymhlith pethau eraill, gyda rhwymedigaethau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol, wrth gyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau, i egluro pam yr ydych o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried yr esboniad hwn yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar Ofwat.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL